



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 21 Ebrill 2010
Wednesday, 21 April 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 22 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and the Minister for the Economy and Transport
- 40 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Cyngor Partneriaeth Busnes
Welsh Conservatives Debate: The Business Partnership Council
- 60 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n Canolbwyntio ar y
Dinesydd
Welsh Conservatives Debate: Citizen-centred Public Services
- 93 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 98 Dadl Fer a Ohiriwyd ers 24 Mawrth 2010: Addysg Rhyw: Mwy nag Anatomi
Short Debate Postponed from 24 March 2010: Sex Education: More Than Just
Anatomy

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog iechyd. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister for health.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Modern Drug Treatments

Q1 David Melding: Will the Minister make a statement on the availability of modern drug treatments in Wales?
OAQ(3)1491(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): Yes, the availability and effectiveness of drugs and their potential benefit to patients in Wales are guided by the recommendations of the National Institute for Health and Clinical Excellence and the all-Wales medicines strategy group.

David Melding: I have recently had sight of the excellent report prepared by Leukaemia CARE on the availability of drugs for people who have leukaemia and other cancers. Incidentally, I commend Peter Black, who was involved in that report, and your colleague, Jessica Morden; the report obviously had cross-party support. I was particularly impressed by the five focused recommendations, and the one that I want to ask you about is that on the implementation of guidance by NICE and the all-Wales medicines strategy group to allow very sick people to have access to the most modern drugs. Are you providing the necessary funds so that these directives can be implemented as soon as possible?

Edwina Hart: I very much hope that the necessary funds are available. When NICE issues guidance and so on, it is up to the local health boards to ensure that the necessary drugs are provided. However, in view of the issues that you have raised with me, when I have my annual meeting with NICE, I will discuss further some of the issues around drugs, and I also anticipate that Professor Routledge's report will be out soon. I will be

Triniaethau Cyffuriau Modern

C1 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd triniaethau cyffuriau modern yng Nghymru?
OAQ(3)1491(HSS)

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Gwnaf. Caiff argaeledd ac effeithiolrwydd cyffuriau a'u manteision posibl i gleifion yng Nghymru eu harwain gan argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan.

David Melding: Yn ddiweddar, gwelais yr adroddiad rhagorol a baratowyd gan Leukaemia CARE ar argaeledd cyffuriau i bobl sydd â lewcemia a mathau eraill o ganser. Gyda llaw, yr wyf yn cymeradwyo Peter Black, a fu'n ymwneud â'r adroddiad hwnnw, a'ch cydweithiwr Jessica Morden; mae'n amlwg fod yr adroddiad wedi cael cefnogaeth ar draws y pleidiau. Gwnaeth y pum argymhelliad argraff arbennig arnaf, ac yr wyf am eich holi am yr argymhelliad ynghylch gweithredu'r arweiniad gan NICE a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan i ganiatáu i bobl sy'n sâl iawn allu cael y cyffuriau mwyaf modern. A ydych yn darparu'r cyllid angenrheidiol fel y gellir gweithredu'r cyfarwyddebau hyn cyn gynted ag sy'n bosibl?

Edwina Hart: Yr wyf yn gobeithio'n fawr fod y cyllid angenrheidiol ar gael. Pan fydd NICE yn rhoi arweiniad, ac yn y blaen, y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyffuriau angenrheidiol yn cael eu darparu. Fodd bynnag, o gofio'r materion yr ydych wedi'u codi gyda mi, pan fyddaf yn cael fy nghyfarfod blynyddol gyda NICE byddaf yn trafod rhai o'r problemau ynghylch cyffuriau ymhellach, ac yr wyf hefyd yn

more than happy to ensure that there is clarity on all the issues that you have just raised with me.

David Lloyd: Minister, what representations are you making to pharmaceutical companies to present their drug data to the medical profession on a clear and unambiguous basis? I ask this in particular because of the need to use absolute values to judge the efficacy of a drug, and not the relative percentage increases that are commonly used at present to inflate how good a particular drug is.

Edwina Hart: I am aware of this issue, Dr Lloyd, and it must be of concern to clinicians, to ensure that they have the correct information in front of them. I will certainly discuss that with my officials. It might be appropriate to discuss it with NICE also, given that it receives all the drugs companies' appraisals from their research and so on when they ask for their drugs to become standard use within the NHS.

Pryderon Cleifion y GIG

C2 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pryderon cleifion y GIG yn cael eu clywed? OAQ(3)1516(HSS)

Edwina Hart: I have consulted on draft regulations and revised arrangements for handling and investigating patient concerns. The proposals of the Putting Things Right project aim to ensure that the NHS investigates concerns properly and learns lessons when things go wrong, so that services can improve. I will consider the responses when taking forward the proposals.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb. Ers i'r cynghorau iechyd cymuned yn sir Benfro, Ceredigion a sir Gaerfyrddin uno i ffurfio Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, mae pryderon wedi'u mynegi i mi gan fy etholwyr ynghylch hyn. Mae'r pryderon hynny yn cynnwys maint y sefydliad newydd o ystyried ei fod yn awr yn

rhagweld y bydd adroddiad yr Athro Routledge ar gael yn fuan. Byddaf yn fwy na bodlon sicrhau y bydd eglurder ar yr holl faterion yr ydych newydd sôn wrthyf amdanynt.

David Lloyd: Weinidog, pa sylwadau yr ydych chi'n eu rhoi i'r cwmnïau fferyllol am gyflwyno'u data ar gyffuriau i'r proffesiwn meddygol mewn modd clir a diamwys? Gofynnaf hyn yn benodol oherwydd bod angen defnyddio gwerthoedd absoliwt i asesu effeithiolrwydd cyffur, nid y cynnydd cymharol mewn canrannau a ddefnyddir yn gyffredin ar hyn o bryd i or-ddweud pa mor dda yw cyffur penodol.

Edwina Hart: Yr wyf yn ymwybodol o'r broblem hon, Dr Lloyd, a rhaid ei bod yn bwysig i glinigwyr i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir o'u blaenau. Byddaf yn sicrhau yn trafod hynny gyda'm swyddogion. Gallai fod yn briodol trafod hynny gyda NICE hefyd, o gofio'i fod yn cael gwerthusiad pob un o'r cwmnïau cyffuriau o'u gwaith ymchwil ac yn y blaen pan fyddant yn gofyn i'w cyffuriau gael eu defnyddio'n gyffredin yn y GIG.

The Concerns of NHS Patients

Q2 Paul Davies: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to ensure the concerns of NHS patients are heard? OAQ(3)1516(HSS)

Edwina Hart: Yr wyf wedi ymgynghori ar reoliadau drafft a threfniadau diwygiedig ar gyfer ymdrin â phryderon cleifion ac ymchwilio iddynt. Nod cynigion y prosiect Gweithio i Wella yw sicrhau bod y GIG yn ymchwilio i bryderon yn briodol, ac yn dysgu gwersi pan fydd pethau'n mynd o'u lle, fel y gall gwasanaethau wella. Byddaf yn ystyried yr ymatebion wrth weithredu'r cynigion.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for her response. Since the community health councils in Pembrokeshire, Ceredigion and Carmarthenshire have emerged to form the Hywel Dda Community Health Council, my constituents have expressed their concerns to me about it. Those concerns include the size of the new organisation given that it now

cynrychioli ardal enfawr, gyda sir Benfro ar ei hymyl. Mae pryderon hefyd ynghylch ariannu'r strwythur newydd hwn. Yn naturiol, bydd y Gweinidog yn disgwyl imi ddweud ei bod yn hanfodol canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau iechyd yn sir Benfro a sicrhau bod pryderon cleifion yn cael eu cynrychioli mewn ffordd briodol. Yn sgîl y strwythur newydd hwn, a all y Gweinidog gadarnhau y bydd llais cleifion yn fy etholaeth yn cael ei glywed a'i gynrychioli yn briodol?

Edwina Hart: I hope that the revision in the community health councils' arrangements will mean that patients' concerns can be taken forward. I understand the points that you have made, and they have also been made to me directly. I will be looking at how these new arrangements bed in and will take on board any concerns that are raised with me during the initial period. However, I am content that the arrangements will be good for patients, as the other measures that I am putting in place will be good for the representation of patients' views. If Members have concerns on behalf of their constituents, or if any further groups want to lobby me and discuss issues, I will be happy to engage in meetings.

Jeff Cuthbert: Minister, as the recently appointed president of the Caerphilly branch of Parkinson's UK, I want to ensure that those suffering from Parkinson's disease and their carers are fully supported. In its UK manifesto, Parkinson's UK applauds the Welsh Assembly Government's decision to offer free prescriptions, which is a great help for Parkinson's sufferers, some of whom have to take up to 15 different items a day. Minister, will you join me in welcoming the rebrand, which was launched here yesterday, of the Parkinson's Disease Society as Parkinson's UK? Its strapline is

'Change attitudes. Find a cure. Join us.'

Will you also undertake to receive representations from the association in due course?

represents an enormous area, with Pembrokeshire on the periphery. There are also concerns about the funding of the new structure. Naturally, the Minister will expect me to say that it is vital that we concentrate on protecting the health services in Pembrokeshire and ensuring that the concerns of patients are represented appropriately. Following this new structure, can the Minister confirm that the voice of patients will be heard and appropriately represented?

Edwina Hart: Gobeithio y bydd y diwygiadau yn nhrefniadau'r cynghorau iechyd cymuned yn golygu bod modd ymdrin â phryderon cleifion. Yr wyf yn deall y pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud, ac sydd wedi eu gwneud hefyd i mi'n uniongyrchol. Byddaf yn edrych ar y modd y mae'r trefniadau newydd hyn yn ymsefydlu, a byddaf yn ystyried unrhyw bryderon a godir gyda mi yn ystod y cyfnod dechreuol. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon y bydd y trefniadau'n dda i gleifion, fel y bydd y mesurau eraill yr wyf yn eu rhoi ar waith yn dda ar gyfer cynrychioli barn cleifion. Os oes gan Aelodau bryderon ar ran eu hetholwyr, neu os oes unrhyw grwpiau eraill am fy lobïo a thrafod y materion hyn gyda mi, byddaf yn falch cymryd rhan mewn cyfarfodydd.

Jeff Cuthbert: Weinidog, fel un sydd newydd ei ethol yn llywydd cangen Caerffili o Parkinson's UK, yr wyf am sicrhau bod pobl sy'n dioddef gan glefyd Parkinson a'r sawl sy'n gofalu amdanynt yn cael cefnogaeth lawn. Yn ei fanifesto ar gyfer y DU mae Parkinson's UK yn cymeradwyo penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i gynnig presgripsiynau am ddim, sy'n help mawr i ddioddefwyr clefyd Parkinson, gan fod rhai ohonynt yn gorfod cymryd hyd at 15 o eitemau gwahanol bob dydd. Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r ffaith bod Cymdeithas Clefyd Parkinson wedi'i hailfrandio fel Parkinson's UK, a gafodd ei lansio yma ddoe? Slogan y Gymdeithas yw:

Beth am newid agweddau, dod o hyd i wellhad, ac ymuno â ni?

A wnewch chi hefyd addo cymryd sylwadau gan y gymdeithas maes o law?

Edwina Hart: I will take representations from the association as I do from any voluntary sector bodies that come to me. Parkinson's is a difficult disease for those who have it to live with and it is not easily understood. I welcome your involvement, and I am sure that you will become a champion for the organisation now that you have taken over as chair of your local branch.

Jenny Randerson: Minister, the community health councils are an important voice for patients. When you reorganised community health councils, you applied a standard formula throughout Wales, which has meant that the size of the community health council for Cardiff and the Vale has, in effect, been halved. It now has only 24 members for a large population. I have raised this issue and my concerns with you before, but I now have information that shows that the councils are having great difficulty nominating representatives to the CHC, because the projected number of days' work that are required every month is so great in Cardiff and the Vale that it will be impossible for councillors—and representatives now have to be councillors—to fulfil their duties as councillors as well as members of the CHC. Minister, will you look again not just at the issue of the number of members in Cardiff and the Vale, but also at the requirement that members of the CHC be councillors rather than their nominees?

Edwina Hart: I know that you have had concerns for some time about the numbers. Through various correspondence that I have received, I have seen notifications that local authority members have been appointed to CHCs, but, in view of your specific reference to this today, I will discuss this issue with my officials and report back to Members. There is obviously considerable interest in the proper functioning of CHCs, which we have maintained in Wales for very good reasons.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, hoffwn

Edwina Hart: Byddaf yn cymryd sylwadau gan y gymdeithas fel yr wyf yn ei wneud gan unrhyw gorff o'r sector gwirfoddol sy'n dod ataf. Mae clefyd Parkinson yn glefyd anodd i'r sawl sy'n gorfod byw gydag ef, ac nid yw'n hawdd ei ddeall. Croesawaf eich ymwneud â'r gymdeithas, ac yr wyf yn siŵr y dowch dod yn eiriolwr dros y sefydliad gan eich bod yn awr wedi cymryd yr awenau fel cadeirydd eich cangen leol.

Jenny Randerson: Weinidog, mae'r cynghorau iechyd cymuned yn llais pwysig i gleifion. Pan aethoch ati i aildefnu'r cynghorau iechyd cymuned, ddefnyddiwyd fformiwla safonol gennyh ar draws Cymru gyfan, sydd wedi golygu bod maint y cyngor iechyd cymuned ar gyfer Caerdydd a'r Fro wedi haneru, i bob pwrpas. Erbyn hyn, dim ond 24 o aelodau sydd ganddo ar gyfer poblogaeth fawr. Yr wyf wedi codi'r mater hwn a'm pryderon gyda chi o'r blaen, ond erbyn hyn mae gennyf wybodaeth sy'n dangos bod y cynghorau'n cael anhawster mawr i enwebu cynrychiolwyr i'r cynghorau iechyd cymuned, oherwydd bod nifer y diwrnodau gwaith y rhagwelir y bydd eu hangen bob mis mor fawr yng Nghaerdydd a'r Fro nes ei bod yn amhosibl i gynghorwyr—a rhaid i gynrychiolwyr fod yn gynghorwyr erbyn hyn—gyflawni eu dyletswyddau fel cynghorwyr ac fel aelodau o'r cyngor iechyd cymuned. Weinidog, a wnewch chi edrych eto, nid yn unig ar nifer yr aelodau sydd yng Nghaerdydd a'r Fro, ond hefyd ar y gofyniad bod yn rhaid i aelodau'r cyngor iechyd cymuned fod yn gynghorwyr yn hytrach na rhywrai a enwebir ganddynt?

Edwina Hart: Gwn ichi fod yn pryderu ynghylch y niferoedd ers cryn amser. Trwy amrywiol eitemau o ohebiaeth yr wyf wedi'u cael, yr wyf wedi gweld hysbysiadau bod aelodau awdurdodau lleol wedi eu penodi i gynghorau iechyd cymuned, ond o gofio'ch cyfeiriad penodol at y mater hwn heddiw, byddaf yn ei drafod gyda'm swyddogion ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau. Mae'n amlwg bod diddordeb sylweddol mewn sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned yn gweithredu'n iawn, a chawsant eu cadw yng Nghymru am resymau da iawn.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I want to

gyfeirio yn ôl at eich ateb i Paul Davies yn gynharach. Diolch am eich parodrwydd i gwrdd â mi i drafod pryderon rhai o fy etholwyr a'ch parodrwydd i weithredu ar y materion hyn. Hoffwn dynnu eich sylw at y gwasanaeth y tu hwnt i oriau gwaith. Yr wyf wedi clywed pryderon am y wybodaeth y mae'r meddygon sy'n cyflawni'r gwasanaeth hwn yn ei chael gan feddygon teulu, ac yn benodol am un achos pan oedd claf mewn cartref preswyl. Yn y sefyllfa honno, nid yw'r nodiadau'n mynd yn uniongyrchol o'r meddyg teulu i'r meddyg sydd ar ddyletswydd y tu hwnt i oriau gwaith. Felly, mae'n anodd i'r meddyg hwnnw, neu honno, wneud penderfyniad am y math o wasanaeth sydd ei angen ar y claf.

1.40 p.m.

Edwina Hart: I am currently looking at the provision of out-of-hours services across Wales, and I would be more than happy to take up that point. I have been doing some work in conjunction with Dr Chris Jones on providing better care, access, and out-of-hours services, and I will certainly feed your comments into that work. Information is the key: if the out-of-hours service cannot see the medical records properly, it will not be able to give the appropriate advice. The same also applies when people turn up at accident and emergency departments and minor injuries units. It is very handy for staff to see proper medical records, which is why the Gwent experiment on dealing with medical records has been so good. The experiment will be rolled out across Wales. However, you make a valid point about the needs of people in residential care homes.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 3, OAQ(3)1475(HSS), i'w ateb yn ysgrifenedig.

NHS Dental Services

Q4 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the provision of NHS dental services in North Wales?
OAQ(3)1493(HSS)

refer you back to your earlier response to Paul Davies. Thank you for your willingness to meet me to discuss the concerns of some of my constituents and your willingness to act on these matters. I wish to draw your attention to the out-of-hours services. I have heard concerns about the information which the doctors providing that service receive from general practitioners, and particularly about one case in which the patient was in a residential home. In such a case, the patient's notes do not go directly from the GP to the doctor on out-of-hours duty. Therefore, it is difficult for that doctor to make a decision about the kind of service which the patient requires.

Edwina Hart: Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar draws Cymru, a byddwn yn fwy na bodlon ystyried y pwynt hwnnw. Yr wyf wedi bod yn gwneud ychydig o waith ar y cyd â Dr Chris Jones ar ddarparu gwell gofal, mynediad a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith, a byddaf yn sicrhau yn bwydo eich sylwadau i mewn i'r gwaith hwnnw. Gwybodaeth yw'r allwedd: os na all y gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith weld y cofnodion meddygol yn iawn, ni fydd yn gallu rhoi'r cyngor priodol. Mae'r un peth yn wir hefyd pan fydd pobl yn cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys ac unedau mân anafiadau. Mae'n ddefnyddiol iawn i staff weld cofnodion meddygol cywir, a dyna pam mae'r arbrawf yng Ngwent ar ymdrin â chofnodion meddygol wedi bod mor dda. Bydd yr arbrawf yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae gennych bwynt dilys ynghylch anghenion pobl mewn cartrefi gofal preswyl.

The Presiding Officer: Question 3, OAQ(3)1475(HSS), has been transferred for written answer.

Gwasanaethau Deintyddol y GIG

C4 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG yng Ngogledd Cymru?
OAQ(3)1493(HSS)

Edwina Hart: In some parts of North Wales, particularly Gwynedd and Anglesey, there are areas in which access to NHS dentistry is still difficult. We want to see further progress towards reaching a position in which everyone in Wales who wants access to NHS dental care can do so.

Brynle Williams: Thank you for that answer, Minister, and I am grateful to you for writing to me on this issue. However, it is still the case that people in North Wales are experiencing great difficulty in accessing NHS dental treatment. A smaller proportion of children and adults there receives dental treatment on the NHS than in any region of Wales. The Assembly Government has had four years in which to make the new dental contract work, so why is it still, regrettably, failing the people in my region?

Edwina Hart: Local health boards have the responsibility for the provision of dental care to meet local needs, and for the control over, and accountability for, their dental records. There have been some issues of widespread variations across North Wales, as I have indicated. It has also been difficult, historically, to fill posts in the rural north and in west Wales, which your colleague, Paul Davies, has already raised with me. I have asked the LHB to look at interest among local dental providers who wish to have new and extended practices, and I very much hope that the situation will be resolved. As a Government, we are committed to NHS dentistry. For the fourth year running, I have not raised any of the charges for NHS services.

Janet Ryder: Minister, you have already alluded to the difference that is emerging in north Wales between east and west. If one is fortunate enough to live in north-east Wales, there is relatively good access to NHS dentists, although it is not perfect. However, that access diminishes the further west one goes. You have outlined some of the steps that you are taking to help the new health

Edwina Hart: Mewn rhai rhannau yn y gogledd, yn enwedig Gwynedd ac Ynys Môn, mae yna ardaloedd lle mae'n anodd cael gwasanaethau deintyddol y GIG o hyd. Yr ydym am weld cynnydd pellach tuag at gyrraedd sefyllfa lle gall pawb yng Nghymru sydd am gael gofal deintyddol dan y GIG wneud hynny.

Brynle Williams: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac yr wyf yn ddiolchgar ichi am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, mae pobl yn y gogledd yn dal i gael trafferthion sylweddol wrth geisio cael triniaeth ddeintyddol dan y GIG. Mae cyfran lai o blant ac oedolion yno'n cael triniaeth ddeintyddol dan y GIG nag mewn unrhyw ranbarth arall yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cael pedair blynedd i wneud i'r contract deintyddol newydd weithio, felly, pam nad yw'n gweithio o hyd i'r bobl yn fy rhanbarth i, gwaetha'r modd?

Edwina Hart: Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gofal deintyddol i ddiwallu anghenion lleol, ac am reoli cofnodion deintyddol a bod yn atebol amdanynt. Mae rhai problemau wedi codi o ran amrywiadau helaeth ar draws y gogledd, fel yr wyf wedi sôn. Mae hefyd wedi bod yn anodd llenwi swyddi gwag yn ardal wledig y gogledd a'r gorllewin yn hanesyddol, sy'n rhywbeth y mae Paul Davies, eich cydweithiwr, eisoes wedi'i godi gyda mi. Yr wyf wedi gofyn i'r bwrdd iechyd lleol edrych ar y diddordeb ymysg darparwyr gwasanaethau deintyddol lleol sy'n dymuno ehangu eu practisiau ac agor rhai newydd, ac yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd y sefyllfa'n cael ei datrys. Fel Llywodraeth, yr ydym wedi ymrwymo i wasanaethau deintyddol y GIG. Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, nid wyf wedi codi'r taliadau am wasanaethau'r GIG.

Janet Ryder: Weinidog, yr ydych eisoes wedi crybwyll y gwahaniaeth sy'n dod yn amlwg yn y gogledd rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Os ydych yn ddigon ffodus i fyw yn y gogledd-ddwyrain, gallwch gael mynediad gweddol dda i ddeintyddion y GIG, er nad yw'n berffaith. Fodd bynnag, mae'r mynediad hwnnw'n lleihau y pellaf i'r gorllewin yr ewch chi. Yr ydych wedi

board that covers all of north Wales to overcome this difficulty. Will you be encouraging it more strongly to look at employing salaried dentists and at encouraging new dental practices, and will you be considering what other kinds of measures you can put in place to try to address the imbalance?

Edwina Hart: I am very keen on employing salaried dentists, and it is open to LHBs to consider such arrangements. You make a very good point. Across Betsi Cadwaladr University Health Board's area, I believe that Denbighshire has the highest rate of access to NHS dentistry at 70.4 per cent, and Gwynedd has the lowest at 34 to 35 per cent. That difference indicates the extent of the problem in that area, and I expect the health board to look carefully at its policies, because it is a priority for us as a Government to provide NHS services.

NHS Services

Q5 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on her priorities for improving the delivery of NHS services in North Wales? OAQ(3)1492(HSS)

Edwina Hart: My priorities for North Wales are the same as those for the whole of Wales, and that is to continue with the implementation of NHS reforms so that patients across Wales are seen and treated as quickly as possible.

Brynle Williams: Thank you once again for that answer, Minister. In light of the current shortage of hundreds of doctors and consultants across Wales, last month's Royal College of Nursing Wales report that a quarter of nurses believe that staff shortages are compromising patient care on most shifts, and today's report that doctors have been left to care for as many as 400 patients in a single night, what assurances can you give patients in my region of North Wales that your Government is treating that staff shortfall seriously, and that their care will not be compromised as a result?

amlinellu rhai o'r camau yr ydych yn eu cymryd i helpu'r bwrdd iechyd newydd sy'n ymdrin â'r gogledd i gyd i oresgyn yr anhawster hwn. A fyddwch yn rhoi rhagor o anogaeth i'r bwrdd ystyried cyflogi deintyddion ar gyflog ac annog practisiau deintyddol newydd i agor, ac a fyddwch yn ystyried pa fathau eraill o fesurau y gallwch eu gweithredu i geisio mynd i'r afael â'r anghydwysedd?

Edwina Hart: Yr wyf yn frwd iawn dros gyflogi deintyddion ar gyflog, a gall y byrddau iechyd lleol ystyried trefniadau o'r fath. Mae gennych bwynt da iawn. Ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, credaf mai Sir Ddinbych sydd â'r gyfradd uchaf o fynediad i ddeintyddiaeth y GIG, ar 70.4 y cant, ac mai Gwynedd sydd â'r gyfradd isaf ar 34 i 35 y cant. Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n dangos graddau'r broblem yn yr ardal honno, a disgwyliaf i'r bwrdd iechyd ystyried ei bolisiau'n ofalus, oherwydd mae darparu gwasanaethau'r GIG yn flaenoriaeth inni fel Llywodraeth.

Gwasanaethau'r GIG

C5 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gwella darparu gwasanaethau'r GIG yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1492(HSS)

Edwina Hart: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer y gogledd yr un fathpeth â'm blaenoriaethau ar gyfer Cymru gyfan, sef parhau i weithredu diwygiadau'r GIG fel y gall cleifion ar draws Cymru gael eu gweld a'u trin cyn gynted ag sy'n bosibl.

Brynle Williams: Diolch ichi unwaith yn rhagor am yr ateb hwnnw, Weinidog. O gofio'r prinder presennol o gannoedd o feddygon a meddygon ymgynghorol ar draws Cymru, yr adroddiad fis diwethaf gan Goleg Nyrso Brenhinol Cymru a oedd yn dweud bod un o bob pedair nyrs o'r farn bod prinder staff yn peryglu gofal cleifion ar y rhan fwyaf o shifftiau, a'r adroddiad heddiw sy'n dweud bod meddygon wedi eu gadael i ofalu am gynifer â 400 o gleifion mewn un noson, pa sicrwydd y gallwch ei roi i gleifion yn fy rhanbarth i, sef rhanbarth y gogledd, fod eich Llywodraeth yn trin y prinder staff hwn o ddifrif, ac na fydd hyn yn peryglu'r gofal a

roddir iddynt?

Edwina Hart: I do not accept your comments in full, but I will accept the fact that we have had great difficulty recruiting in some areas of Wales, particularly junior doctors. We have been discussing this with the deanery, and we have proposals in hand to look at recruitment from outside Europe and at what more we can do on this issue. I believe that we are training adequate numbers of doctors and nurses for our future needs, but it is important that local health boards take these matters seriously. There is a definite problem in Wales of getting people to go to the west. What we need to do more is to consider how we encourage them to stay and to understand the areas that they are entering. That is sometimes to do with the quality of the experience that they have in Wales, and we need to do much more to enhance that, to ensure that they stay within Wales.

Gareth Jones: A allwch chi gadarnhau bod buddsoddi hyd at £42 miliwn mewn gwasanaethau meddygol newydd yn Ysbyty Llandudno yn parhau'n flaenoriaeth uchel a gweithredol i Lywodraeth Cymru a bod yr ysbyty yn greiddiol i wella'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd?

Edwina Hart: The continued use of Llandudno Hospital, as far as I am concerned, is not in any doubt. It is essential to the future development of health services in north Wales, and it is important that Betsi Cadwaladr University Local Health Board, in its review of services across north Wales, understands and recognises that. As far as I am concerned, it will remain key to the future development of health services in north Wales.

Eleanor Burnham: You kindly wrote back to me when I inquired about concerns regarding continuing healthcare, particularly around maintaining high-quality dementia care. I mentioned in particular a visit that I made to a Gwynedd care home, which, on the surface, looked to be very well placed to have your support. I know that you have referred the matter to the chief executive of Betsi Cadwaladr LHB, but can you revisit it to

Edwina Hart: Nid wyf yn derbyn eich sylwadau'n llawn, ond derbyniaf y ffaith ein bod wedi cael anhawster mawr i recriwtio mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn enwedig meddygon iau. Yr ydym wedi bod yn trafod y mater hwn gyda'r ddeoniaeth, ac mae gennym gynigion i ystyried recriwtio o'r tu allan i Ewrop, ac ystyried beth arall y gallwn ei wneud am y mater hwn. Credaf ein bod yn hyfforddi digon o feddygon a nyrsys ar gyfer ein hanghenion yn y dyfodol, ond mae'n bwysig i fyrddau iechyd lleol gymryd y problemau hyn o ddifrif. Yn sicr, mae yna broblem yng Nghymru o ran cael pobl i fynd i'r gorllewin. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yn fwy yw ystyried sut y byddwn yn eu hannog i aros a deall yr ardaloedd y maent yn dod iddynt. Mae hynny weithiau'n ymwneud ag ansawdd y profiad a gânt yng Nghymru, ac mae angen inni wneud llawer yn fwy i wella hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yng Nghymru.

Gareth Jones: Are you able to confirm that investing up to £42 million in new medical services at Llandudno Hospital remains an active priority for the Welsh Government and that the hospital is central to the improvement of the health service in north Wales?

Edwina Hart: Nid oes dim amheuaeth ynghylch parhau i ddefnyddio Ysbyty Llandudno, o'm rhan i. Mae'n hollbwysig i ddatblygiad gwasanaethau iechyd y gogledd yn y dyfodol, ac mae'n bwysig i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ddeall a chydabod hynny, yn ei adolygiad o wasanaethau ar draws y gogledd. O'm rhan i, bydd yn parhau'n allweddol i ddatblygiad gwasanaethau iechyd yn y gogledd yn y dyfodol.

Eleanor Burnham: Buoch yn ddigon caredig i ysgrifennu'n ôl ataf pan ymholais ynghylch pryderon yn ymwneud â gofal iechyd parhaus, yn enwedig o ran cynnal gofal demensia o safon. Soniais yn arbennig am gartref gofal yr oeddwn wedi ymweld ag ef yng Ngwynedd, a oedd yn ymddangos fel pe bai mewn sefyllfa dda i gael cefnogaeth gennych, ar yr wyneb. Gwn eich bod wedi cyfeirio'r mater at brif weithredwr Bwrdd

clarify it further and to assure me that, as Minister, you are doing your best, given that this is an ongoing issue that will be even more pressing as demography changes in north Wales and throughout Wales?

Edwina Hart: Dementia care remains one of the key issues of concern for the Government. You must only look at the numbers involved with regards dementia, given that we are living longer and that older people tend to develop dementia; many young people are now also developing dementia. We have done further work on the dementia plan; the various groups have met and have given me advice. We are now co-ordinating that work to create a proper dementia plan that stands up to scrutiny and which LHBs can start to deliver. We cannot deliver the dementia plan on our own as an NHS; we must do it in collaboration with social services, other partners and the voluntary sector. It is important that we get dementia services correct and up and running, because it is about all our futures. We also need to recognise the enormous costs associated with these services. It is important that we get everything in line much earlier.

Darren Millar: I listened carefully to your response to Gareth Jones's question about the future of Llandudno Hospital. Can you update us on the future of Abergele Hospital in my constituency, which you have indicated in the past will also have a future role within the NHS?

Edwina Hart: Abergele Hospital does have a future role within the NHS and I know that Betsi Cadwaladr LHB is discussing issues regarding the facilities that it has in north Wales. I am not in a position to give you an immediate update, because I am not meeting the north Wales chair until next week. However, I will be delighted to put something in writing to Members.

Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, ond a allwch ailystyried y mater hwn er mwyn cael mwy o eglurhad yn ei gylch, a rhoi sicrwydd imi eich bod yn gwneud eich gorau fel Gweinidog, o gofio bod hwn yn fater parhaus a fydd hyd yn oed yn bwysicach wrth i ddemograffeg newid yn y gogledd a thrwy Gymru gyfan?

Edwina Hart: Mae gofal demensia yn parhau'n un o'r meysydd allweddol sy'n bwysig i'r Llywodraeth. Nid oes ond rhaid ichi edrych ar y niferoedd dan sylw yn achos demensia, o gofio ein bod yn byw yn hwy a bod pobl hŷn yn tueddu i ddatblygu demensia; mae llawer o bobl ifanc hefyd yn datblygu demensia erbyn hyn. Yr ydym wedi gwneud gwaith pellach ar y cynllun demensia; mae'r gwahanol grwpiau wedi cwrdd ac wedi rhoi cyngor imi. Erbyn hyn, yr ydym yn cydlynu'r gwaith hwnnw i greu cynllun demensia priodol sy'n dal dŵr ac y gall byrddau iechyd lleol ddechrau ei gyflwyno. Ni allwn gyflwyno'r cynllun demensia ar ein pen ein hunain fel GIG; rhaid inni wneud hynny ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol, partneriaid eraill a'r sector gwirfoddol. Mae'n bwysig inni gael gwasanaethau demensia yn iawn, a dechrau eu darparu, oherwydd mae'n effeithio ar ddyfodol pob un ohonom. Mae angen inni gydnabod hefyd y costau aruthrol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn. Mae'n bwysig inni gael popeth mewn trefn lawer ynghynt.

Darren Millar: Gwrandewais yn ofalus ar eich ymateb i gwestiwn Gareth Jones am ddyfodol Ysbyty Llandudno. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ddyfodol Ysbyty Abergele yn fy etholaeth i? Yr ydych wedi awgrymu yn y gorffennol y bydd gan hwn hefyd rôl yn y GIG yn y dyfodol.

Edwina Hart: Mae gan Ysbyty Abergele rôl yn y GIG yn y dyfodol, a gwn fod Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr yn trafod problemau am y cyfleusterau sydd ganddo yn y gogledd. Nid wyf mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar unwaith, oherwydd ni fyddaf yn cwrdd â chadeirydd y gogledd tan yr wythnos nesaf. Fodd bynnag, byddaf yn falch cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig i'r Aelodau.

Policy Priorities

Q6 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on her policy priorities for 2010? OAQ(3)1486(HSS)

Edwina Hart: My policy priorities for 2010 are to work towards fulfilling the commitments outlined in 'One Wales', to improve people's health and to ensure that they have access to high-quality integrated health and social care that provides a good patient experience and can respond flexibly to their needs.

Jonathan Morgan: The Minister will know that next week is Multiple Sclerosis Week. The society is to theme its campaign around the right to a full life, but many issues affect people in Wales who live with MS, particularly the lack of encouragement and support to take up direct payments, the lack of personalisation of care budgets, the lack of access to public transport and the lack of provision for specialist wheelchair services. In some cases, there is also an issue of a lack of equity to treatment, because of the continuing postcode lottery, which certainly applies within the treatment of functional electrical stimulation. The cost of that to the NHS is relatively cheap: £1,600 for the first year's treatment and training and £600 in subsequent years. However, the longer-term savings to the NHS are significant, because of the reduced demand for physiotherapy and the reduction in the number of people with MS falling and needing to visit the accident and emergency department.

1.50 p.m.

I understand that the Cardiff and Vale University Local Health Board is the only board in Wales not to fund functional electrical stimulation. Will the Government look at the provision of treatment for people with multiple sclerosis in the future, consider how we can eliminate the postcode lottery and ensure that patients do not wait longer than six weeks, as is the current situation?

Edwina Hart: I have been concerned for a

Blaenoriaethau Polisi

C6 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau polisi ar gyfer 2010? OAQ(3)1486(HSS)

Edwina Hart: Fy mlaenoriaethau polisi ar gyfer 2010 yw gweithio tuag at fodloni'r ymrwymadau a amlinellir yn 'Cymru'n Un', i wella iechyd pobl a sicrhau eu bod yn gallu cael gofal iechyd a chymdeithasol integredig o safon sy'n rhoi profiad da i gleifion ac yn gallu ymateb yn hyblyg i'w hanghenion.

Jonathan Morgan: Bydd y Gweinidog yn gwybod bod yr wythnos nesaf yn Wythnos Sglerosis Ymledol. Bydd y gymdeithas yn trefnu ei hymgyrch o gwmpas y thema hawl i fyw bywyd llawn, ond mae llawer o broblemau'n effeithio ar bobl yng Nghymru sy'n byw gyda sglerosis ymledol, yn enwedig diffyg anogaeth a chymorth i fanteisio ar daliadau uniongyrchol, diffyg personoli cyllidebau gofal, diffyg cael cludiant cyhoeddus a'r diffyg darpariaeth gwasanaethau cadeiriau olwyn arbenigol. Mewn rhai achosion mae problem hefyd o ran diffyg mynediad teg i driniaeth, oherwydd y loteri cod post sy'n dal i fodoli. Mae'n sicr yn berthnasol yn achos y driniaeth ysgogiadau trydanol gweithredol. Mae cost y driniaeth honno'n eithaf rhad i'r GIG: £1,600 am y driniaeth a'r hyfforddiant am y flwyddyn gyntaf, a £600 yn y blynyddoedd wedi hynny. Fodd bynnag, mae'r arbedion tymor hwy i'r GIG yn sylweddol, oherwydd bydd llai o alw am ffisiotherapi a llai o bobl â sglerosis ymledol yn cwmpo ac yn gorfod mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys.

Deallaf mai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw'r unig fwrdd yng Nghymru sydd heb ariannu triniaeth ysgogiadau trydanol gweithredol. A wnaiff y Llywodraeth edrych ar y driniaeth a ddarperir i bobl sydd â sglerosis ymledol yn y dyfodol, ystyried sut y gallwn ddileu'r loteri cod post a sicrhau na fydd cleifion yn aros mwy na chwe wythnos, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Edwina Hart: Yr wyf wedi bod yn pryderu

long time about the equity issues around treatment of multiple sclerosis and other diseases in Wales. I am happy to take up the points that you have raised about service provision across the piece. There are some issues around MS that can be easily rectified; for example, if people with MS want to use a swimming pool, it needs to be warmer than usual. There are issues around this agenda that we need to look at more carefully. I will certainly take this matter up with Cardiff and Vale University Local Health Board and my officials.

Val Lloyd: You may be aware of figures released by Brain Tumour Research showing that funding for research into brain tumours and their treatment lags behind that of other cancers, so the progress and survival rate is worse. Only 12 per cent of males and 15 per cent of females with brain tumours survive beyond five years, compared with 50 per cent for other cancers. Brain tumours are also the biggest cancer killer for children in the UK. Could you therefore give us some detail on the Assembly Government's strategy for funding research into childhood brain tumours?

Edwina Hart: I know that this is a matter of great interest to parents, because you are right about the analysis of brain tumours and young children. I will certainly speak to my officials about the issues around research—where further resources could be made available, and how people can apply for those—and I will get back to you in a letter that I will copy to all Members.

Andrew R.T. Davies: Minister, one of the dysfunctional elements of the old regime was the exceptions committees that local health boards were operating across Wales. I have raised this in correspondence with you, and you indicated that the new boards would have the exceptions committees up and running and working effectively and transparently. What work has been undertaken to ensure that, first, the new local health boards have

ers amser hir am y problemau tegwch o ran trin sglerosis ymledol a chlefydau eraill yng Nghymru. Yr wyf yn fodlon ystyried y pwyntiau yr ydych wedi'u codi ynghylch y gwasanaeth a ddarperir yn gyffredinol. Mae rhai problemau ynghylch sglerosis ymledol y gellir eu datrys yn hawdd; er enghraifft, os yw pobl â sglerosis ymledol am ddefnyddio pwll nofio, mae angen i'r dŵr fod yn gynhesach nag arfer. Mae yna broblemau ynghylch yr agenda hon y mae angen inni eu hystyried yn fwy gofalus. Byddaf yn sicr yn trafod hyn gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'm swyddogion.

Val Lloyd: Efallai y byddwch yn ymwybodol o'r ffigurau a gafodd eu rhyddhau gan Brain Tumour Research, a oedd yn dangos bod cyllid ar gyfer gwaith ymchwil i achosion o diwmor ar yr ymennydd a'r broses o'u trin yn is nag ar gyfer mathau eraill o ganser, felly, nid yw pobl yn gwella ac yn goroesi cystal. Deuddeg y cant yn unig o ddynion a 15 y cant o fenywod sydd â thiwmor ar yr ymennydd sy'n byw mwy na phum mlynedd, o'i gymharu â chyfradd o 50 y cant ar gyfer mathau eraill o ganser. Tiwmor ar yr ymennydd yw'r canser sy'n lladd y nifer mwyaf o blant hefyd yn y DU. Felly, a allech roi ychydig fanylion inni am strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ariannu gwaith ymchwil i achosion o diwmor ar yr ymennydd mewn plant?

Edwina Hart: Gwn fod hwn yn fater sydd o ddiddordeb mawr i rieni, oherwydd yr ydych yn iawn ynghylch y dadansoddiad o achosion o diwmor ar yr ymennydd a phlant ifanc. Byddaf yn sicr yn siarad â'm swyddogion am y materion ynghylch gwaith ymchwil—ble y gellid darparu rhagor o adnoddau, a sut y gall pobl wneud cais amdanynt—ac ysgrifennaf atoch gan anfon copi o'r llythyr at bob Aelod.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, un o'r elfennau yn yr hen gyfundrefn nad oedd yn gweithio'n iawn oedd y pwyllgorau eithriadau yr oedd byrddau iechyd lleol yn eu gweithredu ar draws Cymru. Yr wyf wedi codi hyn gyda chi mewn gohebiaeth, ac awgrymech y byddai'r byrddau newydd yn sefydlu'r pwyllgorau eithriadau, ac y byddent yn gweithio'n effeithiol ac yn dryloyw. Pa waith sydd wedi'i wneud i sicrhau, yn gyntaf,

effective exceptions committees, but secondly and more importantly, that they are transparent in their decision-making, so that patients and clinicians can have confidence in the way that they exercise their functions?

Edwina Hart: I will check the status of the committees, which I would assume are up and running. On the transparency point, I am concerned that I have to look at greater transparency arrangements in some of these areas. You will recall that we had a lot of discussion around Health Commission Wales and the lack of transparency in its appeal system and so on. I have been discussing with Professor Mansel Aylward, who produced the initial report, what more work may be needed with the new structures around transparency. If you have no objections, I will write to you on this when I have established some further facts.

Andrew R.T. Davies: Thank you. I look forward to your correspondence, because I am sure that you are aware of the anguish of many relatives and patients at the exceptions committee stage, waiting for the decision.

You touched on the dementia plan earlier, and the work that has been undertaken in that regard. Given that this question is about your priorities, and the Government work that has flowed from the Conservative-led debate here, are you now in a position to tell us when the dementia plan might be published as an operational document? It has been some considerable time in preparation.

Edwina Hart: I have asked officials today to collate the various reports that have come in from the groups that I established to look at how we would implement the dementia plan. We will be providing an update to Members at the beginning of next week with some timescales for the operational plan.

Alun Davies: This question is on your policy

fod gan y byrddau iechyd lleol newydd bwyllgorau eithriadau effeithiol, ond yn ail ac yn bwysicach, eu bod yn gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw, fel y gall cleifion a chlinigwyr deimlo'n hyderus am y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau?

Edwina Hart: Byddaf yn cadarnhau statws y pwyllgorau, y byddwn yn tybio'u bod yn gweithredu. O ran bod yn dryloyw, yr wyf yn pryderu bod angen imi edrych ar drefniadau sy'n cynnig mwy o dryloywder yn rhai o'r meysydd hyn. Fe gofiwch inni drafod tipyn ar Gomisiwn Iechyd Cymru a'r diffyg tryloywder yn ei system apelio, ac yn y blaen. Yr wyf wedi bod yn trafod gyda'r Athro Mansel Aylward, a gynhyrchodd yr adroddiad dechreuol, ynghylch pa waith ychwanegol y gall fod angen ei wneud gyda'r strwythurau newydd o ran bod yn dryloyw. Os nad oes gwahaniaeth gennyh, ysgrifennaf atoch am hyn ar ôl imi gael rhai ffeithiau ychwanegol.

Andrew R.T. Davies: Diolch. Edrychaf ymlaen at eich gohebiaeth, oherwydd yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r gofid sydd gan nifer o berthnasau a chleifion ynghylch y cam pwyllgor eithriadau, wrth aros am y penderfyniad.

Bu ichi sôn ychydig am y cynllun demensia yn gynharach, a'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y cyswllt hwnnw. O gofio bod y cwestiwn hwn yn ymwneud â'ch blaenoriaethau, ac o gofio'r gwaith gan y Llywodraeth sydd wedi deillio o'r ddadl hon a arweinir gan y Ceidwadwyr, a ydych mewn sefyllfa erbyn hyn i ddweud wrthym pryd y gallai'r cynllun demensia gael ei gyhoeddi fel dogfen weithredol? Mae'r gwaith o'i baratoi wedi cymryd cryn amser.

Edwina Hart: Yr wyf wedi gofyn heddiw i swyddogion gasglu ynghyd yr amrywiol adroddiadau sydd wedi dod wrth y grwpiau yr wyf wedi'u sefydlu, i edrych ar y modd y byddem yn gweithredu'r cynllun demensia. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ddechrau wythnos nesaf, gan gynnwys rhai amserlenni ar gyfer y cynllun gweithredol.

Alun Davies: Mae'r cwestiwn hwn yn

priorities over the next six months. I am sure that it is your objective to create the world-class health service in Wales for which we have been investing over the last few years. With that in mind, I am sure that you were as pleased as I was to read a report on the 1000 Lives Campaign, which estimated that 852 additional lives have been saved in its first 18 months, and that over 29,000 episodes of harm have been avoided. That campaign was based on the enthusiasm and commitment of front-line staff, and also chimes with the advice that we have had from clinicians and others working in the health service. I am sure that you agree that this is exactly the sort of initiative that will drive change in the national health service, will deliver real benefits for people in their everyday lives, and will enable us to achieve our ambition of a world-class health service in Wales.

Edwina Hart: I concur, of course, with your comments about the 1000 Lives Campaign, and congratulate all NHS staff on making it such a successful campaign. There has been excellent leadership within the service to deal with the campaign, and I think that the principles from it are now embedded into the working of the NHS. With regard to priorities, it is important that all the work that I have commissioned and started, which even I would say has taken a long time to come to fruition, particularly with regard to the dementia plan, for example, needs to be finalised so that we can ensure that we are up to date on our priorities and know where we are going in terms of the policy agenda.

Peter Black: There was a commitment in 'One Wales' to pilot walk-in centres. What progress is being made on that?

Edwina Hart: Work is still ongoing in this regard, but I hope to make an announcement on it shortly.

Peter Black: I understand that there has been little progress on this since December. These walk-in centres could make a huge

ymwneud â'ch blaenoriaethau polisi dros y chwe mis nesaf. Yr wyf yn siŵr mai eich nod yw creu yng Nghymru y gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf yr ydym wedi bod yn buddsoddi ynddo dros y blynyddoedd diwethaf. O gofio hynny, yr wyf yn siŵr eich bod mor falch ag yr oeddwn i i ddarllen adroddiad ar yr Ymgyrch 1000 o Fywydau, a oedd yn amcangyfrif bod 852 o fywydau ychwanegol wedi eu hachub yn ystod 18 mis cyntaf yr ymgyrch, a bod dros 29,000 o achosion o niwed wedi eu hosgoi. Yr oedd yr ymgyrch honno'n seiliedig ar frwdfrydedd ac ymrwymiad staff rheng flaen, ac mae hefyd yn cyd-fynd â'r cyngor yr ydym wedi'i gael gan glinigwyr ac unigolion eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd. Yr wyf yn siŵr y cytunwch mai dyma'r union fath o fenter a fydd yn sbarduno newid yn y gwasanaeth iechyd gwladol, a fydd yn sicrhau manteision go iawn i bobl yn eu bywyd bob dydd, ac a fydd yn ein galluogi i gyrraedd ein huchelgais o sicrhau gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru.

Edwina Hart: Yr wyf, wrth gwrs, yn cytuno â'ch sylwadau ar yr Ymgyrch 1000 o Fywydau, ac yr wyf yn llongyfarch holl staff y GIG am wneud hon yn ymgyrch mor llwyddiannus. Cafwyd arweinyddiaeth wych yn y gwasanaeth i ymdrin â'r ymgyrch, a chredaf fod egwyddorion yr ymgyrch wedi'u sefydlu erbyn hyn fel rhan o'r modd y mae'r GIG yn gweithio. O ran blaenoriaethau, mae'n bwysig i'r holl waith yr wyf wedi'i gomisiynu a'i ddechrau ac sydd wedi cymryd amser hir i ddwyn ffrwyth, yr wyf yn cyfaddef, yn enwedig o ran y cynllun demensia, er enghraifft, gael ei gwblhau fel y gallwn sicrhau ein bod yn cyflawni ein blaenoriaethau'n amserol ac yn gwybod i ble'r ydym yn mynd o ran yr agenda polisi.

Peter Black: Cafwyd ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i dreialu canolfannau galw i mewn. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar hynny?

Edwina Hart: Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar hynny, ond yr wyf yn gobeithio gwneud cyhoeddiad yn ei gylch yn fuan.

Peter Black: Deallaf mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud ar hyn er mis Rhagfyr. Gallai'r canolfannau galw i mewn

difference. For example, 85 per cent of those who attend the two centres in Bristol do not need onward referral, and the average wait is 20 minutes. Do you think that we will have a timetable soon for when this will be piloted, so that patients in Wales can benefit from this service?

Edwina Hart: I would be delighted to look at the timescale for this and report on that to the Assembly.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 7, OAQ(3)1487(HSS), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Health Services in Gwent

Q8 Mohammad Asghar: Will the Minister make a statement on the provision of health services in Gwent? OAQ(3)1503(HSS)

Edwina Hart: I have made an investment of over £200 million in Gwent's health services: £172 million in funding for the new Ysbyty Ystrad Fawr, Caerphilly, and £53.7 million for Ysbyty Aneurin Bevan, Ebbw Vale, both of which are part of the Gwent clinical futures plan. I am also continuing to look at developing the specialist critical care centre.

Mohammad Asghar: Thank you, Minister, for the generous funding for the area, but it is worrying to read press reports in the Gwent area that predict a £10 million overspend by the Aneurin Bevan Local Health Board. It is essential, as I am sure that we all agree, that health boards should provide the best possible healthcare to patients. It is also essential that health boards are financially sound so that they can continue to offer these services in the future. Minister, how concerned are you that financial pressures on the health boards will impact on the healthcare that they offer to patients? Do you accept that addressing the extremely costly mistakes that result in as much as £1 billion of the health budget being misspent last year and the year before could go a long way to ensuring the financial sustainability of the

hyn wneud gwahaniaeth sylweddol. Er enghraifft, nid oes angen i 85 y cant o'r unigolion sy'n mynd i'r ddwy ganolfan ym Mryste gael eu cyfeirio ymlaen, ac 20 munud yw'r amser aros ar gyfartaledd. A ydych yn credu y bydd gennym amserlen yn fuan ar gyfer pryd y gellir treialu hyn, fel y gall cleifion yng Nghymru elwa o'r gwasanaeth hwn?

Edwina Hart: Byddwn yn falch edrych ar yr amserlen ar gyfer hyn ac adrodd ar hynny i'r Cynulliad.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)1487(HSS), has been transferred for written answer.

Gwasanaethau Iechyd yng Ngwent

C8 Mohammad Asghar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd yng Ngwent? OAQ(3)1503(HSS)

Edwina Hart: Yr wyf wedi gwneud buddsoddiad o dros £200 miliwn yng ngwasanaethau iechyd Gwent: £172 miliwn o gyllid ar gyfer Ysbyty newydd Ystrad Fawr, Caerffili, a £53.7 miliwn ar gyfer Ysbyty Aneurin Bevan, Glynabwy. Mae'r ddau ysbyty hyn yn rhan o gynllun dyfodol clinigol Gwent. Yr wyf hefyd yn parhau i edrych ar ddatblygu'r ganolfan gofal critigol arbenigol.

Mohammad Asghar: Diolch, Weinidog, am y cyllid hael i'r ardal hon, ond mae'n destun pryder darllen adroddiadau yn y wasg yn ardal Gwent sy'n rhagweld y bydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan orwariant o £10 miliwn. Mae'n hollbwysig, fel yr ydym i gyd yn cytuno, yr wyf yn siŵr, y dylai byrddau iechyd ddarparu'r gofal iechyd gorau posibl i gleifion. Mae hefyd yn hollbwysig i fyrddau iechyd mewn sefyllfa ariannol gref fel y gallant barhau i gynnig y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Weinidog, pa mor bryderus ydych chi y bydd y pwysau ariannol sydd ar y byrddau iechyd yn cael effaith ar y gofal iechyd y maent yn ei ddarparu i gleifion? A ydych yn derbyn y gallai mynd i'r afael â'r camgymeriadau hynod o gostus sydd wedi golygu bod cymaint ag £1 biliwn o'r gyllideb iechyd

new health boards?

wedi'i gamwario'r llynedd a'r flwyddyn flaenorol wneud llawer i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y byrddau iechyd newydd?

Edwina Hart: I can assure you that no money in the amounts that you are taking about is being misspent in the NHS. I have every confidence in the financial management of the local health boards and their ability to deliver services. My only concern is, if there were an unpleasant change of Government elsewhere, how that would impact on Welsh budgets.

Edwina Hart: Gallaf eich sicrhau nad oes dim symiau o'r math yr ydych yn sôn amdanynt yn cael eu camwario yn y GIG. Yr wyf yn hollol hyderus ynghylch y modd y caiff materion ariannol y byrddau iechyd lleol eu rheoli, ac ynghylch eu gallu i ddarparu gwasanaethau. Fy unig bryder yw, pe bai newid annymunol yn digwydd yn y Llywodraeth mewn man arall, pa effaith y byddai hynny'n ei chael ar gyllidebau Cymru.

Renal Dialysis Unit

Uned Dialysis Arennol

Q9 Trish Law: Will the Minister provide an update on plans to provide a renal dialysis unit in north Gwent? OAQ(3)1480(HSS)

C9 Trish Law: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddarparu uned dialysis arenol yng ngogledd Gwent? OAQ(3)1480(HSS)

Edwina Hart: I know that this is an issue that people in north Gwent are very concerned about. The Welsh health specialised services committee and the renal network are considering a renal dialysis unit in north Gwent as part of the all-Wales programme. An option appraisal is currently being undertaken.

Edwina Hart: Gwn fod hwn yn fater y mae pobl yng ngogledd Gwent yn pryderu'n fawr yn ei gylch. Mae pwyllgor gwasanaethau iechyd arbenigol Cymru a'r rhwydwaith arenau yn ystyried cael uned dialysis arenol yng ngogledd Gwent, fel rhan o'r rhaglen i Gymru gyfan. Mae gwerthusiad o'r dewisiadau sydd ar gael yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Trish Law: I am disappointed that you are unable to say when you expect to make an announcement about a new renal dialysis facility in north Gwent. It is two and a half years to the day since you made your original statement identifying north Gwent and other parts of Wales as priority areas for additional dialysis facilities. Some time ago, at the invitation of a constituent, I visited the renal dialysis unit at Prince Charles Hospital in Merthyr Tydfil, where many of my constituents go for treatment. It is housed in a temporary demountable building that has been there longer than anyone can remember. It is antiquated, and wholly inadequate according to modern standards. Can you tell us when you expect to make an announcement about a renal dialysis unit for north Gwent?

Trish Law: Yr wyf yn siomedig na allwch ddweud pryd yr ydych yn disgwyl gwneud cyhoeddiad am gyfleuster dialysis arenol newydd yng ngogledd Gwent. Mae union ddwy flynedd a hanner wedi mynd heibio ers ichi wneud eich datganiad gwreiddiol yn dweud bod gogledd Gwent a rhannau eraill o Gymru yn ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer cyfleusterau dialysis ychwanegol. Ychydig amser yn ôl, ar wahoddiad etholwr, ymwelais â'r uned dialysis arenol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful, lle mae nifer o'm hetholwyr yn mynd i gael triniaeth. Mae'r uned mewn adeilad symudol dros dro sydd yno ers cyn cof. Mae'n hen ffasiwn, ac yn hollol anaddas yn ôl safonau modern. A allwch ddweud wrthym pryd yr ydych yn disgwyl gwneud cyhoeddiad am uned dialysis arenol ar gyfer gogledd Gwent?

2.00 p.m.

Edwina Hart: The need for the expansion of dialysis services is self-evident. I have a group to advise me on this. It looks at the financial aspects and the reasons for what is required. It has looked at the issue of mobile dialysis and home dialysis, and it has prioritised. I will speak to my officials about how we will deal with it in the future. The establishment of the Welsh renal managed clinical network as one network from August 2009 will, I hope, speed up discussions on some of these issues. I understand your disappointment as the local Assembly Member, and the disappointment of your constituents, that this matter has not been progressed more quickly.

Rhodri Morgan: Would the Minister confirm that renal dialysis is a wonderful technology, but that, essentially, it puts people with kidney failure into a kind of limbo pending the availability of kidney transplants? Very relevant to this is the opening, due to take place very shortly, of the renal unit at the University Hospital of Wales, which will expand the capacity to do kidney transplants in the relevant area, including north Gwent, by 50 per cent, from 90 a year to 130 or 140 a year. We all very much look forward to that, because that is the answer, combined with the greater availability of organs for transplantation and the encouraging news on the legislative front that she is helping to organise.

Edwina Hart: We are excited about the renal transplant unit at the University Hospital of Wales. It is an excellent project and I know that the clinicians are eager for the work to be completed in that area. You raised a very important point about organ donation. It is important that we have our act together in terms of encouraging people to be on the organ donor register, and ensuring that their wishes are adhered to when they go on the organ donor register. During the last few weeks, this has been the subject of many discussions between me and officials in the light of some press reports.

William Graham: Noting your answer,

Edwina Hart: Mae'n gwbl amlwg bod angen ehangu gwasanaethau dialysis. Mae gennyf grŵp i'm cynghori ar hyn. Mae'n ystyried yr agweddau ariannol, a'r rhesymau dros yr hyn y mae ei angen. Mae wedi edrych ar ddialysis symudol a dialysis yn y cartref, ac mae wedi blaenoriaethu. Byddaf yn siarad â'm swyddogion am y modd y byddwn yn ymdrin â hyn yn y dyfodol. Gobeithio y bydd sefydlu'r rhwydwaith clinigol arenol a reolir i Gymru fel un rhwydwaith o fis Awst 2009 yn cyflymu'r trafodaethau am rai o'r materion hyn. Yr wyf yn deall eich siom fel yr Aelod Cynulliad lleol, a siom eich etholwyr, nad yw'r mater hwn wedi symud ymlaen ynghynt.

Rhodri Morgan: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod dialysis arenol yn dechnoleg ardderchog, ond ei fod, yn y bôn, yn rhoi pobl sydd â methiant yr arenau mewn sefyllfa o fethu â symud ymlaen, tra byddant yn disgwyl clywed a fydd arenau'n dod ar gael ar gyfer trawsblaniadau? Mae'n berthnasol iawn nodi bod yr uned arenol sydd ar fin agor yn fuan iawn yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac a fydd yn ehangu'r gallu i wneud llawdriniaethau trawsblannu arenau yn yr ardal berthnasol, gan gynnwys gogledd Gwent, 50 y cant, o 90 y flwyddyn i 130 neu 140 y flwyddyn. Yr ydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at hynny, oherwydd dyna'r ateb, ynghyd â chael rhagor o organau i'w trawsblannu, a'r newyddion calonogol ei bod yn helpu trefnu hynny o safbwynt deddfwriaeth.

Edwina Hart: Yr ydym yn teimlo'n gyffrous am yr uned trawsblannu arenau yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'n brosiect ardderchog, a gwn fod y clinigwyr yn awyddus i'r gwaith gael ei gwblhau yn yr ardal honno. Codwyd pwynt pwysig iawn gennych ynghylch rhoi organau. Mae'n bwysig inni roi trefn ar ein pethau o ran annog pobl i fod ar y gofrestr rhoi organau, a sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu parchu pan fyddant ar y gofrestr rhoi organau. Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, yr wyf wedi trafod hyn yn helaeth gyda'm swyddogion ar ôl gweld rhai adroddiadau yn y wasg.

William Graham: Gan nodi eich ateb,

Minister, and, in particular, the comment made by Rhodri Morgan, I hope that Assembly Members will place their names on that register, because it is a very easy to do. It does not affect you until after you are dead, in any case; therefore, we really should be doing it.

I wish to question you on the mobile renal unit—which many of my constituents have welcomed—that might be made available. I note that you have expended a greater amount of money on renal dialysis over recent years, so when do you think that the mobile unit might be available, not only in north Gwent, but throughout south-east Wales?

Edwina Hart: The renal network has been looking at the issue of how we will deal with mobile units. I have not had a recent update from it, but I will be more than happy to get one. In the light of Members' interest in this issue, it might be helpful if were to provide an updated written statement on all the issues around renal dialysis and the provision of units. I think that that would be helpful to Members in general.

Remote Communities

Q10 Leanne Wood: What discussions has the Minister had regarding health services in remote communities? OAQ(3)1471(HSS)

Edwina Hart: I am very pleased, because we have developed the rural health plan to ensure that the future health needs of rural communities are met in Wales. On 8 April, I launched the £1 million rural health innovation fund to improve access to healthcare in rural areas. I was supported by the Minister for Rural Affairs in this initiative.

Leanne Wood: I am not sure that all remote communities would be classified as rural communities. I am concerned about the minor injuries unit at the new hospital in

Weinidog, ac yn benodol y sylw a wnaed gan Rhodri Morgan, gobeithio y bydd Aelodau'r Cynulliad yn rhoi eu henwau ar y gofrestr honno, oherwydd mae'n hawdd iawn ei wneud. Nid yw'n effeithio arnoch nes byddwch wedi marw, sut bynnag; felly dylai pob un ohonom fod yn rhoi ein henwau ar y gofrestr.

Yr wyf am eich holi am yr uned arenol symudol—y mae nifer o'm hetholwyr wedi'i chroesawu—a allai fod ar gael. Sylwaf eich bod wedi gwario mwy o arian ar ddialysis arenol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly, pryd yr ydych yn credu y bydd yr uned symudol ar gael, nid yn unig yng ngogledd Gwent, ond trwy'r de-ddwyrain i gyd?

Edwina Hart: Mae'r rhwydwaith arenau wedi bod yn ystyried sut y byddwn yn ymdrin ag unedau symudol. Nid wyf wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y rhwydwaith, ond byddaf yn fwy na bodlon gofyn amdani. O gofio'r diddordeb sydd gan Aelodau yn y mater hwn, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe baem yn darparu datganiad ysgrifenedig gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r materion yn ymwneud â dialysis arenol a darparu unedau. Credaf y byddai hynny'n ddefnyddiol i Aelodau'n gyffredinol.

Cymunedau Anghysbell

C10 Leanne Wood: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch gwasanaethau iechyd mewn cymunedau anghysbell? OAQ(3)1471(HSS)

Edwina Hart: Yr wyf yn falch iawn, oherwydd yr ydym wedi datblygu'r cynllun iechyd gwledig i sicrhau diwallu anghenion iechyd cymunedau gwledig yng Nghymru yn y dyfodol. Ar 8 Ebrill, lansiais y gronfa arloesi iechyd gwledig gwerth £1 filiwn i wella mynediad i ofal iechyd mewn ardaloedd gwledig. Cefais gefnogaeth y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar gyfer y fenter hon.

Leanne Wood: Nid wyf yn siŵr y byddai modd disgrifio pob cymuned anghysbell fel cymuned wledig. Yr wyf yn pryderu am yr uned mân anafiadau yn yr ysbyty newydd yn

Llwynypia in Rhondda, which is a remote community but may not be considered to be a rural community. The unit will not be doctor-led in the future, which is a downgrading of existing provision. People in the Rhondda are concerned that more people will be forced to attend the accident and emergency service at the Royal Glamorgan Hospital in Talbot Green if their injuries cannot be treated at Llwynypia. Will you agree to look into this issue and provide assurances to health service users in the Rhondda who are concerned about this downgrading?

Edwina Hart: As far as I am aware, from the discussions that I have had—and I will obviously confirm this—there are no current plans to close the minor injuries unit in Ysbyty Cwm Rhondda. I only opened the hospital in February. It could never be classified as a remote rural or isolated community because it is only some five or six miles from the Royal Glamorgan Hospital. In terms of the rural health plan we are looking at very deep rural areas, such as those in Carmarthenshire, Pembrokeshire and Powys, where we realise that we must provide services differently. I understand that socially deprived areas and communities that are not in the main stream sometimes have concerns about health, but, as far as I am aware, there are no such proposals with the local health board, but I will confirm that in due course.

Gwasanaethau Deintyddol

C11 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau deintyddol yng Nghymru? OAQ(3)1476(HSS)

Edwina Hart: The ability of patients to access NHS dental services has improved significantly since the new dental contract was introduced. Local health boards are responsible for the provision of dental care that meets local needs. However, I am aware of the particular issues in south-west Wales.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r

Llwynypia yn Rhondda, sy'n gymuned anghysbell ond na fyddai'n cael ei hystyried yn gymuned wledig, efallai. Ni fydd yr uned hon yn cael ei harwain gan feddygon yn y dyfodol, sy'n israddio'r ddarpariaeth bresennol. Mae pobl yn Rhondda'n pryderu y bydd mwy o bobl yn cael eu gorfodi i fynd i'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Nhonysguboriau os na ellir trin eu hanafiadau yn Llwynypia. A wnewch chi gytuno i edrych ar y mater hwn, a rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd yn Rhondda sy'n pryderu am yr israddio hwn?

Edwina Hart: Hyd y gwn i, o'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael—a byddaf yn cadarnhau hyn, wrth gwrs—nid oes dim cynlluniau ar hyn o bryd i gau'r uned mân anafiadau yn Ysbyty Cwm Rhondda. Dim ond ym mis Chwefror yr agorais yr Ysbyty. Ni allai fyth gael ei disgrifio'n gymuned wledig anghysbell neu ddiarffordd oherwydd dim ond rhyw bum neu chwe milltir sydd rhyngddi ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. O ran y cynllun iechyd gwledig, yr ydym yn edrych ar ardaloedd ym mherfeddion cefn gwlad, megis yr ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys, lle'r ydym yn sylweddoli ei bod yn rhaid inni ddarparu gwasanaethau'n wahanol. Yr wyf yn deall bod ardaloedd sydd wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol a chymunedau nad ydynt yn y brif ffrwd yn pryderu weithiau am iechyd, ond hyd y gwn i nid yw'r bwrdd iechyd lleol yn gwneud cynigion o'r fath, ond byddaf yn cadarnhau hynny maes o law.

Dental Services

Q11 Paul Davies: Will the Minister make a statement on the provision of dental services in Wales? OAQ(3)1476(HSS)

Edwina Hart: Mae gallu cleifion i gael gwasanaethau deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol ers i'r contract deintyddol newydd gael ei gyflwyno. Mae byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am ddarparu gofal deintyddol sy'n diwallu anghenion lleol. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o'r problemau penodol yn y de-orllewin.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for

Gweinidog am yr ateb hwnnw. Fel y cadarnhaodd y Gweinidog yn gynharach mewn ateb i gwestiwn gan fy nghyd-Aelod Brynle Williams, mae gwasanaethau deintyddol y gwasanaeth iechyd yn brin iawn yng ngogledd f'etholaeth, ac, felly, mae'n bwysig amddiffyn y gwasanaethau sy'n bodoli yno yn barod. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod meddygfa ddeintyddol wedi cau yng Nghastellnewydd Emlyn yn ddiweddar. Er ei bod y tu allan i'm hetholaeth, mae'r ffaith ei bod wedi cau wedi effeithio ar oddeutu 400 o'm hetholwyr yng ngogledd sir Benfro. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gywiro'r sefyllfa? Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hybu gwasanaethau deintyddol mewn ardaloedd gwledig anghysbell fel hyn?

Edwina Hart: We have to recognise that that is the responsibility of the local health board. However, I am more than happy to raise these issues with it for you. We go across boundaries for dentists in a lot of areas. My principal concern about Hywel Dda Local Health Board is the difference between it and Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board across the border in respect of those who have access to dental services. The percentage for Hywel Dda Local Health Board is 48.4 per cent, and for ABMU LHB it is 64.7 per cent. We cannot allow that inequity to continue across Wales, and so it is a priority for local health boards to look at what more they can do to ensure the provision of services. We also have to recognise that the dental practitioners are not in our gift, as it were; they are private businesses. A relevant point was made earlier about the importance of our looking at having more salaried dentists within the service, perhaps.

that response. As the Minister earlier confirmed in response to a question from my fellow Member Brynle Williams, dental services in the health service are in short supply in the north of my constituency, and so it is important to protect what services already exist there. I am sure that the Minister will know of the recent closure of a dental surgery in Newcastle Emlyn. Despite it being outside my constituency, its closure has affected some 400 of my constituents in north Pembrokeshire. Can the Minister tell us what the Assembly Government is doing to put this situation right? What is the Government to promote dental services in deep rural areas such as this?

Edwina Hart: Rhaid inni sylweddoli mai cyfrifoldeb y bwrdd iechyd lleol yw hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn fwy na pharod i godi'r materion hyn gyda'r bwrdd iechyd lleol ar eich rhan. Byddwn yn croesi ffiniau i gael gwasanaeth deintyddol mewn llawer ardal. Fy mhrif bryder ynghylch Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yw'r gwahaniaeth rhyngddo a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg dros y ffin, o ran y rheini sy'n gallu cael gwasanaethau deintyddol. Y ganran ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yw 48.4 y cant, ac ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg mae'n 64.7 y cant. Ni allwn ganiatáu i'r anghydraddoldeb hwn barhau ar draws Cymru, felly mae'n flaenoriaeth i fyrddau iechyd lleol ystyried beth arall y gallant ei wneud i sicrhau darparu gwasanaethau. Rhaid inni sylweddoli hefyd nad ni biau'r ymarferwyr deintyddol; maent yn fusnesau preifat. Gwnaed pwynt perthnasol yn gynharach ynghylch pwysigrwydd ystyried cael rhagor o ddeintyddion cyflogedig yn rhan o'r gwasanaeth, efallai.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and the Minister for the Economy and Transport

Datblygu Economaidd

C1 Bethan Jenkins: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd yng nghwm Nedd? OAQ(3)1464(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Yn ystod 2009-10, mae fy adran wedi cynnig cymorth sy'n werth bron £1 filiwn i fusnesau yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Yn ogystal â hynny, diogelwyd 590 o swyddi drwy ddefnyddio cyllid ProAct.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb hwnnw. Mae pobl o Glyn-nedd wedi dod ataf i leisio'r ffaith eu bod yn pryderu am ddyfodol safle'r *Washery* yn yr ardal. Maent wedi bod yn aros am oddeutu 15 mlynedd am ddatblygiad economaidd yn yr ardal. A all y Llywodraeth weithio gyda'r cyngor i gyflymu'r datblygiad hwn? Mae pobl leol yn ymwybodol nad yw'r safle yn cael ei ddatblygu mor gyflym â safleoedd eraill yn ardal yr awdurdod lleol. Mae arnynt eisiau hefyd i'r awdurdodau lleol a'r awdurdodau cynllunio ddangos agwedd fwy hyblyg tuag at yr hyn a ellir ei ddatblygu, o ganlyniad i gyfyngiadau presennol yn y cynllun datblygu unedol. Byddwn yn erfyn arnoch i drafod hynny ymhellach gyda'r awdurdod lleol.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae nifer o gyfleon yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yng Nglyn-nedd, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer yr hen olchfa y cyfeiriasoch ati. Edrychir ar hynny o safbwynt ardal adfywio Cymoedd y Gorllewin, lle mae cyfle inni wneud rhywbeth. Felly, gallaf eich sicrhau y bydd ymgynghoriad gyhoeddus â'r gymuned leol yn mynd rhagddi, a bod hynny'n cael ei weld fel rhan o'n cydweithio gyda'r cyngor sir. Tynnaf sylw fy swyddogion a'r cyngor sir at eich sylwadau. Gobeithiwn y gallwn symud ymlaen yn gyflym i edrych ar y cyfleon i adfywio'r ardal o safbwynt bywyd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gwnaf hynny ar ôl y cyfarfod heddiw.

Economic Development

Q1 Bethan Jenkins: Will the Minister make a statement on economic development in the Neath valley? OAQ(3)1464(ECT)

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): During 2009-10, my department has offered almost £1 million in support to businesses in the Neath Port Talbot area. In addition, 590 jobs have been safeguarded through the use of ProAct funding.

Bethan Jenkins: Thank you for that answer. People from Glynneath have approached me to voice their concerns about the future of the Washery site in that area. They have been waiting for around 15 years for economic development in this area. Can the Government work with the council to hasten this development? Local people are aware that this site is not being developed as quickly as others in the local authority area. They also want to the local authorities and the planning authorities to take a more flexible approach to what could be developed because of current restrictions on the unitary development plan. I urge you to discuss this matter further with the local authority.

The Deputy First Minister: A number of opportunities are being considered in Glynneath at present, including schemes for the old washery to which you have referred. This is being considered as part of the Western Valleys regeneration area, where we have an opportunity to do something. I can therefore assure you that there will be public consultation with the local community, and that will be seen as part of our collaboration with the county council. I will bring your comments to the attention of my officials and the county council. I hope we can move forward quickly to look at the opportunities to regenerate the economic, social and environmental aspects of the area's life. I

shall do that after today's meeting.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 2, OAQ(3)1423(ECT), i'w ateb yn ysgrifenedig.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ(3)1423(ECT), has been transferred for written answer.

Traffig

C3 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith traffig ar drefi gogledd Cymru? OAQ(3)1463(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nodwyd yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol ac yn y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol pa gynlluniau yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy, ac a fydd yn helpu i leihau effaith traffig ar gymunedau. Mae ffordd osgoi Porthmadog ac ardal teithio cynaliadwy Môn a Menai yn ddwy enghraifft yn unig o waith sy'n mynd rhagddo yn y gogledd i leihau tagfeydd traffig.

2.10 p.m.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn siŵr y bydd pobl yn yr ardaloedd hynny yn falch o glywed hynny. Pa asesiad a wnaethoch o'r cwtogi a fydd yn y pwrs cyhoeddus a pha help a allwch ei gynnig i awdurdodau lleol sydd eisiau gwella trafndiaeth gyhoeddus a darparu ffyrdd i alluogi pobl i barcio eu ceir a dal bysiau ac yn y blaen? A allwch ein diweddarau ar bryd y gallwch ddarparu fwy o arian ar gyfer gwella'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer a deuoli'r trac hwnnw?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae'n rhy fuan i ddweud beth fydd yr union effaith o doriadau posibl ar ein cyllid hyd nes y bydd datganiad—yr ydym yn disgwyl datganiad tua ddiwedd y flwyddyn—ar y cyllid y byddwn yn ei gael yn ystod y tair blynedd hyd at 2014. Felly, mae'n anodd rhagweld hynny ar hyn o bryd.

Yn ail, gallaf eich sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol drwy'r consortia rhanbarthol i weld sut y gallwn gynorthwyo eu blaenoriaethau hwy. Mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried y blaenoriaethau y mae'r consortia rhanbarthol wedi eu rhoi ger ein bron.

Traffig

Q3 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on the impact of traffic on the towns of north Wales? OAQ(3)1463(ECT)

The Deputy First Minister: The national transport plan and the regional transport plans set out which schemes we intend to take forward, which will help to minimise the impact of traffic on communities. The Porthmadog bypass and the Môn and Menai sustainable travel area are just two examples of work being taken forward to reduce traffic congestion in north Wales.

Eleanor Burnham: I am sure people in those areas will be pleased to hear that. What assessment have you made of cutbacks in the public purse, and what assistance can you offer to local authorities that want to improve public transport and provide roads that would facilitate park and ride-type schemes, and so on? Can you give us an update on when you can provide extra funding to improve the railway between Wrexham and Chester by dualling the line?

The Deputy First Minister: It is too soon to say what the exact impact of possible cuts to our funding will be until a statement has been made—we expect that towards the end of the year—on what funding we are to receive for the three years to 2014. It is therefore difficult to predict anything at this time.

Secondly, I can assure you that the Government is working closely with local authorities through the regional consortia to see how we can assist them with their priorities. My officials are currently considering the priorities which the regional consortia have put forward.

Gallaf hefyd ddweud ein bod mewn trafodaethau gyda Network Rail i sicrhau bod y gwaith o ddeuoli'r trac rhwng Wrecsam a Chaer yn mynd rhagddo gan fod arian wedi'i glustnodi, drwy gronfa gyfalaf, i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Janet Ryder: I am sure that, like me, as you drive around north Wales, you are aware that the condition of many road surfaces has deteriorated rapidly in the last few months. I know that your budgets are under pressure, as are those of local authorities, but for the communities that have to use these roads, we need to work together to get as many potholes filled in as possible in order to reinstate travelling connections in north Wales. Is there any way that you could support local government to try to speed up that process and perhaps bring some more money forward to support it in that regard?

The Deputy First Minister: I am pleased to say that I have already allocated an extra £2.75 million to local authorities in Wales as a result of the pressures that they have faced because of the adverse weather this winter. I am pleased with progress so far. I am not aware that local authorities have asked for more resources through the Welsh Local Government Association, but, clearly, if that were to happen, I would need to consider it with my officials.

Brynle Williams: I have raised the issue of congestion in St Asaph with you many times. I am aware that it is a problem for Denbighshire County Council. However, residents are seeing a dramatic increase in traffic moving through the town, particularly heavy goods vehicles coming down from the A55. Many of those vehicles are attempting to avoid traffic by using smaller, A-class roads through the St Asaph business park. Those roads are not suitable for the safe use of heavy transport and articulated lorries in particular. In light of the worsening situation at St Asaph and its position as a gateway to businesses in the Vale of Clwyd, would you consider your Government's position and support a bypass for this town? It is urgently needed.

I can also tell you that we are in discussions with Network Rail to ensure that the work on dualling the line between Wrexham and Chester goes ahead, since the funding has been allocated through the capital fund to ensure that that happens.

Janet Ryder: Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finau, wrth ichi yrru o amgylch y gogledd, yn ymwybodol bod cyflwr wyneb llawer o ffyrdd wedi dirywio'n gyflym yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Gwn fod pwysau ar eich cyllidebau, fel y mae pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol, ond er lles y cymunedau sy'n gorfod defnyddio'r ffyrdd hyn, mae angen inni gydweithio â'n gilydd i lenwi cynifer o dyllau ag sy'n bosibl er mwyn adfer cysylltiadau teithio yn y gogledd. A oes unrhyw fodd y gallech gynorthwyo llywodraeth leol er mwyn ceisio cyflymu'r broses honno, a chynnig rhagor o arian efallai er mwyn ei chynorthwyo yn hynny o beth?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn falch dweud fy mod eisoes wedi dyrannu £2.75 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol yng Nghymru, o ganlyniad i'r pwysau sydd wedi eu hwynebu oherwydd y tywydd garw y gaeaf hwn. Yr wyf yn fodlon â'r cynnydd a wnaed hyd yma. Nid wyf yn ymwybodol o'r un cais gan awdurdodau lleol am fwy o adnoddau drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond wrth gwrs, pe bai hynny'n digwydd, byddai angen imi ei ystyried gyda'm swyddogion.

Brynle Williams: Yr wyf wedi codi mater tagfeydd yn Llanelwy gyda chi droeon. Gwn mai mater i Gyngor Sir Ddinbych ydyw. Fodd bynnag, mae'r trigolion yn gweld cynnydd dramatig yn y traffig sy'n symud drwy'r dref, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm sy'n dod i lawr o'r A55. Mae llawer o'r cerbydau hynny'n ceisio osgoi traffig drwy ddefnyddio ffyrdd llai, dosbarth A drwy barc busnes Llanelwy. Nid yw'r ffyrdd hynny'n addas i'w defnyddio'n ddiogel gan gerbydau trwm, a loriau cymalog yn enwedig. Yng ngoleuni'r sefyllfa sy'n gwaethygu yn Llanelwy, a safle'r dref fel porth i fusnesau yn Nyffryn Clwyd, a fydddech yn fodlon ystyried safbwynt eich Llywodraeth a chefnogi ffordd osgoi ar gyfer y dref? Mae taer angen amdani.

The Deputy First Minister: I know that you have pursued this on several occasions. You are aware that this road is not the responsibility of the Welsh Assembly Government, given that it is a county road and not a trunk road. In those circumstances, any bid for a bypass would need to be prioritised through Taith—the regional transport consortium—and it would then be presented to us, as the Government, for consideration.

Repairing the Road Network

Q4 William Graham: Will the Minister outline discussions held with local authorities, following the adverse winter weather, on the requirement to repair the road network? OAQ(3)1467(ECT)

The Deputy First Minister: An additional sum of £2.75 million has been made available to local authorities to assist them in dealing with the repair of roads following the adverse weather conditions during the winter.

William Graham: Although most of the worst damage to our roads caused by severe winter weather has been addressed, there still remains a backlog of work to be done in addition to the usual running repairs. I commend to you a Google search of FixMyStreet, which reveals the extent of the problem, particularly in south-east Wales. How will you ensure that local authorities all use their resources correctly to address this problem, which affects us all?

The Deputy First Minister: I cannot do that, because money goes to local authorities in a variety of ways. All I can say is that I have allocated £2.75 million to local authorities to assist them with this work. I understand the pressures that they are under; that is why I was able to respond swiftly to their request for finance. As far as I am aware, local authorities have welcomed the additional funding, because they recognise that pressures on the budgets are acute this year and they were pleased with what I was able to do.

Chris Franks: Deputy First Minister, as you

Y Dirprwy Brif Weinidog: Gwn eich bod wedi codi'r mater hwn droeon. Gwyddoch nad cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw'r ffordd hon, o gofio mai ffordd sirol ydyw, nid cefnffordd. Mewn amgylchiadau o'r fath byddai angen blaenoriaethu unrhyw gais am ffordd osgoi drwy Taith—y consortiwm trafniadaeth rhanbarthol—a byddai'n cael ei gyflwyno wedyn i ni, fel Llywodraeth, i'w ystyried.

Atgyweirio'r Rhwydwaith Ffyrdd

C4 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau a gafwyd gydag awdurdodau lleol ynghylch y gofyniad i atgyweirio'r rhwydwaith ffyrdd yn dilyn y tywydd gaeafol garw? OAQ(3)1467(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae swm ychwanegol o £2.75 miliwn wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol i'w helpu gyda'r gwaith o atgyweirio ffyrdd yn dilyn y tywydd garw a gafwyd yn ystod y gaeaf.

William Graham: Er bod sylw wedi'i roi i'r rhan fwyaf o'r difrod gwaethaf a achoswyd i'n ffyrdd gan dywydd difrifol y gaeaf, mae gwaith o hyd sydd wedi ôl-gronni, ac y mae angen ei wneud ar ben y gwaith atgyweirio cyson arferol. Hoffwn argymhell y dylech chwilio am FixMyStreet ar Google, sy'n datgelu 'n y broblem, yn enwedig yn y de-ddwyrain. Sut y byddwch yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'u hadnoddau'n gywir i fynd i'r afael â'r broblem hon sy'n effeithio arnom i gyd?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni allaf wneud hynny, oherwydd mae arian yn mynd i awdurdodau lleol mewn amryw ffyrdd. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw fy mod wedi dyrannu £2.75 miliwn i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Yr wyf yn deall y pwysau sydd arnynt; dyna pam yr oeddwn yn gallu ymateb yn gyflym i'w cais am arian. Hyd y gwn i, mae awdurdodau lleol wedi croesawu'r cyllid ychwanegol, oherwydd maent yn cydnabod bod y pwysau sydd ar y cyllidebau yn ddirifol eleni, ac yr oeddent yn fodlon â'r hyn y gallwn ei wneud.

Chris Franks: Ddirprwy Brif Weinidog, fel

know, my Assembly region covers the Vale of Glamorgan, Cardiff and Rhondda Cynon Taf council areas. The condition of the roads in the Vale of Glamorgan area is among the worst that I have experienced. The harsh weather has really exposed the lack of maintenance undertaken over the years. What discussions have you had with councils in my area regarding their rock stocks? Are there proposals to increase significantly the level of reserves of rock salt for next winter?

I note your comments to Janet Ryder regarding finance, but I ask you to consider sympathetically any requests for assistance from local authorities.

The Deputy First Minister: An additional £105,000 was made available to the Vale of Glamorgan to deal with the problems arising from the effect of adverse weather conditions on its roads. We need to assess the levels of salt after each period of bad weather. My officials, local authorities and the Department for Transport will need to consider whether the system that was in operation this year can be improved—and I am sure that, as always, improvements can be made. Those discussions also need to involve local authorities and their experiences. As far as I am aware, we have had no negative feedback whatsoever from local authorities on the funding that I have allocated. However, if further bids are made later in the year, clearly, they will have to be dealt with in the usual way.

Peter Black: Deputy First Minister, it is over three months since the snow, and you will know that there are still thousands of potholes around Wales that resulted from it. Although we all welcome the extra £2.75 million that you have given to local authorities, you have also cut the local road maintenance grant by £10 million, which effectively leaves local authorities with £7.25 million less than they had last year to maintain these roads. Will you therefore revisit your decisions on this issue and look again at whether you can reinstate that money to the local road maintenance grant to help local authorities to deal with the backlog of repairs that they all face as a result of the

y gwyddoch, mae fy rhanbarth Cynulliad i'n cynnwys ardaloedd cynghorau Bro Morgannwg, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf. Mae cyflwr y ffyrdd yn ardal Bro Morgannwg gyda'r gwaethaf a welais erioed. Mae'r tywydd garw wedi datgelu'n glir y diffyg gwaith cynnal a chadw a fu dros y blynyddoedd. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chynghorau yn fy ardal ynglŷn â'u cyflenwadau o greighalen? A yw'n fwriad cynyddu'r cyflenwadau o greighalen yn sylweddol ar gyfer y gaeaf nesaf?

Clywais eich sylwadau i Janet Ryder ynghylch arian, ond gofynnaf ichi ystyried yn garedig unrhyw geisiadau gan awdurdodau lleol am gymorth.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Cafodd £105,000 ychwanegol ei ddarparu i Fro Morgannwg i ymdrin â'r problemau'n deillio o effaith tywydd garw ar ffyrdd yr ardal. Mae angen inni asesu'r cyflenwadau halen ar ôl pob cyfnod o dywydd gwael. Bydd angen i'm swyddogion, awdurdodau lleol a'r Adran Drafnidiaeth ystyried a ellir gwella'r system a oedd ar waith eleni—ac yr wyf yn siŵr bod modd gwneud gwelliannau, fel sy'n wir bob amser. Mae angen i'r trafodaethau hynny gynnwys awdurdodau lleol a'u profiadau hefyd. Hyd y gwn i, ni chawsom adborth negyddol o gwbl gan awdurdodau lleol ynghylch y cyllid a ddyrannwyd gennyf. Fodd bynnag, os caiff ceisiadau pellach eu cyflwyno'n ddiweddarach yn y flwyddyn, mae'n amlwg y bydd yn rhaid ymdrin â hwy yn y modd arferol.

Peter Black: Ddirprwy Brif Weinidog, mae'n dri mis a mwy ers yr eira, a gwyddoch fod miloedd o dyllau o hyd ar ffyrdd o amgylch Cymru o'r herwydd. Er ein bod i gyd yn croesawu'r £2.75 miliwn ychwanegol a roddwyd gennych i awdurdodau lleol, yr ydych hefyd wedi torri £10 miliwn o'r grant ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol, sydd i bob pwrpas yn golygu bod gan awdurdodau lleol £7.25 miliwn yn llai nag a oedd ganddynt y llynedd i gynnal a chadw'r ffyrdd hyn. Felly, a wnewch chi ailystyried eich penderfyniadau ar y mater hwn, ac edrych eto i weld a allwch ailgyflwyno'r arian hwnnw i'r grant ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol er mwyn helpu awdurdodau lleol i ymdrin â'r

adverse weather?

The Deputy First Minister: Of course, Peter, I did not cut the grant; it came to an end. In 2007—[*Interruption.*] The Liberal Democrats may laugh, but this is the record. Let me make it clear. In 2007, we set up a three-year local road maintenance grant of £15 million to enable local authorities to deal with their backlog. The three-year period ended in 2010. I decided to continue the grant with an additional £5 million, which local authorities knew was in addition to the £15 million that I had allocated for the previous three years. So, they have had £5 million extra. On top of that, I have paid £2.75 million to enable them to deal with essential work on their roads following the poor weather. Therefore, we ought to set the record straight, Peter.

Mick Bates: Deputy First Minister, I hope that you will be able to explain to Powys County Council the difference between the grant 'coming to an end' and it 'stopping'. The county council has already made good use of the additional funding. In my correspondence with Powys regarding this, it pointed out to me that its backlog alone for repairs to the roads is £2.5 million. It would be able to use all that money. This calculation of the money required to bring its roads up to standard was done before the winter weather. Of the £271 million backlog for road maintenance issues in Wales, £59 million relates to roads in Powys. We have just heard how you have slashed the funding by at least two thirds. Do you agree that your funding will inevitably lead to an increase in the deterioration of our road network, which will also increase the danger to road users throughout Wales?

2.20 p.m.

The Deputy First Minister: Again, that is not the fact. The facts are that we agreed with

gwaith atgyweirio sydd wedi ôl-gronni, y mae pob un ohonynt yn ei wynebu o ganlyniad i'r tywydd garw?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni thorrtais arian o'r grant, wrth gwrs, Peter; daeth y grant i ben. Yn 2007—[*Torri ar draws.*] Mae croeso i'r Democratiaid Rhyddfrydol chwerthin, ond dyna'r gwir. Gadewch imi egluro. Yn 2007, cafodd grant tair blynedd ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol ei sefydlu gennym, a oedd yn werth £15 miliwn, i alluogi awdurdodau lleol i ymdrin â'r gwaith a oedd wedi ôl-gronni. Daeth y cyfnod o dair blynedd i ben yn 2010. Penderfynais ymestyn y grant drwy ychwanegu £5 miliwn ato, a gwyddai awdurdodau lleol fod y swm hwnnw'n ychwanegol at y £15 miliwn yr oeddwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y tair blynedd blaenorol. Felly, maent wedi cael £5 miliwn yn ychwanegol. Ar ben hynny, yr wyf wedi talu £2.75 miliwn i'w galluogi i ymdrin â gwaith hanfodol ar eu ffyrdd yn dilyn y tywydd gwael. Felly, dylem sicrhau bod pawb yn gwybod y gwir, Peter.

Mick Bates: Ddirprwy Brif Weinidog, gobeithio y gallwch egluro wrth Gyngor Sir Powys beth yw'r gwahaniaeth rhwng grant 'yn dod i ben' a grant yn 'stopio'. Mae'r cyngor sir eisoes wedi defnyddio'r cyllid ychwanegol yn dda. Yn fy ngohebiaeth â Phowys ynghylch y mater hwn, dywedodd y cyngor wrthyf fod y gwaith atgyweirio ffyrdd sydd wedi ôl-gronni yn y sir yn werth £2.5 miliwn, heb sôn am waith arall. Gallai ddefnyddio'r arian hwnnw i gyd. Cafodd yr arian y mae ei angen i sicrhau bod ei ffyrdd yn cyrraedd y safon ofynnol ei gyfrifo cyn tywydd y gaeaf. O'r gwaith gwerth £271 miliwn sydd wedi ôl-gronni o ran cynnal a chadw ffyrdd yng Nghymru, mae £59 miliwn yn ymwneud â ffyrdd ym Mhowys. Yr ydym newydd glywed sut yr ydych wedi torri'r cyllid o leiaf ddwy ran o dair. A ydych yn cytuno ei bod yn anochel y bydd eich cyllid yn golygu bod ein rhwydwaith ffyrdd yn dirywio ymhellach, a fydd hefyd yn cynyddu'r perygl i ddefnyddwyr ffyrdd ledled Cymru?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Unwaith eto, nid dyna'r gwir. Y gwir amdani yw inni gyntuno

local authorities that there would be funding for three years to enable them to deal with the backlog in road maintenance. That was agreed between us and local authority bodies. I reviewed the arrangement when the grant came to an end after three years, and said, 'Yes, you have made progress, but some outstanding work needs to be done' and therefore I have allocated an additional £5 million for 2010-11. The £2.75 million is in addition to that. So, local authorities have had more money than they were expecting in 2007. Powys secured an additional £216,000 to meet its responsibilities after the adverse weather conditions. It is not possible for the Government to pay the whole cost, but that is a substantial contribution.

ag awdurdodau lleol y byddai cyllid ar gael am dair blynedd i'w galluogi i ymdrin â'r gwaith cynnal a chadw ffyrdd sydd wedi ôl-gronni. Cytunwyd ar hynny rhyngom ni a chyrff awdurdodau lleol. Adolygais y trefniant pan ddaeth y grant i ben ar ôl tair blynedd, a dywedais, 'Yr ydych wedi gwneud cynnydd, ond mae angen gwneud rhywfaint o waith sy'n weddill', ac felly, yr wyf wedi dyrannu £5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2010-11. Mae'r £2.75 miliwn yn ychwanegol at hynny. Felly, mae awdurdodau lleol wedi cael mwy o arian nag a ddisgwyliant yn 2007. Cafodd Powys £216,000 ychwanegol i gyflawni ei gyfrifoldebau ar ôl y tywydd garw. Nid yw'n bosibl i'r Llywodraeth dalu'r gost gyfan, ond mae'r swm dan sylw'n gyfraniad sylweddol.

Small Businesses

Q5 Leanne Wood: What discussions has the Welsh Assembly Government had regarding support for small businesses in our town centres? OAQ(3)1429(ECT)

The Deputy First Minister: The Minister for Social Justice and Local Government announced amendments to eligibility thresholds for small business rate relief, which will ensure additional relief of up to £20 million for Welsh businesses. The economic renewal programme, involving considerable stakeholder engagement, will build on the positive framework that we are creating.

Leanne Wood: That is to be welcomed. What talks have you had regarding the scrapping of the entire business rates system and replacing it with a fairer system based on profit? What measures can the Government of Wales take to ensure a level playing field between small retailers in our town centres and large out-of-town supermarkets, when it is often the case that town centre car parking charges are in place while out-of-town supermarkets allow free parking?

The Deputy First Minister: It is not part of the 'One Wales' agreement to review business rates, although it is the policy of individual parties to look at the issue. We have long recognised the impact of the

Busnesau Bach

C5 Leanne Wood: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch cefnogaeth i fusnesau bach yng nghanol ein trefi? OAQ(3)1429(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi newid yn y trothwyon cymhwysedd ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, sy'n golygu rhyddhad ychwanegol o hyd at £20 miliwn i fusnesau Cymru. Bydd rhaglen adnewyddu'r economi, y mae ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid fel rhan ohoni, yn adeiladu ar y fframwaith cadarnhaol yr ydym yn ei greu.

Leanne Wood: Dylid croesawu hynny. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch dileu'r holl system ardrethi busnes a chyflwyno system decach yn ei lle yn seiliedig ar elw? Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau chwarae teg rhwng manwerthwyr bach yng nghanol ein trefi ac archfarchnadoedd mawr y tu allan iddynt? Yn aml, rhaid i bobl dalu am barcio yng nghanol ein trefi tra bydd archfarchnadoedd y tu allan iddynt yn caniatáu i bobl barcio am ddim.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid yw adolygu ardrethi busnes yn rhan o gytundeb 'Cymru'n Un', er bod edrych ar y mater yn bolisi gan bleidiau unigol. Yr ydym wedi cydnabod ers cryn amser effaith y dirwasgiad ar ganol ein

recession on our town centres, together with the fact that the competition from large supermarkets on retail sites outside town centres has an impact on those town centres. When the UK Government made its announcement on enhanced business rate relief in the recent budget, we were anxious for that to apply to Wales as well. That has been a considerable enhancement to the rate relief scheme for small businesses in town centres. However, I recognise that the Government and local authorities need to understand the impact that retail developments outside town centres have on town centres, and we need a more imaginative and innovative approach to developing businesses to make them more successful and sustainable.

Nick Ramsay: I concur with some of the sentiments raised by Leanne Wood in her question, and I was interested to hear your response regarding the fact that reductions in the rates are not part of the 'One Wales' agreement, although back in 2007 I believe that a review and reduction of business rates was very much part of your party's agenda. You only have to walk through our town centres to realise the dire effect of the recession on them with regard to the closure of shops and the resulting deprivation. Only recently, a pub in Powys made the news because it had a 527 per cent increase in its monthly rate, which is very difficult for many businesses to sustain. You mentioned that the Minister for Social Justice and Local Government has made some changes with regard to business rates, which are to be welcomed. I think that there was a modest increase in the small business rate as a result of the budget. Thresholds were extended before Christmas, but these were in response to revaluation. I believe that the relief brought forward by the Minister for Social Justice and Local Government will not kick in until October. Will you confirm whether that is the case, and do you agree that at this difficult time, it would be better for that relief to be backdated so that businesses are not stung by an extra six months of business rates, which your Government has clearly indicated is not satisfactory?

trefi, ynghyd â'r ffaith fod y gystadleuaeth o du archfarchnadoedd mawr ar safleoedd manwerthu y tu allan i ganol trefi yn effeithio ar ganol y trefi hynny. Pan wnaeth Llywodraeth y DU ei chyhoeddiad ynghylch rhyddhad ardrethi busnes gwell yn y gyllideb yn ddiweddar, yr oeddem yn awyddus i hynny fod yn berthnasol i Gymru hefyd. Mae'r cam hwnnw wedi bod yn welliant sylweddol yn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng nghanol trefi. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod angen i'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol ddeall yr effaith a gaiff datblygiadau manwerthu y tu allan i ganol trefi ar ganol y trefi hynny, ac mae arnom angen dull mwy dychmygus ac arloesol o ddatblygu busnesau i'w gwneud yn fwy llwyddiannus a chynaliadwy.

Nick Ramsay: Cytunaf â rhai o'r teimladau a fynegwyd gan Leanne Wood yn ei chwestiwn, ac yr oedd gennyf ddiddordeb clywed eich ymateb i'r ffaith nad yw gostwng ardrethi'n rhan o gytundeb 'Cymru'n Un', er bod adolygu a gostwng ardrethi busnes, yn ôl yn 2007, mi gredaf, yn rhan bwysig iawn o agenda eich plaid. Nid oes rhaid ichi ond cerdded drwy ganol ein trefi i sylweddoli effaith enbyd y dirwasgiad arnynt, o ran siopau'n cau a'r amddifadedd sy'n deillio o hynny. Yn ddiweddar iawn, yr oedd sôn yn y newyddion am dafarn ym Mhowys oherwydd bod ei hardrethi misol wedi cynyddu 527 y cant, sy'n gynnydd anodd iawn i lawer o fusnesau ymdopi ag ef. Yr oeddech yn sôn bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi gwneud rhai newidiadau yng nghyswllt ardrethi busnes, a dylid croesawu hynny. Credaf fod yna gynnydd bach yn ardrethi busnesau bach o ganlyniad i'r gyllideb. Cafodd trothwyon eu hystyng yn y Nadolig, ond digwyddodd hynny wrth ymateb i'r ailbrisio. Yr wyf ar ddeall na fydd y rhyddhad a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn dod i rym tan fis Hydref. A wnewch chi gadarnhau a yw hynny'n wir, ac a gytunwch y byddai'n well, ar yr adeg anodd hon, pe bai'r rhyddhad hwnnw'n cael ei ôl-ddyddio fel na fydd busnesau'n gorfod dioddef chwe mis ychwanegol o ardrethi busnes, y mae eich Llywodraeth wedi nodi'n glir nad yw'n foddhaol?

The Deputy First Minister: I will start by saying that I think that you were confusing two things at the beginning of your question. Leanne was talking about replacing business rates with another system, whereas what was in our manifesto was an enhanced rate relief scheme, which we have introduced; it is already in place. We have enhanced it through other measures that were introduced, as you rightly pointed out, in an announcement by Carl Sargeant, the Minister for local government in December. You were right to say that the enhanced scheme will come into play from 1 October 2010, which is when the UK-wide scheme will operate. It is our share of that scheme that we have decided to implement in Wales. Although we would like for that support to be given earlier to businesses, it is inevitable that, because of the way the scheme operates on a UK-wide basis, it should operate from 1 October. However, it must be recognised that that is a significant addition to our scheme. It is significant in the sense that businesses with a rateable value of up to £12,000 will be able to receive marginal relief up to the rate of 50 per cent.

Alun Davies: If I can take you back to your initial reply to Leanne Wood, Deputy First Minister, concerns about the future of town centres have been raised with many of us over a number of years. While out-of-town shopping centres provide people with great retail and entertainment opportunities, they also drain the life out of our historic town centres, whether they are in the Valleys or more rural market towns. That is having a great impact on the quality of life for the people living in those towns and communities, and it is also destroying the business and economic base of those towns and communities. Can the Government establish some sort of working party or initiative to look at how we can invigorate our town centres and ensure that they remain the property of the whole community and do not simply fall into the trap of being dominated by alcohol and other things? We need to ensure that town centres remain at the heart of their communities and are vibrant and successful.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn credu ichi gymysgu dau beth ar ddechrau eich cwestiwn. Yr oedd Leanne yn sôn am gyflwyno system arall yn lle'r system ardrethi busnes, ond cynllun rhyddhad ardrethi busnes gwell oedd gennym ni yn ein maniffesto, ac yr ydym wedi'i gyflwyno; mae eisoes ar waith. Yr ydym wedi'i wella drwy fesurau eraill a gyflwynwyd, fel y nodwyd gennych yn gywir ddigon, mewn cyhoeddiad gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros lywodraeth leol ym mis Rhagfyr. Yr oeddech yn iawn wrth ddweud y bydd y cynllun gwell yn dod i rym o 1 Hydref 2010 ymlaen, sef y dyddiad y bydd y cynllun ar gyfer y DU yn dechrau gweithredu. Ein cyfran ni o'r cynllun hwnnw yw'r hyn yr ydym wedi penderfynu ei roi ar waith yng Nghymru. Er y byddem yn hoffi i'r cymorth hwnnw gael ei roi'n gynharach i fusnesau, mae'n anochel, oherwydd y modd y mae'r cynllun yn gweithredu ledled y DU, y dylai weithredu o 1 Hydref ymlaen. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod hynny'n ychwanegiad sylweddol at ein cynllun ni. Mae'n sylweddol yn yr ystyr y bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 yn gallu cael rhyddhad ymylol ar sail cyfradd o hyd at 50 y cant.

Alun Davies: O fynd â chi'n ôl i'ch ymateb dechreuol i Leanne Wood, Ddirprwy Brif Weinidog, mae llawer ohonom wedi mynegi pryderon dros nifer o flynyddoedd am ddyfodol canol ein trefi. Er bod canolfannau siopa y tu allan i drefi'n cynnig cyfleoedd gwych i bobl o ran siopa ac adloniant, maent hefyd yn lladd canol ein trefi hanesyddol, boed yn y Cymoedd neu mewn trefi marchnad mwy gwledig. Mae hynny'n effeithio'n aruthrol ar ansawdd bywyd i'r bobl sy'n byw yn y trefi a'r cymunedau hynny, ac mae hefyd yn dinistrio eu sylfaen economaidd a'u sylfaen busnes. A all y Llywodraeth sefydlu rhyw fath o weithgor neu fenter i ystyried sut y gallwn adfywio canol ein trefi, a sicrhau eu bod yn parhau'n eiddo i'r gymuned gyfan ac nad ydynt, yn syml iawn, yn cael eu dal mewn rhwyd lle mae alcohol a phethau eraill yn eu rheoli? Mae angen inni sicrhau bod canol trefi'n parhau wrth galon eu cymunedau, a'u bod yn fywiog ac yn llwyddiannus.

The Deputy First Minister: I am aware that Sue Essex has been asked by local authorities and the Government to look at the vibrancy of town centres. She has made an initial study of that, which is being looked at by the Government. It is a good sign that the Government is prepared to look at the impact of the recession and other factors on town centres. You are right in the sense that we must not simply look at this issue in terms of rate relief, because that does not, of itself, increase profitability. You have to have increased trade to do that. Therefore, we have to look at a number of innovative ways of tackling this. A number of small market towns in Wales have reinvented themselves successfully. If we can use some of that good practice in other areas, I am sure that we would learn from it. We also need to look at the scope and size of town centres to see whether, in some areas, we need to look at bringing additional businesses in—they may not be the traditional retail businesses that we all associate with town centres—and ways of introducing a housing element, so that we can bring forward a more comprehensive package of proposals. There are some good ideas out there, and we can take them forward.

Jenny Randerson: The vibrancy of our town centres is a key part of our competitiveness as a nation. I am sure that you will have noted the recent publication of the important UK competitiveness index that is compiled by the University of Wales Institute, Cardiff. That shows Wales to be the least competitive of the 12 regions and nations of the UK. Since it was last published in 2008, Wales has dropped from eleventh to twelfth position, having been leap-frogged by the north-east of England, which has improved its competitiveness by 3.4 per cent, whereas ours fell by 2.8 per cent. All this has happened on your watch, Deputy First Minister, as the Minister for the economy. What are you planning to do in the future that is different, because what has been happening so far simply has not worked?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn ymwybodol bod awdurdodau lleol a'r Llywodraeth wedi gofyn i Sue Essex edrych ar fywiogrwydd canol trefi. Mae wedi cynnal astudiaeth ddechreuol o hynny, ac mae'r Llywodraeth wrthi'n ei hystyried. Mae'n arwydd da bod y Llywodraeth yn barod i edrych ar effaith y dirwasgiad a ffactorau eraill ar ganol trefi. Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod yn rhaid inni beidio ag ystyried y mater hwn o safbwynt rhyddhad ardrethi'n unig, oherwydd nid yw hynny, ar ei ben ei hun, yn cynyddu proffidoldeb. Rhaid ichi fasnachu mwy i wneud hynny. Felly, rhaid inni ystyried llawer o ddulliau arloesol o fynd i'r afael â'r mater. Mae nifer o drefi marchnad bach yng Nghymru wedi eu hadfywio eu hunain yn llwyddiannus. Pe gallem ddefnyddio rhywfaint o'r arfer da hwnnw mewn ardaloedd eraill, yr wyf yn siŵr y byddem yn dysgu ohono. Mae angen hefyd inni edrych ar rychwant a maint canol trefi i weld a oes angen, mewn rhai ardaloedd, inni ystyried dod â busnesau ychwanegol i mewn—gallent fod yn wahanol i'r busnesau manwerthu traddodiadol yr ydym i gyd yn eu cysylltu â chanol trefi—ac ystyried ffyrdd o gyflwyno tai, fel y gallwn ddod â phecyn mwy cynhwysfawr o gynigion gerbron. Mae gan bobl syniadau da, a gallwn ni eu datblygu.

Jenny Randerson: Mae bywiogrwydd canol ein trefi yn rhan allweddol o'n cystadleurwydd fel gwlad. Yr wyf yn siŵr y byddwch wedi sylwi bod mynegai cystadleurwydd y DU, sy'n bwysig ac a lunnir gan Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar. Mae'n dangos mai Cymru yw'r lleiaf cystadleuol o blith 12 rhanbarth a gwlad y DU. Er pan gyhoeddwyd y mynegai ddiwethaf yn 2008, mae Cymru wedi disgyn o'r unfed safle ar ddeg i'r ddeuddegfed safle, wrth iddi gael ei goddiweddyd gan ogledd-dwyrain Lloegr. Mae'r rhanbarth hwnnw wedi gwella'i gystadleurwydd 3.4 y cant, ond mae ein cystadleurwydd ni wedi disgyn 2.8 y cant. Mae hyn i gyd wedi digwydd yn ystod eich cyfnod chi wrth y llyw, Ddirprwy Brif Weinidog, fel y Gweinidog dros yr economi. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol, a fydd yn wahanol, oherwydd mae'r hyn a ddigwyddodd hyd yma wedi methu?

2.30 p.m.

The Deputy First Minister: I am not sure that the Welsh economy would benefit from the savage cuts promised by the Liberal Democrats in the election campaign. However, Jenny has probably heard that I have set up the economic renewal programme, which is a way of addressing some of the issues that she has highlighted. We need to make the Welsh economy more competitive. We need to understand the structural changes that preceded the recession, which we now need to improve and develop. I am confident that the issues that she has raised will be captured by that economic renewal programme, and I will be making an announcement about that in June.

Jenny Randerson: I fear that your answer lacks the sharpness and imagination for the future that I had hoped that it would have. Going back to the index that was produced very recently, the dire position that Wales is in is helped, very marginally, by the fact that Cardiff is doing very well as a city and is above-average as a city within the UK. Some tremendous work has been done in Cardiff by the council and the economic organisations within Cardiff in order to develop a vibrant city centre. Yet, very close by, are areas that are still some of the poorest in Wales and, in fact, the whole of the UK. Areas like Blaenau Gwent and Merthyr were at the very bottom of the competitiveness index. What are you going to do to ensure that the growing prosperity and effectiveness of the economy in Cardiff is spread to the areas around it, and which would then benefit the whole of Wales?

The Deputy First Minister: The details will be contained in the economic renewal action plan, which will be introduced in June this year.

Darpariaeth Band Eang

C6 Nerys Evans: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch ymestyn darpariaeth band eang yng

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid wyf yn siŵr a fyddai economi Cymru'n elwa o'r toriadau llym a addewir gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymgyrch yr etholiad. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd Jenny wedi clywed imi sefydlu rhaglen adnewyddu'r economi, sy'n fodd i fynd i'r afael â rhai o'r problemau y tynnodd sylw atynt. Mae angen inni wneud economi Cymru yn fwy cystadleuol. Mae angen inni ddeall y newidiadau strwythurol a ragflaenodd y dirwasgiad, ac y mae angen yn awr inni eu gwella a'u datblygu. Yr wyf yn hyderus y bydd y rhaglen honno i adnewyddu'r economi yn ymdrin â'r materion a godwyd ganddi, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad ynghylch hynny ym mis Mehefin.

Jenny Randerson: Yr wyf yn ofni nad yw eich ateb yn adlewyrchu'r craffter a'r dychymyg yr oeddwn wedi gobeithio'u gweld ynghylch y dyfodol. O fynd yn ôl at y mynegai a luniwyd yn ddiweddar iawn, caiff sefyllfa enbyd Cymru ei gwella, ryw fymryn bach iawn, gan y ffaith fod Caerdydd yn llwyddo'n dda iawn fel dinas, a'i bod yn ddinas sy'n perfformio'n well na'r cyffredin yn y DU. Mae gwaith ardderchog wedi'i wneud yng Nghaerdydd gan y cyngor a'r sefydliadau economaidd yn y ddinas i ddatblygu canol bywiog i'r ddinas. Eto i gyd mae yna ardaloedd, yn agos iawn iddi, sy'n parhau ymhlith y tlotaf yng Nghymru, a'r DU gyfan mewn gwirionedd. Yr oedd ardaloedd megis Blaenau Gwent a Merthyr ar waelod y mynegai cystadleurwydd. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod ffyniant ac effeithiolrwydd cynyddol yr economi yng Nghaerdydd yn cael eu lledaenu i'r ardaloedd sydd o amgylch y ddinas, a fyddai o fudd wedyn i Gymru gyfan?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Bydd y manylion yn y cynllun gweithredu ar gyfer adnewyddu'r economi, a gyflwynir ym mis Mehefin eleni.

Broadband Provision

Q6 Nerys Evans: What recent discussions has the Minister had regarding extending broadband provision in Wales?

Nghymru? OAQ(3)1460(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r swyddogion yn adrannau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â band eang, a hefyd gyda Broadband Delivery UK, sydd newydd ei ffurfio. Yr wyf wedi bod mewn cysylltiad hefyd â Gweinidog y Deyrnas Gyfunol dros gyfathrebu.

Nerys Evans: Gan wybod fod Llywodraeth Cymru yn parhau'r gwaith da o dan y cynllun cymorth band eang arloesol rhanbarthol, holais y Prif Weinidog ddoe am effaith 'Prydain Ddigidol' ar Gymru, a'r ffaith fod rhai elfennau o'r Mesur Economi Digidol wedi cwmpo cyn diddymu Senedd San Steffan. Yr wyf yn falch iawn ynglŷn â'r cyhoeddiad a wnaethoch rai misoedd yn ôl y bydd modd defnyddio arian Ewrop ar gyfer ymestyn band eang. Mae cymunedau ac unigolion yn aros yn eiddgar i glywed mwy o fanylion ynglŷn â'r cynllun a ariennir gan gronfa Ewrop. Pryd yr ydych yn rhagweld y bydd y cynllun yn cael ei weithredu?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Gobeithiaf yn fawr y byddwn mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad buan—o bosibl o fewn yr wythnosau nesaf—ar y cynllun sy'n cael ei ariannu gan gronfa Ewrop. Bydd hwnnw yn gweithredu ochr yn ochr â'r cynllun RIBS, ond mewn ardaloedd lle nad yw hwnnw'n berthnasol, bydd y cynllun newydd o fantais fawr. Un peth arall y dylwn ei ddweud yw mai darparu cymorth i gyflwyno band eang sylfaenol yn unig a wna hwnnw. Fel rhan o'r rhaglen adfywio y cyfeiriaais ato wrth ateb cwestiwn Jenny Randerson, mae'r Llywodraeth hefyd yn edrych i weld sut y gallwn ddefnyddio arian y Llywodraeth i helpu i ddatblygu band eang i'r genhedlaeth nesaf, a sut y medrwn sicrhau fod gennym signal ffonau symudol gwell mewn ardaloedd gwledig. Os ydym eisiau bod yn gystadleuol, rhaid i hynny fod yn rhan o'r darlun.

David Melding: You have a golden opportunity in using European funds. We are halfway through the programme, and capital spending under the European programme is

OAQ(3)1460(ECT)

The Deputy First Minister: My officials are in regular contact with officials in United Kingdom Government departments responsible for broadband issues and with the newly formed Broadband Delivery UK. I have also been in contact with the United Kingdom Minister for communications.

Nerys Evans: I know that the Welsh Government is continuing with its good work under the regional innovative broadband support scheme. I asked the First Minister yesterday about the effect which 'Digital Britain' would have on Wales, and the fact that some elements of the Digital Economy Bill had fallen before the dissolution of Parliament. I was pleased to hear the announcement that you made some months ago that it will be possible to use European funding to extend the provision of broadband. Communities and individuals are waiting with baited breath to hear more details about this European-funded scheme. When do you predict that this scheme will be implemented?

The Deputy First Minister: I very much hope that we will be in a position to make an early announcement—hopefully in the next few weeks—on the scheme that is to be funded with European money. That will be implemented in parallel with the RIBS scheme, but in areas where RIBS is not relevant, the new scheme will be of great benefit. Another thing I should say is that that only assists with the provision of basic broadband. As part of the regeneration programme to which I referred when answering Jenny Randerson's question, the Government is also looking to see how we can use Government funding to help develop next-generation broadband, and how we can ensure that mobile phone signals are improved in rural areas. If we want to be competitive, that has to be part of the picture.

David Melding: Mae gennych gyfle euraidd o ran defnyddio cronfeydd Ewropeaidd. Yr ydym hanner ffordd drwy'r rhaglen, ac nid yw gwariant cyfalaf dan y rhaglen

not progressing at the speed that we would have liked. I wish to commend a particular example, which is something that the Northern Irish Government has done: it has a planned programme to extend broadband across the province, particularly to remote areas. It has done that in a comprehensive and not a piecemeal manner. Do you not have that opportunity now? I suspect that you will have no difficulty in getting private sector match funding for a comprehensive project.

The Deputy First Minister: Yes, you are right. That is something that the Government should be looking at. We understand the importance of that. Creating a competitive economy depends on having a twenty-first century infrastructure, of which next-generation broadband is a key component.

David Melding: Minister, earlier this afternoon, we heard from Jenny Randerson about the sluggish performance of the Welsh economy in terms of enterprise: we are bottom of the UK league. Is this not an area where we could have excellent universal provision? The Labour Party has committed to 2 Mbps, which is half the speed of what the United States is now implementing. I have recently come back from the United States, and the big story there—and it was a big story—is that its universal provision has been set at too low a figure, at 4 Mbps. Do you not think that, if we really are going to see areas outside Cardiff, particularly the Valleys and rural areas, grasping a new economic future, we have to give them a particular advantage? I can think of no better one at the moment than the provision of new-age broadband services.

The Deputy First Minister: I do not think that there is any disagreement between us on this issue, David, and I hope that there will be a consensus across the Chamber on it. You are absolutely right: if we are to create a competitive economy and make sure that businesses in all parts of Wales can benefit from new business opportunities, we need to be able to ensure that they have good access to twenty-first century infrastructure, of which next-generation broadband is a key

Ewropeaidd yn mynd rhagddo mor gyflym ag y byddem wedi dymuno. Hoffwn ganmol enghraifft benodol, sy'n rhywbeth y mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi'i wneud: mae ganddi raglen arfaethedig i ymestyn band eang ar draws y dalaith, yn enwedig i ardaloedd anghysbell. Mae wedi gwneud hynny mewn modd cynhwysfawr, nid yn ddarniog. Onid yw'r cyfle hwnnw gennyh yn awr? Credaf y byddai'n hawdd ichi gael arian cyfatebol gan y sector preifat ar gyfer prosiect cynhwysfawr.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydych yn iawn. Mae'n rhywbeth y dylai'r Llywodraeth fod yn ei ystyried. Yr ydym yn deall pwysigrwydd hynny. Mae creu economi gystadleuol yn dibynnu ar gael seilwaith addas i'r unfed ganrif ar hugain, ac y mae band eang y genhedlaeth nesaf yn elfen allweddol ohono.

David Melding: Weinidog, yn gynharach y prynhawn yma clywsom gan Jenny Randerson am berfformiad di-fflach economi Cymru o ran menter: yr ydym ar waelod cynghrair y DU. Onid yw hwn yn faes lle gallem gael darpariaeth gyffredinol ardderchog? Mae'r Blaid Lafur wedi ymrwymo i 2 Fegabit yr eiliad, sef hanner y cyflymder y mae'r Unol Daleithiau yn ei roi ar waith yn awr. Yr wyf newydd ddychwelyd o'r Unol Daleithiau, a'r stori fawr yno—ac yr oedd yn stori fawr—yw bod y ddarpariaeth gyffredinol wedi'i seilio ar ffigur rhy isel, sef 4 Megabit yr eiliad. Os ydym am weld ardaloedd y tu allan i Gaerdydd, yn enwedig y Cymoedd ac ardaloedd gwledig, yn manteisio ar ddyfodol economaidd newydd, oni chredwch fod yn rhaid inni roi mantais benodol iddynt? Ni allaf feddwl am yr un fantais well ar hyn o bryd na darparu gwasanaethau band eang yr oes newydd.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni chredaf ein bod yn anghytuno o gwbl â'n gilydd ar y mater hwn, David, a gobeithio y bydd consensws yn ei gylch ar draws y Siambr. Yr ydych yn llygad eich lle: os ydym am greu economi gystadleuol a sicrhau y gall busnesau ym mhob rhan o Gymru elwa o gyfleoedd busnes newydd, mae angen inni allu sicrhau eu bod yn gallu cael seilwaith sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain y mae band eang y genhedlaeth nesaf yn elfen

component. I hope that, when we are in a position to make an announcement on something approaching that, hopefully later this year, it will get a good welcome across the Chamber.

Joyce Watson: A few weeks ago, I attended a question-time session with Pembrokeshire Tourism, and questions about ICT infrastructure came up time and time again. One business was trying to cope with running its operations via a dial-up system. I am sure that you will agree, Deputy First Minister, that that is wholly unacceptable. It is vital that all parts of Wales gain access to high-speed internet services, and it is essential that businesses are fully equipped to compete successfully. Will you therefore join me, Deputy First Minister, in welcoming Labour's pledge to invest £1 billion in super-fast broadband technology and its commitment to deliver broadband access to all over the next decade?

The Deputy First Minister: I understand the point that you are making, but my responsibility is to deal with issues relating to the Welsh Assembly Government. What I can say is that if there is a contribution that can be made to us from UK Government funding to develop our system, obviously that is to be welcomed. I accept the basic premise of your question, which is that businesses cannot develop successfully if they are reliant on dial-up access to the internet. There has to be good-quality broadband. As a Government, we understand that, and we are working very hard to see how much of that we can deliver in the coming years.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Deputy First Minister, both Scotland and Northern Ireland have pursued a comprehensive scheme that has fostered technology of whatever type is necessary to enable those broadband connections that you say you are working very hard to establish. Why has your Government ruled out a similar scheme to that which has been very successful in Scotland and is working in Northern Ireland? Communities like Tirabad in my constituency are never going to get the broadband

allweddol ohono. Pan fyddwn mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad am rywbeth tebyg i hynny, yn ddiweddarach eleni gobeithio, fy ngobaith yw y caiff groeso cynnes ar draws y Siambr.

Joyce Watson: Rai wythnosau'n ôl, bùm mewn sesiwn holi ac ateb gyda Thwristiaeth Sir Benfro, a gofynnwyd cwestiynau dro ar ôl tro am seilwaith TGCh. Yr oedd un busnes yn ceisio ymdopi â gweithredu drwy system ddeialu. Yr wyf yn siŵr y cytunwch, Ddirprwy Brif Weinidog, fod hynny'n hollol annerbyniol. Mae'n hanfodol bod pob rhan o Gymru yn cael mynediad i wasanaethau rhyngwyd cyflym iawn, ac mae'n hanfodol bod gan fusnesau bopeth y mae arnynt ei angen i allu cystadlu'n llwyddiannus. Felly, a wnewch chi ymuno â mi, Ddirprwy Brif Weinidog, i groesawu addewid y Blaid Lafur i fuddsoddi £1 biliwn mewn technoleg band eang arbennig o gyflym, a chroesawu ei hymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i fand eang dros y degawd nesaf?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn deall y pwynt a wnewch, ond fy nghyfrifoldeb i yw ymdrin â materion yn ymwneud â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw, os oes modd inni gael cyfraniad o gyllid Llywodraeth y DU i ddatblygu ein system, mae'n amlwg y dylid croesawu hynny. Yr wyf yn derbyn haerid sylfaenol eich cwestiwn, sef na all busnesau ddatblygu'n llwyddiannus os ydynt yn dibynnu ar system ddeialu i gael mynediad i'r rhyngwyd. Rhaid cael band eang o safon. Fel Llywodraeth yr ydym yn deall hynny, ac yr ydym yn gweithio'n ddiwyd iawn i weld faint o hynny y gallwn ei ddarparu yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Ddirprwy Brif Weinidog, mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi mynd ar drywydd cynllun cynhwysfawr sydd wedi meithrin technoleg o ba fath bynnag sy'n angenrheidiol i alluogi'r cysylltiadau band eang hynny y dywedwch eich bod yn gweithio'n ddiwyd iawn i'w sefydlu. Pam y mae eich Llywodraeth wedi diystyru cynllun tebyg i'r hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr Alban ac sy'n gweithio yng Ngogledd Iwerddon? Nid yw cymunedau megis Tirabad yn fy etholaeth i

connections that they desire if it is left to the marketplace. When will communities the length and breadth of Wales that want those broadband connections—and you agree that they need them—get them, and will you look at involving different types of technology, including satellite, to make that a reality for them?

The Deputy First Minister: I am not sure what you mean when you say that I have ruled something out. I do not think that I have ever ruled anything out in relation to the delivery of broadband. What I have said is that I am happy to look at the approach, on which there seems to be a consensus in the Chamber, of looking at a comprehensive package. You have to be a little bit patient because there will be an announcement later this year, and I hope that the announcement will be generally welcomed across the Chamber.

2.40 p.m.

Alun Davies: You are right, Deputy First Minister: there is a consensus across the Chamber on achieving these ambitions. I am sure that you also share my frustration and disappointment that the Conservative Party would not allow the Digital Economy Bill—or the Digital Economy Act 2010, as it is now known—to proceed through Parliament in the last few weeks of the last Parliament, to provide us with the funding that would enable us to achieve this. It will mean a very real delay before the re-elected Labour Government is able to reinstate the legislation and provide additional funding to enable us to meet these demands.

Deputy First Minister, can you assure us that you will continue to work with communities across Wales to ensure that broadband of a sufficient speed is available, to enable both families and businesses to be connected, and that it will reach the whole country? While I recognise the importance of broadband access in very remote rural areas, the difficulties in accessing high-speed broadband are not exclusive to rural Wales: they also exist in urban Wales. In the competitive markets of the future, distance

byth yn mynd i gael y cysylltiadau band eang a ddymunant, o ddibynnu ar y farchnad i sicrhau hynny. Pryd y bydd cymunedau ledled Cymru sydd am gael y cysylltiadau band eang hynny yn eu cael—ac yr ydych yn cytuno bod arnynt eu hangen, ac a wneuch chi ystyried cynnwys gwahanol fathau o dechnoleg, gan gynnwys lloeren, i wireddu eu dymuniad?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid wyf yn siŵr beth yr ydych yn ei olygu wrth ddweud fy mod wedi diystyru rhywbeth. Nid wyf yn credu imi ddiystyru dim erioed yng nghyswllt gwaith darparu band eang. Yr hyn yr wyf wedi'i ddweud yw fy mod yn fodlon ystyried edrych ar becyn cynhwysfawr, ac ymddengys fod consensws ynghylch hynny yn y Siambr. Rhaid ichi fod ychydig yn amyneddgar, oherwydd gwneir cyhoeddiad yn ddiweddarach eleni, ac yr wyf yn gobeithio y caiff groeso cyffredinol ar draws y Siambr.

Alun Davies: Yr ydych yn iawn, Ddirprwy Brif Weinidog: mae consensws ar draws y Siambr ynghylch gwireddu'r uchelgeisiau hyn. Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn teimlo'n rhwystredig ac yn siomedig nad oedd y Blaid Geidwadol yn fodlon caniatáu i'r Mesur Economi Ddigidol—neu Ddeddf Economi Ddigidol 2010, fel y'i gelwir erbyn hyn—symud ymlaen drwy Senedd y DU yn ystod ychydig wythnosau olaf y Senedd ddiwethaf, er mwyn rhoi'r cyllid inni a fyddai'n ein galluogi i gyflawni hynny. Bydd oedi gwirioneddol cyn y bydd y Llywodraeth Lafur a ailetholir yn gallu ailgyflwyno'r ddeddfwriaeth a darparu cyllid ychwanegol i'n galluogi i fodloni'r galwadau hyn.

Ddirprwy Brif Weinidog, a allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn parhau i weithio gyda chymunedau ledled Cymru i sicrhau bod band eang ar gael ar gyflymder digonol i alluogi teuluoedd a busnesau i gysylltu â'r rhyngwyd, ac y bydd yn cyrraedd y wlad gyfan? Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd gallu cael band eang mewn ardaloedd gwledig anghysbell iawn, ond nid yng nghefn gwlad Cymru yn unig y mae pobl yn cael anhawster i gael band eang cyflym iawn: mae'r anawsterau hynny'n bodoli yn

will be measured not only in miles, but also in broadband speeds. In order to achieve the economic growth that we, on this side of the Chamber, wish to see, we need high-speed broadband throughout Wales as soon as possible.

The Deputy First Minister: I share the desire to see next-generation broadband rolled out as far as possible across Wales and we will be looking to see how that can be taken forward. Any contribution that will come from the UK Government to deliver that would be extremely helpful.

Unemployment

Q7 William Graham: Will the Minister make a statement on the levels of unemployment in South Wales East? OAQ(3)1466(ECT)

The Deputy First Minister: The latest labour market statistics state that the number of people unemployed in South Wales East is 31,000. The economic renewal programme will establish a renewed approach to economic development to encourage a stronger and more sustainable economy in all parts of Wales.

William Graham: I am sure that you will share my disappointment that this figure has increased yet again. Though we have supported many of the schemes that your Government has implemented, they do not seem to have offered an adequate answer to rising unemployment in south-east Wales. Can you give us an undertaking today that you will redouble your efforts to ensure that people who find themselves out of work will be given an adequate scheme by your Government?

The Deputy First Minister: Yes, of course we will. We recognise that the unemployment figures are an indicator of where the economy is, although it is a lagging indicator. It is interesting that the claimant-count numbers have gone down, and have been going down for quite a while.

ardaloedd trefol Cymru hefyd. Ym marchnadoedd cystadleuol y dyfodol, nid mewn milltiroedd yn unig y bydd pellter yn cael ei fesur, ond mewn cyflymder band eang hefyd. Er mwyn sicrhau'r twf economaidd yr ydym ni, yr ochr hon i'r Siambr, am ei weld, mae arnom angen band eang cyflym iawn cyn gynted ag sy'n bosibl ar draws Cymru gyfan.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf fi hefyd yn dymuno gweld band eang y genhedlaeth nesaf yn cael ei roi ar waith cyn belled ag sy'n bosibl ar draws Cymru, a byddwn yn edrych i weld sut y gellir symud hynny yn ei flaen. Byddai unrhyw gyfraniad gan Lywodraeth y DU i'w ddarparu yn eithriadol o ddefnyddiol.

Diweithdra

C7 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau diweithdra yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)1466(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Dengys yr ystadegau diweddaraf am y farchnad lafur mai nifer y bobl sy'n ddi-waith yn Nwyrain De Cymru yw 31,000. Bydd rhaglen adnewyddu'r economi yn mynd ati o'r newydd i hyrwyddo datblygu economaidd er mwyn hybu economi gryfach a mwy cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru.

William Graham: Yr wyf yn siŵr y byddwch chi, fel finnau, yn siomedig fod y ffigur hwn wedi codi unwaith yn rhagor. Er inni gefnogi llawer o'r cynlluniau y mae eich Llywodraeth wedi eu gweithredu, ymddengys nad ydynt wedi cynnig ateb digonol i ddiweithdra sy'n cynyddu yn y de-ddwyrain. A allwch addo inni heddiw y byddwch yn ymdrechu'n galetach fyth i sicrhau bod eich Llywodraeth yn cynnig cynllun digonol i bobl sy'n eu cael eu hunain yn ddi-waith?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Byddwn, wrth gwrs. Yr ydym yn cydnabod bod y ffigurau diweithdra'n arwydd o sefyllfa'r economi, er eu bod yn arwydd sydd ar ei hól hi braidd. Mae'n ddiddorol bod niferoedd y bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng, a'u bod wedi bod yn gostwng ers cryn dipyn. Mae'r

The drop in claimant-count numbers in Wales is higher than in the rest of the UK, which is something that we should set aside from unemployment figures. Those figures change, and can change quite dramatically, from month to month. I can assure you that the Government is fully committed to addressing this issue. Also, we understand the impact that this is having in south-east Wales, on young people in particular. If you look at the figures for young people, it is very worrying, and it is something that we are seeking to address, both in terms of the skills that we need for the future and the apprenticeship schemes that we have protected throughout the recession.

Rhodri Morgan: Will the Deputy First Minister confirm that south-east Wales will be sharing fully in the excellent unemployment and employment figures that were published by the Office for National Statistics this morning? Employment in Wales is up by 16,000 to 1,320,000; the claimant count is down by 2,000 for March compared to the previous figures for February; the wider count of unemployment is also down by 2,000 for the latest quarter—December, January, February—compared to the previous figure for November, December, January; and, economic inactivity is down 18,000 to 418,000 from 436,000. Can we share these excellent figures with everybody, although the Liberal Democrats' spokesperson, Jenny Randerson, and William Graham, seem to have missed these figures, despite the fact that they are available from an independent source, namely the Office for National Statistics?

The Deputy First Minister: It is right that the full figures should be disseminated and made available to people. It is not surprising that opposition spokespeople tend to concentrate on those figures that they think show the Government in a negative light, but that is typical of their pattern of talking Wales down. The latest market figures show some encouraging signs, with the claimant count, which is a more timely measure of how many people are seeking support, going down by 2,000. However, I recognise, as I

gostyngiad yn niferoedd y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru yn fwy nag yng ngweddill y DU, sy'n rhywbeth y dylem ei gadw ar wahân i ffigurau diweithdra. Mae'r ffigurau hynny'n newid, a gallant newid yn eithaf dramatig, o'r naill fis i'r llall. Gallaf eich sicrhau bod y Llywodraeth wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn ogystal, yr ydym yn deall yr effaith a gaiff hyn ar y de-ddwyrain, ac ar bobl ifanc yn enwedig. Mae'r ffigurau ar gyfer pobl ifanc, o edrych arnynt, yn peri pryder mawr, ac maent yn rhywbeth yr ydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef, o ran y sgiliau y mae arnom eu hangen ar gyfer y dyfodol a'r cynlluniau prentisiaethau yr ydym wedi eu gwarchod drwy gydol y dirwasgiad.

Rhodri Morgan: A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog gadarnhau y bydd y de-ddwyrain yn cael yn llawn y ffigurau ardderchog ar ddiweithdra a chyflogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol y bore yma? Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 16,000 i 1,320,000; mae niferoedd y bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng 2,000 ar gyfer mis Mawrth, o'u cymharu â'r ffigurau blaenorol ar gyfer mis Chwefror; mae'r cyfrif ehangach o ddiweithdra wedi gostwng 2,000 hefyd ar gyfer y chwarter diweddaraf—Rhagfyr, Ionawr, Chwefror—o'i gymharu â'r ffigur blaenorol ar gyfer Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr; ac mae anweithgarwch economaidd wedi gostwng 18,000 i 418,000 ar ôl bod yn 436,000. A allwn rannu'r ffigurau ardderchog hyn â phawb, er ei bod yn ymddangos bod llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Jenny Randerson, a William Graham wedi methu â sylwi ar y ffigurau hyn, er eu bod ar gael gan ffynhonnell annibynnol, sef y Swyddfa Ystadegau Gwladol?

Jenny Randerson: Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn gefnogol iawn i gysyniad y cyngor partneriaeth busnes. Nodaf yr hyn a ddywedodd David am anamllder y cyfarfodydd, sy'n bwynt y mae wedi'i godi o'r blaen. Yr wyf fi, fel yntau, yn pryderu nad yw'r cyngor partneriaeth i bob pwrpas yn chwarae rôl effeithiol mwyach o ran y cyngor y mae'n ei roi i'r Gweinidog. Er ei fod yn dal i fodoli o ran enw, yn bendant nid yw'n sefydliad dynamig. Mae hynny'n arwydd o'r rôl y mae'r sector preifat wedi cael ei wthio iddi dan y Llywodraeth Lafur/Plaid Cymru. Mae'n arwydd bod ymdeimlad o ofn, bron, yn ymledu ar draws wynebaw rhai o Aelodau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad os soniwch am y sector preifat. Gellir gweld canlyniad hynny yn y math o ffigurau yr ydym wedi'u cael heddiw ac a ddyfynnais y prynhawn yma wrth sôn am ein cystadleurwydd. O gadw'r sector busnes hyd braich o hyd, ni fyddwch, fel yr awgrymodd Gareth, yn gweithio mewn partneriaeth ag ef; ni fyddwch yn gweithio gydag ef o gwbl i bob pwrpas. Mae hynny'n broblem sylweddol i'r Llywodraeth.

Wedi dweud hynny i gyd, gwelwyd newid cyfeiriad sylweddol pan ddechreuodd yr hyn yr wyf yn ei alw'n gyfnod 'aciwt' yr argyfwng economaidd; yr ydym yng nghyfnod cronig y dirwasgiad yn awr. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod aciwt yr argyfwng economaidd, gwnaeth y Llywodraeth waith defnyddiol yn yr uwchgynadleddau economaidd. Yr oedd dod â'r sector busnes i mewn i fod yn rhan o'r uwchgynadleddau hynny'n ddefnyddiol. Nid oedd yr uwchgynadleddau'n berffaith, oherwydd dylent fod wedi cynnwys y sector addysg uwch o'r dechrau. Dywedodd tystion yn y

Government in which the Government effectively justified what it had done. However, I am absolutely sure that those summits provided some interesting and good ideas for the Minister.

Earlier today, there was a question from Rhodri Morgan about the interpretation of the statistics on unemployment. That struck me as a desperate attempt at spin, because we are in a situation where 2,000 more people are now seeking employment since the last figures were announced. Although some aspects of unemployment have improved, among the statistics that Rhodri Morgan has given us, time and again, are the useful statistics, namely the ones that have got worse this month. The problem is that the Prime Minister, Gordon Brown, when faced with this, said that things are bad, the recovery is fragile and that this is not good enough. However, here, this afternoon, we have had an attempt at spin. I do not blame the Government for trying to put a good face on things in the middle of an election campaign, but the Government has to face up to the sort of problems that were revealed in the UK competitiveness index, which I referred to in questions earlier this afternoon. We, as a nation, are at 83 per cent of the average for the UK. We are now at the bottom. We used to be eleventh, which was sad enough, but we are now bottom. We would be at less than 83 per cent if it were not for the effectiveness of the commercial activity of Cardiff and some growth within Newport, as there has been some development there.

The lessons from abroad are that you have to develop a long-term, all-embracing economic strategy. You have to have a policy that is bigger than one four-year period of Government. If you are going to succeed, you have to be prepared to take in the key interests—which should be across the political spectrum—of the business sector. Whether you agree with everything that they say or not, the business sector does know, in general, how business works. Therefore,

pwylgor fod yr uwchgynadleddau, ar ôl dau neu dri chyfarfod effeithiol, wedi troi'n ymarferion adrodd yn ôl i'r Llywodraeth, lle'r oedd y Llywodraeth i bob pwrpas yn cyfiawnhau'r hyn yr oedd wedi'i wneud. Fodd bynnag, yr wyf yn gwbl sicr fod yr uwchgynadleddau hynny wedi rhoi rhai syniadau diddorol a da i'r Gweinidog.

Yn gynharach heddiw, cafwyd cwestiwn gan Rhodri Morgan am y dehongliad o'r ystadegau ar ddiweithdra. Cefais yr argraff mai ymgais taer oedd hynny i roi golwg gadarnhaol ar bethau, oherwydd yr ydym mewn sefyllfa lle mae 2,000 yn fwy o bobl yn chwilio am waith yn awr, ers i'r ffigurau diwethaf gael eu cyhoeddi. Er bod rhai agweddau ar ddiweithdra wedi gwella, ceir ystadegau defnyddiol ymhlith yr ystadegau y mae Rhodri Morgan wedi'u rhoi inni dro ar ôl tro, sef y rhai sydd wedi gwaethygu y mis hwn. Y broblem yw, pan oedd y Prif Weinidog, Gordon Brown, yn wynebu'r sefyllfa hon, dywedodd fod pethau'n ddrwg, bod y broses adfer yn fregus ac nad yw hynny'n ddigon da. Fodd bynnag, yn y fan hon y prynhawn yma, gwelwyd ymgais i roi golwg gadarnhaol ar bethau. Nid wyf yn beio'r Llywodraeth am geisio rhoi golwg dda ar bethau yng nghanol ymgyrch ar gyfer etholiad, ond rhaid i'r Llywodraeth wynebu'r math o broblemau a ddatgelwyd ym mynegai cystadleurwydd y DU, y cyfeiriais ato mewn cwestiynau yn gynharach y prynhawn yma. Yr ydym ni, fel gwlad, ar 83 y cant o gyfartaledd y DU. Yr ydym yn awr ar y gwaelod. Arferem fod yn yr unfed safle ar ddeg, a oedd yn ddigon trist, ond yr ydym bellach ar y gwaelod. Byddem yn is na 83 y cant oni bai am effeithiolrwydd gweithgarwch masnachol Caerdydd a rhywfaint o dwf yng Nghasnewydd, gan fod rhywfaint o ddatblygu wedi digwydd yno.

Y gwersi o dramor yw bod yn rhaid ichi ddatblygu strategaeth economaidd hirdymor, hollgynhwysol. Rhaid ichi gael polisi sy'n ymestyn dros fwy nag un cyfnod o bedair blynedd Llywodraeth. Os ydych am lwyddo, rhaid ichi fod yn barod i ystyried buddiannau allweddol—a ddylai fod ar draws y sbectrwm gwleidyddol—y sector busnes. P'un a ydych yn cytuno â phopeth y mae'n ei ddweud ai peidio, gŵyr y sector busnes, yn gyffredinol, sut y mae busnes yn gweithio. Felly, mae

there is great scope to develop the business partnership council into a strong policy development organisation and a strong strategic organisation. I very much hope that the Government will reconsider the role to which it seems to have consigned the council at the moment.

Andrew R.T. Davies: I thank my colleague, David Melding, for bringing forward this debate this afternoon and am grateful to be able to contribute to it. The title of the business partnership council would, hopefully, indicate that there is consensus and that the body could help to inform Government policy and thinking in devising a mixed economy, which we all accept has to be the ultimate goal in order to have balance in the Welsh economy. Many indices show that the high dependency on the public sector might well put us at a disadvantage in future, given the obligations and liabilities that we understand that the Exchequer will face, and the ability to fund certain public services.

Therefore, it is rather disappointing to see that the Welsh Assembly Government has not been engaging fully with this partnership and has not entered into dialogue with it. An informal, arm's-length organisation such as the partnership council might be able to develop a way of thinking that would allow Welsh Assembly Government policy to be more reactive to the needs of business. The Confederation of British Industry pointed out that, sadly, the Welsh Assembly Government's response in dealing with business has, to date, been lamentable, when it gave an analysis of what the incoming First Minister should put at the top of his list of priorities when developing a strategy for government. I hope that the Deputy First Minister will respond to today's debate with positive ideas on how his department will engage with business, but also, given the nature of the partnership, with trade unions and public sector bodies so that we can have that mix and balance.

When I visited the Bosch headquarters in February to discuss the factors that the company believed contributed to the closure

digon o gyfle i ddatblygu'r cyngor partneriaeth busnes yn sefydliad cryf i ddatblygu polisiau ac yn sefydliad strategol cryf. Gobeithio'n fawr y bydd y Llywodraeth yn fodlon ailystyried y rôl y mae fel pe bai wedi gwthio'r cyngor iddi ar hyn o bryd.

Andrew R.T. Davies: Diolch i'm cydweithiwr, David Melding, am gyflwyno'r ddatl hon y prynhawn yma, ac yr wyf yn ddiolchgar am allu cyfrannu iddi. Byddai teitl y cyngor partneriaeth busnes, gobeithio, yn dangos bod consensws, ac yn dangos y gallai'r corff helpu llywio polisi a meddylfryd y Llywodraeth o ran creu economi gymysg. Rhaid mai dyna'r nod yn y pen draw er mwyn cael cydbwysedd yn economi Cymru, ac yr ydym i gyd yn derbyn hynny. Mae llawer o fynegeion yn dangos y gallai'r ddibyniaeth uchel ar y sector cyhoeddus ein rhoi dan anfantais yn y dyfodol, o gofio'r rhwymedigaethau a'r ymrwymadau deallwn y bydd y Trysorlys yn eu hwynebu, a'r gallu i gyllido rhai gwasanaethau cyhoeddus.

Felly, siomedig braidd yw gweld nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn ymgysylltu'n llawn â'r bartneriaeth hon, ac nad yw wedi bod yn trafod gyda hi. Efallai y gallai sefydliad anffurfiol, hyd braich, megis y cyngor partneriaeth, ddatblygu ffordd o feddwl a fyddai'n caniatáu i bolisi Llywodraeth y Cynulliad fod yn fwy ymatebol i anghenion byd busnes. Tynnodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain sylw at y ffaith fod ymateb Llywodraeth y Cynulliad o ran ymdrin â byd busnes wedi bod yn druenus hyd yma, yn anffodus, pan roddodd ddadansoddiad o'r hyn y dylai'r Prif Weinidog newydd ei roi ar frig ei restr o flaenoriaethau wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer llywodraeth. Gobeithio y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ymateb i'r ddatl heddiw â syniadau cadarnhaol ynghylch sut y bydd ei adran yn ymgysylltu â byd busnes, ac o gofio natur y bartneriaeth sut y bydd hefyd yn ymgysylltu ag undebau llafur a chyrrff y sector cyhoeddus er mwyn inni allu sicrhau'r cymysgedd a'r cydbwysedd hwnnw.

Pan ymwelais â phencadlys Bosch ym mis Chwefror i drafod y ffactorau yr oedd y cwmni'n credu iddynt gyfrannu at gau ei

of its factory, one of the conversations that we had related to the importance of education and skills in future workforce plans. While we all recognise the high skills level and dedication of the workforce at Miskin, Bosch was clear in saying that, in modelling a workforce for the future—it used the Indian subcontinent as an example, because it has a research facility out there—it is important that government policy is based on skills and training and ensuring a highly skilled workforce in order to attract inward investment. It believed that the best way for the Government to address this was to be proactive in engaging with business and partners, so that we can have that model in Wales. It is depressing to learn that we have one of the highest rates of young people not in education, employment or training in the United Kingdom. The average is 10.1 per cent, but in Wales nearly 12 per cent of young people are NEET. It was hoped that this type of forum would give the Government a springboard into the mindset of businesses, so that it can devise the policy that Government has to devise, because there is a distinct difference—and I accept that difference—between that and the political dimension that we find the Welsh Assembly Government developing now with the demise of the Welsh Development Agency. My colleague David Melding and I readily acknowledge that that was not in the orbit of the Minister when he had responsibility for the economic portfolio.

3.20 p.m.

However, many businesses had confidence in the WDA and a relationship with it that was not necessarily as difficult or challenging as some people find balancing the political priorities with the development role of the Welsh Assembly Government in how it now works with business. As an Assembly Member, I know that, time and again, businesses identify a problem with trying to work within the free enterprise economy and balancing that with the political dialogue that they need to have with politicians, who, quite rightly, are under the pressure of intense scrutiny in being held to account for the

ffatri, yr oedd un o'r sgysiau a gawsom yn ymwneud â phwysigrwydd addysg a sgiliau mewn cynlluniau ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol. Er ein bod i gyd yn cydnabod ymroddiad y gweithlu ym Meisgyn a lefel uchel ei sgiliau, dywedodd Bosch yn glir ei bod yn bwysig i bolisi'r llywodraeth fod yn seiliedig ar sgiliau a hyfforddiant ac ar sicrhau gweithlu medrus tu hwnt, wrth fodelu gweithlu ar gyfer y dyfodol, er mwyn denu mewnfuddsoddi—defnyddiodd isgyfandir India fel enghraifft, oherwydd mae ganddo gyfleuster ymchwil yno. Credai mai'r ffordd orau i'r Llywodraeth fynd i'r afael â hynny oedd drwy fod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â byd busnes a phartneriaid, er mwyn inni allu cael y model hwnnw yng Nghymru. Mae'n dorcalonnus clywed bod ein cyfradd ni o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gyda'r uchaf yn y Deyrnas Unedig. Deg pwynt un y cant yw'r cyfartaledd, ond yng Nghymru mae bron i 12 y cant o bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Y gobaith oedd y byddai'r math hwn o fforwm yn gyfle i'r Llywodraeth ddeall cyfeiriad meddwl busnesau, er mwyn iddi allu creu'r polisi y mae'n rhaid i Lywodraeth ei chreu, oherwydd mae gwahaniaeth amlwg—a derbyniaf y gwahaniaeth hwnnw—rhwng hynny a'r dimensiwn gwleidyddol yr ydym yn gweld Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddatblygu'n awr ar ôl diflaniad Awdurdod Datblygu Cymru. Mae fy nghydweithiwr, David Melding, a minnau'n fodlon cydnabod nad oedd hynny'n rhan o gylch dylanwad y Gweinidog pan oedd yn gyfrifol am y portffolio economaidd.

Fodd bynnag, yr oedd gan lawer o fusnesau hyder yn Awdurdod Datblygu Cymru, a pherthynas ag ef nad oedd o reidrwydd mor anodd neu heriol â'r hyn sy'n anodd neu'n heriol i bobl erbyn hyn, sef cydbwysu'r blaenoriaethau gwleidyddol â rôl ddatblygu Llywodraeth y Cynulliad yn y ffordd y mae'n gweithio gyda busnesau erbyn hyn. Fel Aelod Cynulliad, gwn fod busnesau'n gweld problem dro ar ôl tro o ran ceisio gweithio yn yr economi menter rydd, a chydbwysu hynny â'r drafodaeth wleidyddol y mae angen iddynt ei chael gyda gwleidyddion sydd, yn gywir ddigon, dan bwysau gwaith craffu

expenditure of public money. As Wales was a recipient of Objective 1 money in the first instance and has been a recipient of convergence funding subsequently, that is an environment that affects many aspect of the support that the Welsh Assembly Government offers, because the expenditure of public money has to be audited and accounted for. It would be hoped that if the partnership model that, hopefully, the Minister, in responding today, will say that he will be able to activate comes to fruition, businesses will engage positively and bring ideas forward. It is through partnership that we will develop the mixed, balanced economy that can sustain our public services, create employment opportunities and create the prosperity in communities that many initiatives to date have failed to deliver.

I look forward to the Minister's response, and I hope that he will respond constructively to what is a very timely debate.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Yr wyf yn gwerthfawrogi'r ffaith ein bod yn cael cyfle i drafod perthynas y Llywodraeth gyda byd busnes. Mae ein gwelliant yn cyfeirio at y ffaith ein bod yn derbyn rôl y gymuned fusnes yn yr uwchgynadleddau ac mewn ffurfio ymateb y Llywodraeth i'r dirwasgiad, a'n bod yn gwerthfawrogi'r gwaith hwnnw. Yr ydym hefyd yn croesawu'r cysylltiad a gawsom gyda byd busnes o ran y rhaglen adnewyddu economaidd, ac edrychwn ymlaen i gyhoeddi'r rhaglen honno. O ganlyniad i hynny, mae'r cynnig fel y cafodd ei osod yn ddiangen, gan fod gwaith yn mynd rhagddo rhwng y Llywodraeth a'r gymuned fusnes i ffocysu ar ddatblygu a gwella'r cyngor partneriaeth busnes o ran y ffordd mae'n gweithredu ar hyn o bryd.

Derbyniad fod llawer o dir cyffredin rhwng y Llywodraeth ac ochr arall y Siambr o'r hyn a ddywedwyd. Yn naturiol, mae ambell beth y byddwn yn anghytuno ag ef, ond o ran fframwaith y ddadl a'r hyn yr oedd David Melding yn ei gyflwyno, nid wyf yn siŵr fod llawer o wahaniaeth barn rhyngom. Yr unig feirniadaeth ganddo hyd y gwelaf i oedd nad oedd y cyngor partneriaeth busnes wedi

dwys wrth gael eu dwyn i gyfrif am y modd y caiff arian cyhoeddus ei wario. Oherwydd bod Cymru wedi cael arian Amcan 1 yn y lle cyntaf, ac wedi cael cyllid cydgyfeirio wedi hynny, mae'n amgylchedd sy'n effeithio ar lawer agwedd ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei chynnig, oherwydd rhaid archwilio ac egluro'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario. Byddid yn gobeithio y bydd busnesau'n ymgysylltu yn gadarnhaol ac yn cyflwyno syniadau, os bydd y model partneriaeth y bydd y Gweinidog, gobeithio, wrth ymateb heddiw, yn dweud y gall ei greu, yn dwyn ffrwyth. Drwy bartneriaeth y mae datblygu'r economi gymysg a chytbwys a all gynnal ein gwasanaethau cyhoeddus, creu cyfleoedd o ran cyflogaeth, a chreu'r ffyniant mewn cymunedau y mae llawer o fentrau hyd yma wedi methu â'i sicrhau.

Edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog, a gobeithio y bydd yn ymateb yn adeiladol i'r ddadl amserol iawn hon.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I appreciate the fact that we have been given an opportunity to discuss the Government's relationship with the world of business. Our amendment refers to the fact that we accept the role played by the business community in the economic summits and in forming the Government's response to the recession, and that we appreciate that work. We welcome the relationship we have had with the business community in terms of the economic renewal programme, and we look forward to its publication. As a result, the motion as tabled is unnecessary because work is ongoing between the Government and the business community to focus on improving and developing the operation of the business partnership council.

I accept that there is a great deal of common ground between the Government and the other side of the Chamber considering what has been said. Naturally, there are some things with which I would disagree, but as far as the framework of the debate and David Melding's comments are concerned, I do not believe there is a great deal of difference of opinion between us. The only criticism he

cyfarfod yn ddigon buan ar y dechrau, a'i fod yn teimlo bod angen edrych eto ar y berthynas gyda'r cyngor yn sgîl y dirwasgiad. Ni fyddem yn anghytuno â llawer o hynny. Fodd bynnag, sefydlwyd yr uwchgynadleddau gan y Llywodraeth gan fod angen cael cysylltiad uniongyrchol gyda byd busnes yn ystod y dirwasgiad, a bod hynny wedi digwydd fwy neu lai yn fisol yn ystod y dirwasgiad. Yr oedd hynny'n golygu bod ein perthynas gyda byd busnes, yr undebau a rhanddeiliaid eraill yn llawer cryfach yn ystod y cyfnod hwnnw nag y bu drwy'r cyngor partneriaeth busnes erioed, gan nad oedd y cyngor yn cyfarfod mor aml.

Rhag ofn bod unrhyw gamddealltwriaeth ynglŷn â natur ein perthynas gyda byd busnes, egluraf fy mod yn cyfarfod y fforymau rhanbarthol economaidd yn rheolaidd; cyfarfûm â fforwm economaidd y gogledd rai wythnosau'n ôl, a gwerthfawrogaf y berthynas sydd gennym gyda'r byd busnes ar y lefel ranbarthol, yn ogystal â'r lefel genedlaethol. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn, drwy'r uwchgynhadledd, am farn byd busnes ynglŷn â dyfodol y cyngor, ac ar ddiwedd yr uwchgynhadledd ddiwethaf, gofynnwyd i bobl o fyd busnes, o'r undebau ac i rhanddeiliaid eraill i gyflwyno'u syniadau. Dylwn hefyd ddweud ein bod wedi derbyn llythyr adeiladol iawn gan Non Rhys, cadeirydd Busnes Cymru, yn amlinellu rhai o syniadau byd busnes ynglŷn â sut y gallwn ailffocysu gweithgareddau'r cyngor partneriaeth busnes. Ar ryw bwynt, wrth gwrs, bydd yr uwchgynadleddau'n dod i ben, a byddwn mewn sefyllfa i weld sut y gallwn ailffocysu gwaith y cyngor.

Wrth gwrs, yr wyf yn hapus i wrando ar sylwadau David Melding. Ni allaf ddweud ar hyn o bryd pa un ai y byddwn yn derbyn un neu fwy ohonynt, ond yn sicr mae ef wedi cyfeirio at nifer o bethau, gan gynnwys canllawiau strategol a darparu adroddiad blynyddol i'r Cynulliad. Cynigïaf heddiw y byddwn yn hapus i ddod i bwyllgor sy'n cael ei gadeirio gan Gareth Jones yn flynyddol i drafod ein gwaith gyda'r cyngor partneriaeth busnes. Yn bersonol, credaf y byddai hynny'n fwy effeithiol na chael trafodaeth yn

made, as far as I could tell, was that the business partnership council had not met swiftly enough in the early stages and that he feels that our relationship with the council needs to be reconsidered as a result of the recession. We would not disagree with much of that. However, the Government set up the summits because of the need for a direct link with the business community during the recession, and those summits took place on almost a monthly basis throughout the recession. That meant that our relationship with the business community, the unions and other stakeholders was much stronger during that period than it had ever been through the business partnership council because that did not meet as regularly.

In case there should be any misunderstanding of the nature of our relationship with the business community, I wish to explain that I meet the regional economic fora regularly; I met the north Wales economic forum some weeks ago, and I appreciate the relationship we have with the business community on a regional level, as well as a national level. Through the summits, the Government has requested the opinions of the business community about the future of the council, and at the end of the last summit people from the business community, the unions and other stakeholders were asked to bring forward their ideas. I should also say that we have received a very constructive letter from Non Rhys, the chair of Business Wales, outlining some of the business community's ideas as to how we can refocus the activities of the business partnership council. At some point, of course, the summits will come to an end, and we will be in a position to see how we can refocus the work of the council.

Of course, I am happy to listen to the comments made by David Melding. I cannot say at present that we will accept either one or more than one of them, but certainly he has referred to a number of issues, including strategic guidelines and the provision of an annual report to the Assembly. I propose today that I would be happy to appear annually before the committee under the chairmanship of Gareth Jones to discuss our work with the business partnership council. Personally, I believe that would be more

y Siambr, oherwydd y byddem yn gallu ffocysu llawer mwy ar waith y cyngor. Os yw'r pwyllgor yn teimlo y byddai hynny'n gam ymlaen ar yr ochr graffu, byddem yn hapus i gymryd rhan, ac efallai y byddai'r pwyllgor yn fodlon ystyried hynny fel cam ymlaen.

Cyfeiriodd hefyd at yr angen i ddatblygu sgiliau, fel y gwnaeth Andrew R.T. Davies.

There was a recognition that if we are to improve the performance of the Welsh economy, we need to look specifically at the skills that we need going forward. I very much agree with that. The economic renewal programme is also looking at that. I understand Andrew's point about his meeting with Bosch, but it was not a lack of skills that led to the closure of Bosch.

Andrew R.T. Davies: I just want to clarify that I was not making the point that the current workforce was lacking in skills. However, in conversations about a mixed economy and how Bosch would perhaps like to see things develop more widely, it said that it is important that any economy has a very good skills base and the ability for young people to gain those skills.

The Deputy First Minister: I am glad that you clarified that, because I do not want anyone to believe that it was because of a lack of skills and education that Bosch decided to close the Cardiff plant. The skills that we have at Bosch are extremely valuable and the workforce there is an experienced one with a high level of skills. Bosch has decided to relocate to other parts of the world where the costs are lower. That is part of the problem that we face and are tackling in the economic renewal programme. David Melding gave us a very good presentation; I am not sure that my saying that does his reputation with his colleagues any good, but his approach was a very positive one. The fact that we are rejecting the motion as it is, and asking for support for the amendment, is in no way a reflection on the points that he made in his speech. At the point at which there will be a review of the business partnership council, I am very happy to offer to him, and to Jenny Randerson, an opportunity to discuss that with the

effective than a discussion in the Chamber because we could focus in far greater detail on the work of the council. If the committee feels that would be a step forward in terms of scrutiny, I should be happy to participate in such a discussion, and maybe the committee would like to consider that as a step forward.

He also referred to the need to develop skills, as did Andrew R.T. Davies.

Cydnabuwyd, os ydym am wella perfformiad economi Cymru, fod angen inni edrych yn benodol ar y sgiliau y mae arnom eu hangen wrth symud ymlaen. Cytunaf yn gryf â hynny. Mae'r rhaglen ar gyfer adnewyddu'r economi hefyd yn edrych ar hynny. Yr wyf yn deall pwynt Andrew am ei gyfarfod â Bosch, ond nid diffyg sgiliau a arweiniodd at gau Bosch.

Andrew R.T. Davies: Hoffwn egluro nad oeddwn yn dweud bod y gweithlu presennol yn brin o sgiliau. Fodd bynnag, mewn sgysiau am economi gymysg a'r modd y byddai Bosch efallai am weld pethau'n datblygu yn ehangach, dywedodd ei bod yn bwysig i bob economi gael sylfaen sgiliau dda iawn, a'r gallu i bobl ifanc ennill y sgiliau hynny.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn falch eich bod wedi egluro hynny, oherwydd nid wyf am i neb gredu mai prinder sgiliau ac addysg oedd y rheswm pam y penderfynodd Bosch gau'r ffatri yng Nghaerdydd. Mae'r sgiliau sydd gennym yn Bosch yn hynod werthfawr, ac mae'r gweithlu yno'n weithlu profiadol sydd â lefel uchel o sgiliau. Mae Bosch wedi penderfynu symud i rannau eraill o'r byd lle mae'r costau'n is. Mae hynny'n rhan o'r broblem sy'n ein hwynebu, ac yr ydym yn mynd i'r afael â hi yn rhaglen adnewyddu'r economi. Rhoddodd David Melding gyflwyniad da iawn inni; nid wyf yn siŵr a yw'r ffaith fy mod wedi dweud hynny'n gwneud lles i'w enw da ymhlith ei gydweithwyr, ond yr oedd ei agwedd yn gadarnhaol iawn. Nid yw'r ffaith ein bod yn gwrthod y cynnig fel y mae, ac yn gofyn am gefnogaeth i'r gwelliant, yn adlewyrchiad o gwbl o'r pwyntiau a wnaeth yn ei araith. Pan gynhelir adolygiad o'r cyngor partneriaeth busnes, yr wyf yn fwy na bodlon cynnig cyfle iddo ef, a Jenny Randerson, drafod hynny

Government. Clearly, there have been opportunities where we have spoken to each other and have given briefings on the economic summit. I am happy to extend that invitation to both of them at the point at which we can look at the future programme.

3.30 p.m.

I was a little surprised at Nick Ramsay talking about non-existent amendments, but never mind. He also made it clear that the links between the Assembly Government and businesses are vitally important. We recognise that because, in response to the economic renewal programme, the approach that we have adopted towards businesses has not been to prepare the usual consultation document and then present it, after which it is discussed. Instead, we have engaged businesses at the very beginning and asked for their ideas, even before they have come forward with their proposals. They have warmly welcomed that approach. I therefore hope that in the enormous spirit of goodwill that appears to exist in the Chamber today, we can move forward and, once today's motion is out of the way, get down to the real work of ensuring that the business partnership council is an even more effective body in future.

David Melding: When I put this motion down for discussion, it was in the hope that, given the incredible political times that are swirling around us with the general election, we could use this opportunity profitably to talk about a more than strategic issue that would not divide us in bitter partisan ways. While I was hoping for some outcomes, I did not think that they would be quite as quick in coming as they have been this afternoon. I will certainly take up the Deputy First Minister's invitation to discuss the future of the business partnership council with him and Jenny Randerson. That is helpful, as is his suggestion that the Enterprise and Learning Committee could be used in some way.

We have agreed this afternoon that the partnership council needs to be refreshed. Nick Ramsay made that point quite explicitly, as did Jenny Randerson. The

gyda'r Llywodraeth. Yn amlwg, mae cyfleoedd wedi codi pan ydym wedi siarad â'n gilydd ac wedi rhannu gwybodaeth am yr uwchgynhadledd economaidd. Yr wyf yn fodlon estyn y gwahoddiad hwnnw i'r ddau ohonynt, pan allwn edrych ar raglen y dyfodol.

Yr oeddwn yn synnu braidd clywed Nick Ramsay yn sôn am welliannau nad oeddent yn bodoli, ond peidiwch â phoeni. Eglurodd hefyd fod y cysylltiadau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a busnesau'n hanfodol bwysig. Yr ydym yn cydnabod hynny, oherwydd mewn ymateb i raglen adnewyddu'r economi, nid paratoi'r ddogfen ymgynghori arferol ac yna'i chyflwyno cyn ei thrafod yw'r dull yr ydym wedi'i fabwysiadu wrth ymdrin â busnesau. Yn hytrach, yr ydym wedi ymgysylltu â busnesau ar y dechrau ac wedi gofyn am eu syniadau, hyd yn oed cyn iddynt gyflwyno'u cynigion. Maent wedi croesawu'r dull gweithredu hwnnw'n fawr. Felly, gobeithio y gallwn symud ymlaen yn yr ysbryd helaeth o ewyllys da sydd fel pe bai'n bodoli yn y Siambr heddiw, ac y gallwn ganolbwyntio ar y gwaith go iawn o sicrhau bod y cyngor partneriaeth busnes yn gorff mwy effeithiol fyth yn y dyfodol, pan fydd cynnig heddiw wedi cael sylw.

David Melding: Pan gyflwynais y cynnig hwn i'w drafod, gwneuthum hynny gan obeithio, o gofio'r amseroedd gwleidyddol rhyfeddol yr ydym yn eu canol gyda'r etholiad cyffredinol, y gallem ddefnyddio'r cyfle hwn mewn modd buddiol i siarad am fater mwy na strategol na fyddai'n ein gwahanu mewn ffyrdd pleidiol chwerw. Er imi obeithio am rai canlyniadau, nid oeddwn yn credu y byddent yn dod mor gyflym ag y daethant y prynhawn yma. Byddaf yn bendant yn derbyn gwahoddiad y Dirprwy Brif Weinidog i drafod dyfodol y cyngor partneriaeth busnes gydag ef a Jenny Randerson. Mae hynny'n ddefnyddiol, fel y mae ei awgrym y gellid defnyddio'r Pwyllgor Menter a Dysgu rywsut.

Yr ydym wedi cytuno y prynhawn yma fod angen adfywio'r cyngor partneriaeth. Gwnaeth Nick Ramsay y pwynt hwnnw'n eithaf clir, fel y gwnaeth Jenny Randerson.

Government is clearly intent on doing that, and I hope that some of the ideas that have come forward will inspire creative thought as to how that may be taken forward. Nick Ramsay reminded us of Carwyn's pledge to the private sector to increase its size and to listen to it, but it is by the Government's action that we will measure whether it means it and whether those warm words will be followed up by sincere outcomes. As an opposition party, we will be keen to check that.

Gareth Jones talked about ProAct and ReAct to remind us that the economic summits have played a role and met frequently. That is certainly true. I would say to you, Gareth, that the process has shown what can be agreed when there is a dynamic relationship between the Government and the business sector. There is no doubt that some of that process created positive proposals, but we need that now to be institutionalised into the partnership council model, or whatever it will be called, because, as the Deputy First Minister said, the economic summit process will be wound up at some point. I do not disagree with anything that you said, and it was useful to be reminded of that, but by giving those examples, but you have shown how vital it is for business to be fully involved.

Jenny said that we need to demonstrate to the private sector that we value its role and that we think that it needs a bigger role in Welsh life, especially its economic life, as that that will lead to a more enterprising culture. I completely agree with you, Jenny, that that is the challenge. As you said, it has been grasped in Cardiff, Newport and other parts of Wales, but in some parts of Wales, outside our big cities, it is not going at the pace that we need it to go at, and that is the strategic challenge that is before us.

Andrew R.T. Davies talked about the need for a mixed economy, and I thought that he spiked Gareth Jones's guns when Gareth was trying to convince people that, somehow, the

Mae'n amlwg bod y Llywodraeth yn benderfynol o wneud hynny, a gobeithio y bydd rhai o'r syniadau sydd wedi eu cyflwyno yn ysbrydoli ffyrdd creadigol o feddwl am y modd y gellir bwrw ymlaen â hynny. Atgoffodd Nick Ramsay ni o addewid Carwyn i'r sector preifat i gynyddu ei faint a gwrando arno, ond yn ôl gweithredoedd y Llywodraeth y byddwn yn mesur a yw'n golygu hynny, ac a fydd canlyniadau gwirioneddol yn dilyn y geiriau cynnes dan sylw. Fel gwrthblaid, byddwn yn awyddus i wirio hynny.

Soniodd Gareth Jones am ProAct a ReAct i'n hatgoffa bod yr uwchgynadleddau economaidd wedi chwarae rôl ac wedi cyfarfod yn fynych. Mae hynny'n bendant yn wir. Hoffwn ddweud wrthy, Gareth, fod y broses wedi dangos yr hyn y gellir cytuno arno pan geir perthynas ddynamig rhwng y Llywodraeth a'r sector busnes. Nid oes amheuaeth na chreodd rhywfaint o'r broses honno gynigion cadarnhaol, ond mae arnom angen i hynny gael ei ymgorffori'n awr ym model y cyngor partneriaeth, neu beth bynnag fydd ei enw, oherwydd, fel y dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, bydd proses yr uwchgynadleddau economaidd yn dod i ben rywbryd. Nid wyf yn anghytuno â dim a ddywedasoch, ac yr oedd yn ddefnyddiol cael fy atgoffa o hynny, ond drwy roi'r enghreifftiau dan sylw yr ydych wedi dangos mor hanfodol ydyw i fyd busnes gael ei gynnwys yn llawn.

Dywedodd Jenny fod angen inni ddangos i'r sector preifat ein bod yn gwerthfawrogi ei rôl ac yn credu bod angen rôl fwy arno ym mywyd Cymru, yn enwedig ei bywyd economaidd, gan y bydd hynny'n arwain at ddiwylliant mwy mentrus. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi, Jenny, mai dyna yw'r her. Fel y dywedech, mae pobl wedi deall hynny yng Nghaerdydd, Casnewydd a rhannau eraill o Gymru, ond mewn rhai rhannau o Gymru, y tu allan i'n dinasoedd mawr, nid yw hynny'n digwydd mor gyflym ag y mae arnom ei angen, a dyna yw'r her strategol sydd o'n blaenau.

Soniodd Andrew R.T. Davies am yr angen am economi gymysg, a chredais iddo ddrysio cynlluniau Gareth Jones pan oedd Gareth yn ceisio darbwyllo pobl bod Plaid Geidwadol

Welsh Conservative Party was a reactionary conservative force that thought that the market was a perfect force of nature that did not need any modification. I do not know many Conservatives and certainly not many Conservative philosophers who would sign up to that view. However, Andrew responded absolutely effectively. We need a healthy mixed economy, public and private—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I am interested in the philosophical points that David Melding makes, so I would like to hear these.

David Melding: Thank you for that endorsement, if I may claim it to be such, Presiding Officer. The one surprise in this debate is that a Labour Member did not participate. I do not know whether I am allowed to infer ex nihilo what Alun Davies might have said had he delivered a speech, given that he is sometimes the duty Labour AM for opposition debates. However, I am sure that they were listening. I do not want to be hostile this afternoon. It would be against the spirit of what we have discussed. *[Laughter.]* In conclusion, I will say to the Deputy First Minister that it will be for him to bring forward the proposals, and we will examine them. I am sure that he is sincere in wanting to revitalise the business partnership council, and we will co-operate for the common good where we agree with his proposals. However, the system has to allow maximum ownership on the part of the business sector, and that needs to involve not only the structures of Government but also how they report to the Assembly. We would have used some of this time during the tempest of a general election to further some long-term economic goals in Wales. We reject the Government's amendment, but in the spirit in which it rejected our motion, perhaps, we will leave it at that.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Yr oeddwn yn amau y byddai, ond diolch am y ddadl

Cymru, rywsut, yn rym ceidwadol adweithiol a gredai fod y farchnad yn rym naturiol perffaith nad oedd angen ei addasu o gwbl. Nid wyf yn adnabod llawer o Geidwadwyr, ac yn bendant nid wyf yn adnabod llawer o athronwyr Ceidwadol a fyddai'n cytuno â'r farn honno. Fodd bynnag, ymatebodd Andrew yn hollol effeithiol. Mae arnom angen economi gymysg ac iach gydag elfennau cyhoeddus a phreifat—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Mae gennyf ddiddordeb yn y pwyntiau athronyddol y mae David Melding yn eu gwneud, felly, hoffwn eu clywed.

David Melding: Diolch am y gefnogaeth honno, os gallaf honni mai cefnogaeth ydoedd, Lywydd. Yr hyn sy'n peri syndod yn y ddadl hon yw na chymerodd yr un Aelod o'r Blaidd Lafur ran ynddi. Ni wn a gaf dybio ex nihilo yr hyn y byddai Alun Davies efallai wedi'i ddweud pe bai wedi traddodi araith, o ystyried mai ef yw'r Aelod Llafur o'r Cynulliad sydd ar ddyletswydd weithiau dros ddadleuon y gwrthbleidiau. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr eu bod yn gwranddo. Nid wyf am fod yn gas y prynhawn yma. Byddai'n groes i ysbryd yr hyn yr ydym wedi'i drafod. *[Chwerthin.]* I gloi, hoffwn ddweud wrth y Dirprwy Brif Weinidog mai ef sydd i gyflwyno'r cynigion, a ninnau'n eu harchwilio. Yr wyf yn siŵr ei fod yn ddiffuant yn ei ddymuniad i adfywio'r cyngor partneriaeth busnes, a byddwn yn cydweithredu er lles pawb os cytunwn â'i gynigion. Fodd bynnag, rhaid i'r system ganiatáu'r berchnogaeth fwyaf posibl ar ran y sector busnes, ac mae angen i hynny gynnwys nid yn unig strwythurau Llywodraeth, ond y modd y maent yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad hefyd. Byddem wedi defnyddio rhywfaint o'r amser hwn yn ystod cynnwrf etholiad cyffredinol i hybu rhai nodau economaidd hirdymor yng Nghymru. Yr ydym yn gwrthod gwelliant y Llywodraeth, ond yn yr ysbryd y gwrthododd y Llywodraeth ein cynnig ni, efallai, fe'i gadwn yn y fan honno.

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see there are objections. I thought there might be, but

adeiladol honno. Felly, gohiriwn y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

thank you for the constructive debate. Therefore, we will defer the vote until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.36 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.36 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Citizen-centred Public Services

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Peter Black.

Mark Isherwood: I move that

Mark Isherwood: Cynigiau fod

the National Assembly

y Cynulliad Cenedlaethol

regrets the failure of the Welsh Assembly Government to develop world-class, citizen-centred public services. (NDM4457)

yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. (NDM4457)

This Labour-Plaid Cymru Government deludes itself, but it no longer deceives the public in its claim that it is developing world-class, citizen-centred public services. Half the population of Wales cannot name a single thing that the devolved Welsh Government is responsible for, and research published this week by the University of Wales Institute, Cardiff confirms that the Welsh economy is now the least competitive in the UK, that the least competitive localities in Britain are all in Wales, and that Wales is becoming 'increasingly detached'. This is the consequence of Welsh Ministers and the Welsh Government being detached from economic and social realities within and beyond the borders of Wales. Their silo mentality, big government approach and rhetoric about doing things in Wales differently rather than better has pushed Wales into the relegation zone in virtually every regional and international league table, except sport. [*Interruption.*] This is all backed by independent facts.

Mae'r Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru hon yn ei thwylo ei hun, ond nid yw'n twyllo'r cyhoedd mwyach yn ei honiad ei bod yn datblygu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ni all hanner poblogaeth Cymru enwi'r un peth y mae Llywodraeth ddatganoledig Cymru yn gyfrifol amdano, ac mae ymchwil a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn cadarnhau mai economi Cymru bellach yw'r lleiaf cystadleuol yn y DU, bod holl ardaloedd lleiaf cystadleuol Prydain i gyd yng Nghymru, a bod Cymru'n dod yn wlad sydd wedi'i datgysylltu fwyfwy. Mae hynny wedi digwydd am fod Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru wedi'u datgysylltu oddi wrth y realiti cymdeithasol a'r realiti economaidd yng Nghymru a thu hwnt. Mae eu meddylfryd ynysig, eu dull gweithredu fel llywodraeth fawr, a'u rhethreg ynghylch gwneud pethau'n wahanol yn hytrach nag yn well yng Nghymru wedi gwthio Cymru i'r gwaelod ym mron pob tabl cynghrair rhanbarthol a rhyngwladol, ac eithrio ym

maes chwaraeon. [*Torri ar draws.*] Caiff hynny i gyd ei ategu gan ffeithiau annibynnol.

While Labour's policies cannot be blamed for the global financial crisis and recession, they gave us the biggest bust, and the independent Institute for Fiscal Studies has warned that UK Government debt will remain at above pre-crisis levels for 20 years. [*Interruption.*] I am glad that you think that the Institute for Fiscal Studies is funny. In an unsustainable economy, Gordon Brown drove debt-driven growth in order to maintain the mirage of an end to boom and bust, and to defer the inevitable day of reckoning that has since caused so much pain and that is hitting the people of Wales so hard. Gordon Brown said that we were the best-placed country to deal with the global downturn, but the UK was the last G20 country out of what has been the longest and deepest recession since the war. We went into recession with the biggest budget deficit of any developed economy, and we came out with the biggest budget deficit of any developed country apart from Ireland.

Er na ellir beio polisiau'r Blaid Lafur am yr argyfwng ariannol byd-eang a'r dirwasgiad, nhw a achosodd y methiant mwyaf inni, ac mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sy'n sefydliad annibynnol, wedi rhybuddio y bydd dyled Llywodraeth y DU yn parhau'n uwch nag yr oedd cyn yr argyfwng, am 20 mlynedd. [*Torri ar draws.*] Yr wyf yn falch eich bod o'r farn bod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn ddoniol. Mewn economi nad oedd yn gynaliadwy, hybodd Gordon Brown dwf a sbardunwyd gan ddyledion, er mwyn cynnal rhithlun o ddiwedd i ffynnu a ffael, a gohirio dydd anochel y farn, sydd wedi achosi cymaint o boen ers hynny ac sy'n effeithio mor arw ar bobl Cymru. Dywedodd Gordon Brown mai ein gwlad ni oedd yn y sefyllfa orau i ymdopi â'r dirywiad byd-eang, ond y DU oedd y wlad G20 olaf i ddod allan o'r dirwasgiad hwyaf a gwaethaf ers y rhyfel. Pan ddechreuodd y dirwasgiad, ni oedd yr economi ddatblygedig â'r diffyg cyllidebol mwyaf, a phan ddaethom allan o'r dirwasgiad, ni oedd y wlad ddatblygedig â'r diffyg cyllidebol mwyaf, ar wahân i Iwerddon.

We have record youth unemployment, and experts warn that likely public sector job cuts may still deliver a second round of unemployment. We must learn from the decisions that have led us, over the 13 years in London and the 11 here, to this point. We must tackle excessive debt, over-borrowing and a dysfunctional regulatory system. These are things that Plaid Cymru, so busy propping Labour up in Wales, has resolutely failed to grasp. Wales already has the highest unemployment rate in the UK, up 10,000 on the last quarter and 22,000 on the year. There is the answer to the points made by the former First Minister earlier. This means that 548,000 working-aged people in Wales today are not in work.

Mae gennym y lefelau uchaf erioed o ddiweithdra ymysg pobl ifanc, ac mae'r arbenigwyr yn rhybuddio y gallai toriadau swyddi tebygol yn y sector cyhoeddus olygu ail rownd o ddiweithdra o hyd. Rhaid inni ddysgu gwersi o'r penderfyniadau, a wnaed yn ystod y 13 mlynedd diwethaf yn Llundain a'r 11 mlynedd diwethaf yma, sydd wedi ein harwain i'r pwynt hwn. Rhaid inni fynd i'r afael â dyledion gormodol, gorfenthyca a system gamweithredol o reoleiddio. Mae'r rhain yn bethau y mae Plaid Cymru, sydd mor brysur yn cynnal breichiau'r Blaid Lafur yng Nghymru, wedi methu'n lân â mynd i'r afael â hwy. Mae gan Gymru eisoes y gyfradd diweithdra uchaf yn y DU, a oedd 10,000 yn uwch na'r chwarter olaf, a 22,000 yn uwch na'r llynedd. Dyna'r ateb i'r pwyntiau a wnaed gan y cyn-Brif Weinidog yn gynharach. Golyga hynny fod 548,000 o bobl oed gweithio yng Nghymru heddiw yn ddi-waith.

The Deputy Presiding Officer: Order. Are you taking interventions?

Mark Isherwood: Yes.

Jeff Cuthbert: I am grateful to Mark for giving way. Mark, could you tell us how the massive proposed cuts that your party intends to impose on public services will help this situation?

Mark Isherwood: No more than Labour's massive cuts in this area will help the situation, and I am just coming to that. Unfortunately, we will again inherit a mess that has been left for us.

Not surprisingly, there is variation in citizen engagement at the local level. Different communities contain different people, all of whom have different skills and abilities. Some will have people with the capabilities to embrace and push forward the citizen-centred agenda; others will require more capacity building so that local people can get involved in service delivery. As such, we cannot automatically assume that the whole of Wales will develop this agenda at the same pace. Citizen-centred services and empowerment cannot be seen as an end to themselves, but as a means to an end. For me, that end is a world-class service for Wales. We are well on the way to achieving that, I hope, but we need to ensure that some of the challenges are addressed, thus ensuring that everyone in Wales benefits.

Darren Millar: I am grateful for the opportunity to contribute to this important debate. The issue of public services and how to maintain them during the difficult spending rounds to come is a topic of public concern. As we move forward and emerge slowly from one of the deepest recessions in living memory, most of us are hoping that the Welsh Assembly Government did all that it possibly could over the past 10 years, in the good years, when the cash was available for investment, to undertake the reform that Jonathan Morgan spoke about. Unfortunately,

ydyd wedi gweld cynnydd mewn ymgysylltu â dinasyddion, a ffocws o'r newydd ar hynny.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes heriau wrth ddatblygu'r agenda hon. Mae angen inni sicrhau bod gan ein holl wasanaethau cyhoeddus y gallu i ymgysylltu â dinasyddion yn effeithiol, ac nid yw hynny wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Mae angen inni sicrhau y caniateir i waith meddwl cydgysylltiedig ffynnu, fel nad yw gwasanaethau'n ailadrodd yr un prosesau ar wahân i'w gilydd, ond eu bod yn hytrach yn rhannu eu harfer gorau. Mae angen inni sicrhau nad yw'r dulliau o gyfranogi a gynigir yn oddefol, a cheisio sicrhau yr ymgysylltir yn weithredol â defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru.

Nid yw'n syndod fod ymgysylltiad dinasyddion yn amrywio ar lefel leol. Mae cymunedau gwahanol yn cynnwys pobl wahanol, ac mae ganddynt i gyd sgiliau a galluoedd gwahanol. Bydd gan rai ohonynt bobl sydd â'r gallu i groesawu a hyrwyddo'r agenda sy'n canolbwyntio ar y dinesydd; bydd angen meithrin gallu eraill i raddau helaethach fel y gall pobl leol gael eu cynnwys yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Felly, ni allwn dybio'n awtomatig y bydd Cymru gyfan yn datblygu'r agenda hon ar yr un cyflymder. Ni ellir ystyried gwasanaethau a dulliau grymuso sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn nod ynddynt eu hunain, ond fel modd i gyrraedd nod. I mi, y nod hwnnw yw gwasanaeth o'r radd flaenaf i Gymru. Yr ydyd ar y trywydd iawn i gyflawni hynny, gobeithio, ond mae angen inni sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau, gan sicrhau bod pawb yng Nghymru ar eu hennill.

Darren Millar: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Mae gwasanaethau cyhoeddus, a sut i'w cynnal yn ystod y cylchoedd gwario anodd sydd i ddod, yn fater sy'n peri pryder i'r cyhoedd. Wrth inni symud ymlaen a dod allan yn araf o un o'r dirwasgiadau gwaethaf mewn cof, mae'r rhan fwyaf ohonom yn gobeithio bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud popeth posibl yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, sef y blynyddoedd da, pan oedd yr arian ar gael ar gyfer buddsoddi, i ymgymryd â'r gwaith diwygio y soniodd Jonathan

that has not happened, and it is extremely disappointing to note the poor track record of Plaid Cymru and Labour, which, like its counterpart in Westminster, did not fix the roof while the sun was shining.

For many, even including the Labour Party's own supporters, the failure of the Assembly Government to develop world-class, citizen-centred public services is a considerable let-down. People out there feel disenfranchised given the current state of play. The latest survey, to which Jonathan Morgan referred, which was on citizens' views of public services, speaks clearly about that, particularly the section on local authorities. When questioned about the opportunity to participate in decision making, for example, the number of people who say that they agree that they can participate is falling and falling rapidly, from 23 per cent in 2006 to just 17 per cent today. Fewer than two of every 10 people in Wales feel that they can play a part in the decision making that goes in their communities. That is absolutely shameful.

This afternoon, I want to highlight a couple of areas in which the Assembly Government needs to make a great deal more effort. Some of these have been identified, as Val Lloyd said, in the previous Beecham and Wanless reports. The Beecham report was published four years ago, and we have seen precious little progress on the collaboration front between different public service organisations. We can all come up with a small handful of examples of things moving forward. For example, in Conwy and Denbighshire, there has been some collaboration on highways and regulatory service, and there are some other examples across Wales, but they are nowhere near sufficient to deal with the aspirations that Beecham laid out in his report, on encouraging the collaboration and the closer working together that we all need to see. I can see the Minister for Social Justice and Local Government nodding away. Carl, you are in charge of this, and you need to ensure that local government and other public services are working together to deliver the savings that we need to see over the next few

Morgan amdano. Yn anffodus, nid yw hynny wedi digwydd, ac mae'n hynod siomedig gorfod nodi hanes gwael Plaid Cymru a'r Blaid Lafur na lwyddodd, fel ei chymhares yn San Steffan, i atgyweirio'r to tra oedd yr haul yn gwenu.

I lawer, gan gynnwys hyd yn oed cefnogwyr y Blaid Lafur, siom fawr yw methiant Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae ein pobl yn teimlo'n ddi-fraint, o ystyried y sefyllfa sydd ohoni. Mae'r arolwg diweddaraf y cyfeiriodd Jonathan Morgan ato o farn dinasyddion am wasanaethau cyhoeddus yn siarad yn blaen am hynny, yn enwedig yn yr adran ar awdurdodau lleol. Wrth gael eu holi am y cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, er enghraifft, mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn cytuno y gallant gymryd rhan yn gostwng, ac yn gostwng yn gyflym iawn, o 23 y cant yn 2006 i ddim ond 17 y cant heddiw. Mae llai na dau unigolyn o bob 10 yng Nghymru yn teimlo y gallant chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n digwydd yn eu cymunedau. Mae hynny'n gwbl gywilyddus.

Y prynhawn yma, hoffwn dynnu sylw at ambell faes lle mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ymdrechu lawer iawn yn galetach. Mae rhai o'r rhain wedi eu nodi, fel y dywedodd Val Lloyd, yn adroddiadau blaenorol Beecham a Wanless. Cyhoeddwyd adroddiad Beecham bedair blynedd yn ôl, a phrin iawn yw'r cynnydd a welsom o ran cydweithredu rhwng gwahanol sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Gall pob un ohonom feddwl am lond llaw o enghreifftiau o bethau sy'n mynd ymlaen. Er enghraifft, yng Nghonwy a Sir Ddinbych bu rhywfaint o gydweithredu ar briffyrdd a gwasanaeth rheoleiddio, a cheir rhai enghreifftiau eraill ledled Cymru, ond nid ydynt yn ddigonol o bell ffordd i ymdrin â'r dyheadau a gyflwynodd Beecham yn ei adroddiad, o ran annog y cydweithredu a'r cydweithio agosach y mae angen i bob un ohonom eu gweld. Gallaf weld y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cytuno. Carl, chi sydd â gofal am hyn, ac mae angen ichi sicrhau bod llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cydweithio i sicrhau'r arbedion y

years. You ain't done nothing yet, so you need to pull your finger out and get on with it.

The other issue that we need to raise is how public services are delivered. Jonathan Morgan made the case clearly that it does not have to be a local authority providing services directly. To be frank, we need to get away from the political ideology that that is the only way in which to deliver public services and get into the frame of mind of local authorities and councils being commissioners of public services regardless of who delivers them. The public simply wants the high-quality public services that it deserves and cares little about who undertakes the delivery.

Joyce Watson: Will you give way?

Darren Millar: No, because I do not have much time and I need to crack on, thank you. The other issue is the waste that we see in public services. According to the WLGA, we already waste more than £60 million each year because of the micromanagement of ring-fenced hypothecated grants by this Welsh Assembly Government. Tens of millions of pounds could be invested in the reform of front-line services so that we get the world-class quality services that the people of Wales deserve.

We also need to strip back the regulatory regime, and I know that the Minister is keen to make some progress on that. I look forward to listening to how she will do that, in her response to today's debate. Again, the time that is invested by public services in preparing for inspection after inspection by regulator after regulator is largely wasted, I am afraid to say.

We were told 10 years ago that the establishment of the Assembly would bring people closer to the decision-making process in their communities. Unfortunately, the reverse has been the case. We have not seen

mae angen inni eu gweld yn ystod y blynyddoedd nesaf. Nid ydych wedi gwneud dim eto, felly, mae angen ichi dorchi llewys a bwrw iddi.

Y mater arall y mae angen inni ei godi yw'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Cyflwynodd Jonathan Morgan y ddadl yn glir nad oes yn rhaid cael awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol. A siarad yn blaen, mae angen inni symud oddi wrth yr ideoleg wleidyddol mai dyna'r unig ffordd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a dechrau meddwl am awdurdodau a chynghorau lleol fel comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus, waeth pwy sy'n eu darparu. Yn syml iawn, mae'r cyhoedd am gael y gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel y maent yn eu haeddu, ac nid ydynt yn poeni ryw lawer pwy sy'n eu darparu.

Joyce Watson: A wnewch chi ildio?

Darren Millar: Na wnaif, oherwydd nid oes gennyf lawer o amser a rhaid imi fwrw ymlaen, diolch. Y mater arall yw'r gwastraff a welwn mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr ydym eisoes yn gwastraffu dros £60 miliwn bob blwyddyn oherwydd bod y Llywodraeth hon yn y Cynulliad yn micro-reoli grantiau sydd wedi'u neilltuo. Gellid buddsoddi degau o filiynau o bunnoedd mewn diwygio gwasanaethau rheng flaen er mwyn inni gael y gwasanaethau safonol o'r radd flaenaf y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

Mae angen hefyd inni symleiddio'r system reoleiddio, a gwn fod y Gweinidog yn awyddus i wneud rhywfaint o gynnydd o ran hynny. Edrychaf ymlaen at glywed sut y bydd yn gwneud hynny, yn ei hymateb i'r ddadl heddiw. Unwaith eto, caiff yr amser a fuddsoddir gan wasanaethau cyhoeddus i baratoi ar gyfer y naill arolygiad ar ôl y llall gan y naill reoleiddiwr ar ôl y llall ei wastraffu i raddau helaeth, mae'n flin gennyf ddweud.

Dywedwyd wrthym 10 mlynedd yn ôl y byddai sefydlu'r Cynulliad yn dod â phobl yn nes at y broses o wneud penderfyniadau yn eu cymunedau. Yn anffodus, y gwrthwyneb sy'n wir. Nid ydym wedi gweld datganoli go

real devolution because of the centralisation of decision-making processes and the interference in them by this Cardiff-centred Government. We do not need to see Cardiff-centred Government or public services, but citizen-centred public services. That is what we are calling for today. I urge Members to support the motion.

David Lloyd: I was struck earlier by David Melding's conciliatory tone in the previous debate, but we have obviously moved on since then. As Jonathan Morgan intimated, public services are a huge agenda. With my background in health, I will concentrate on the role of public services in promoting health and preventing ill health.

Health is one of those obvious public services and, in that context, I congratulate the Minister for Health and Social Services on her announcement last week of the tobacco control strategy, which is hugely important to prevent ill health, particularly as the current average age of a person starting smoking in Wales is 11 years old. It is imperative that we have an effective tobacco control strategy that removes cigarette vending machines, products and promotions from public view in shops and newsagents. Cigarettes kill one in two long-term users and 6,000 people in Wales every year. It is important that we move forward on that agenda.

4.10 p.m.

Housing is another public service that is vital to promoting health and preventing ill health. Poor housing inevitably means poor health—both physical and mental health. Our average life expectancy in Wales is around 80 years. However, if you are homeless, your life expectancy will be around 43 years.

Much good work has been done by my colleague, Jocelyn Davies, in the housing field with the mortgage rescue scheme.

iawn oherwydd bod prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u canoli, ac oherwydd bod y Llywodraeth hon sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd yn ymyrryd ynddynt. Nid Llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd y mae angen inni eu gweld, ond gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Dyna'r ydym yn galw amdano heddiw. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

David Lloyd: Fe'm trawyd yn gynharach gan y modd cymodlon y siaradodd David Melding yn y ddadl flaenorol, ond mae'n amlwg ein bod wedi symud ymlaen ers hynny. Fel y dywedodd Jonathan Morgan, mae gwasanaethau cyhoeddus yn agenda enfawr. Gyda'm cefndir ym maes iechyd, hoffwn ganolbwyntio ar rôl gwasanaethau cyhoeddus o ran hybu iechyd ac atal afiechyd.

Mae iechyd yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus amlwg hynny, ac yn y cyd-destun hwnnw yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei chyhoeddiad yr wythnos diwethaf am y strategaeth ar reoli tybaco, sy'n eithriadol o bwysig i atal afiechyd, yn enwedig gan mai 11 oed yw cyfartaledd oed unigolyn sy'n dechrau ysmegu yng Nghymru. Mae'n hanfodol inni gael strategaeth effeithiol ar reoli tybaco, a fydd yn cael gwared ar beiriannau gwerthu sigarêts, cynnyrch a deunydd hyrwyddo o olwg y cyhoedd mewn siopau, a siopau papurau newydd. Mae sigarêts yn lladd un o bob dau ddefnyddiwr hirdymor, ac yn lladd 6,000 o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'n bwysig inni symud ymlaen â'r agenda honno.

Mae tai yn wasanaeth cyhoeddus arall sy'n hanfodol i hybu iechyd ac atal afiechyd. Mae'n anochel bod tai gwael yn golygu iechyd gwael—iechyd corfforol ac iechyd meddyliol. Yng Nghymru, disgwylir inni fyw nes byddwn tua 80 oed ar gyfartaledd. Fodd bynnag, os ydych yn ddigartref, disgwylir ichi fyw nes byddwch tua 43 oed.

Gwnaed llawer o waith da gan fy nghyd-Aelod, Jocelyn Davies, ym maes tai gyda'r cynllun achub morgesi. Fodd bynnag, fe'i

However, she has been thwarted by the Conservatives' opposition to the draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010. Last week's wash-up in London saw the draft housing LCO dumped. The Deputy Minister here, with a manifesto plan of action on housing, has been completely and utterly thwarted. Government action on manifesto pledges from both Labour and Plaid has been shattered and blocked by the actions of a political party not in power in London and not in power in Cardiff either. Where is the democracy in that? Progress on Government policy has been stopped by Conservatives in London, with the spineless approval of their colleagues here.

Jenny Randerson: While I fully acknowledge the fatal decision by the Welsh Conservatives and the UK Conservatives to fail to support the draft housing LCO in the wash-up, do you not accept, Dai, that the length of time that it took to get to that point was also a great contributory factor? The Labour Party, which is in power in London, is equally to blame for failing to put it through much more quickly. It did not have to wait until the wash-up, Dai.

David Lloyd: It may not have needed to wait until the wash-up, but it has been fundamentally dumped by that lot over there. Progress on Government policy here has been stymied by a party not in government anywhere in these islands. The housing sector, charities such as Shelter, voluntary organisations in the housing field, and tenants' representatives have been united in their shock and anger at the Conservative action—a betrayal of their words last year in the Assembly.

Finally, to round off the matter of public services and what to do with them, it is a bit rich having a Conservative-led debate on

rhwystrwyd gan wrthwynebiad y Ceidwadwyr i Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010. Wrth geisio cwblhau'r agenda ddeddfwriaethol cyn diddymu'r Senedd yn Llundain yr wythnos diwethaf, gwelwyd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai yn cael ei wrthod. Mae'r Dirprwy Weinidog yn y fan hon, sydd â chynllun gweithredu maniffesto ar dai, wedi ei rhwystro'n llwyr. Mae camau gweithredu'r Llywodraeth ar sail addewidion maniffesto gan y Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi eu chwalu'n deilchion a'u rhwystro gan weithredoedd plaid wleidyddol nad yw mewn grym yn Llundain ac nad yw mewn grym yng Nghaerdydd ychwaith. Ymhle y mae'r ddemocratiaeth yn hynny? Mae cynnydd o ran polisi'r Llywodraeth wedi ei atal gan y Ceidwadwyr yn Llundain, gyda chymeradwyaeth ddi-asgwrn-cefn eu cydweithwyr yn y fan hon.

Jenny Randerson: Er fy mod yn cydnabod yn llwyr y penderfyniad tyngedfennol gan y Ceidwadwyr Cymreig a Cheidwadwyr y DU i beidio â chefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai, wrth i'r agenda ddeddfwriaethol gael ei chwblhau cyn diddymu'r Senedd yn Llundain yr wythnos diwethaf, oni dderbyniwch, Dai, fod yr amser a gymerodd i gyrraedd y pwynt hwnnw hefyd wedi bod yn ffactor cyfrannol o bwys? Mae llawn cymaint o fai ar y Blaid Lafur, sydd mewn grym yn Llundain, am fethu â'i gyflwyno lawer ynghynt. Nid oedd yn rhaid iddo aros tan yr wythnos diwethaf, Dai.

David Lloyd: Efallai nad oedd angen iddo aros tan yr wythnos diwethaf, ond yn y bôn cafodd ei wrthod gan y giwed acw. Mae cynnydd ym mholisi'r Llywodraeth wedi ei atal gan blaid nad yw mewn llywodraeth yn unman ar yr ynysoedd hyn. Mae'r sector tai, elusennau megis Shelter, mudiadau gwirfoddol ym maes tai, a chynrychiolwyr tenantiaid yn unedig yn eu sioc a'u dicter at weithredoedd y Ceidwadwyr—bradychiad o'u geiriau y llynedd yn y Cynulliad.

I gloi, i orffen gyda mater gwasanaethau cyhoeddus a'r hyn y dylid ei wneud gyda hwy, mae'n haerllug braidd cael dadl dan

public services when we read in the *Western Mail* today about Cameron wanting social services to be run by charities and about the talk of huge cuts. The very concept of a Conservative-led debate on public services is right up there with Genghis Khan sponsoring a debate on social work, or King Herod a debate on childcare. You are having a laugh, you lot over there, and your actions totally undermine your words.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to speak in this debate, because it is about understanding how the public sector can engage with the customers who use its services, namely the public. It is an important aspect of service delivery that we need to understand, because so many people in Wales feel disconnected from the services that they receive.

One aspect that has focused many minds in the health sector recently is the reform of community health councils by the Minister, and the disenfranchisement of many who participated in community health councils as a result. Indeed, as has been universally voiced—and my colleague, Mark Isherwood, touched on this in his opening remarks—the treatment that people have received in the interviewing process for the new boards and, above all, the emasculation of many of the boards in their ability to undertake a review process, which is vital in holding the health service to account—

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I hope that the Member will accept that the interview process for community health councils was undertaken in line with the public appointments procedure of the Assembly. There was an independent person on every panel, and it is important for us to recognise that that was done following due process.

Andrew R.T. Davies: What I am implying is quite clear to the Minister. The correspondence that has been sent to my good self and the correspondence referred to by my colleague, Mark Isherwood, outline the real experiences of members of

arweiniad y Ceidwadwyr am wasanaethau cyhoeddus, pan ddarllenwn yn y *Western Mail* heddiw am doriadau enfawr ac am ddymuniaid Cameron i gael elusennau i redeg gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r syniad o ddadl dan arweiniad y Ceidwadwyr am wasanaethau cyhoeddus mor haerllug â chael Genghis Khan yn noddï dadl am waith cymdeithasol, neu'r Brenin Herod yn noddï dadl am ofal plant. Nid yw'r giwed acw o ddifrif, ac mae eich gweithredoedd yn tanseilio'ch geiriau'n llwyr.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon, oherwydd mae a wnelo â deall sut y gall y sector cyhoeddus ymgysylltu â'r cwsmeriaid sy'n defnyddio'i wasanaethau, sef y cyhoedd. Mae'n agwedd bwysig ar ddarparu gwasanaethau, y mae angen inni ei deall, oherwydd mae cynifer o bobl yng Nghymru yn teimlo'u bod wedi'u datgysylltu o'r gwasanaethau y maent yn eu cael.

Un agwedd sydd wedi mynnu sylw nifer o bobl yn y sector iechyd yn ddiweddar yw gwaith diwygio'r cynghorau iechyd cymuned gan y Gweinidog, a difreiniol llawer o bobl a gymerodd ran mewn cynghorau iechyd cymuned o ganlyniad. Yn wir, yn ôl y farn gyffredin—a chyfeiriodd fy nghyd-Aelod, Mark Isherwood, at hynny'n fras yn ei sylwadau agoriadol—mae'r ffordd y mae pobl wedi'u trin yn ystod y broses gyfnewid ar gyfer y byrddau newydd, ac yn anad dim, gwendid yng ngallu llawer o'r byrddau i gynnal proses adolygu, sy'n hanfodol wrth ddwyn gwasanaeth iechyd i gyfrif—

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Gobeithio y bydd yr Aelod yn fodlon derbyn bod y broses gyfnewid ar gyfer cynghorau iechyd cymuned wedi ei chynnal yn unol â gweithdrefn penodiadau cyhoeddus y Cynulliad. Yr oedd unigolyn annibynnol ar bob panel, ac mae'n bwysig inni gydnabod y gwnaed hynny gan ddilyn y broses briodol.

Andrew R.T. Davies: Mae'r hyn yr wyf yn ei awgrymu'n eithaf clir i'r Gweinidog. Mae'r ohebiaeth a anfonwyd ataf fi a'r ohebiaeth y cyfeiriodd fy nghyd-Aelod, Mark Isherwood, ati yn amlinellu profiadau gwirioneddol aelodau cynghorau iechyd

community health councils of the process that they had to go through, such as the interview, and the way in which it was handled. I hope that that correspondence has been copied to the Minister, although the Minister's intervention implies that she has not had sight of that it. I will certainly forward the correspondence that I have received as shadow health spokesman to her, and I would welcome the Minister's response to that, because these are genuine concerns. However, it does not detract from the fact that community health councils, in the guise that the Minister has devised, have taken an important plank of scrutiny away from working with the health service. We have championed many debates in this institution to try to ensure that community health councils exist. The Minister highlighted in her questions session today that she also believed that community health councils play an important role, unlike her colleagues in England, who did away with them.

Another aspect in which we believe passionately is the importance of direct payments in empowering citizens to devise and structure services that meet their requirements, rather than the Government's hand in directing those services. The Conservatives led a debate about this in the Chamber, but, sadly, we received a negative response from the Government benches. However, we hope that the Government will have a belated conversion to direct payments and actively promote their use so that users can feel empowered to drive forward the service delivery. Many of the Health, Wellbeing and Local Government Committee's inquiries have highlighted the importance of the third sector's involvement in delivering services. The wheelchair review that we have just undertaken received evidence that is on the record—I am happy to take an intervention if anyone wants to intervene—that highlighted how many voluntary sector organisations felt kept out of the process of service delivery, and unable to improve the flow of that service to the user, who would ultimately receive a better service, outcome and quality of life. I hope that the Minister will outline what actions the Government is taking to work with the voluntary sector to ensure that those concerns are addressed.

cymuned o'r broses yr oedd yn rhaid iddynt fynd drwyddi, megis y cyfweiliad, a'r ffordd yr ymdriniwyd â'r broses honno. Gobeithio bod copi o'r ohebiaeth honno wedi'i anfon at y Gweinidog, er bod ymyriad y Gweinidog yn awgrymu nad yw wedi'i gweld. Byddaf yn siŵr o anfon ati yr ohebiaeth a gefais fel llefarydd iechyd yr wrthblaid, a byddwn yn croesawu ymateb y Gweinidog i hynny, oherwydd mae'r rhain yn bryderon dilys. Fodd bynnag, nid yw'n tynnu sylw oddi ar y ffaith fod cynghorau iechyd cymuned, ar y wedd a luniwyd gan y Gweinidog, wedi cymryd elfen bwysig o waith craffu allan o'r broses o weithio gyda'r gwasanaeth iechyd. Yr ydym wedi hyrwyddo nifer o ddadleuon yn y sefydliad hwn i geisio sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned yn bodoli. Yn ei sesiwn gwestiynau heddiw, pwysleisiodd y Gweinidog ei bod hefyd yn credu bod gan gynghorau iechyd cymuned rôl bwysig, yn wahanol i'w chydweithwyr yn Lloegr, a gafodd wared arnynt.

Agwedd arall yr ydym yn credu'n gryf ynddi yw pwysigrwydd taliadau uniongyrchol wrth rymuso dinasyddion i lunio a strwythuro gwasanaethau sy'n bodloni eu gofynion, yn hytrach na bod grym y Llywodraeth yn cyfarwyddo'r gwasanaethau hynny. Arweiniodd y Ceidwadwyr ddadl am hynny yn y Siambr, ond yn anffodus, cawsom ymateb negyddol o du meinciau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd y Llywodraeth yn troi maes o law at daliadau uniongyrchol ac yn mynd ati'n weithredol i annog pobl i'w defnyddio fel y gall defnyddwyr deimlo y cânt eu grymuso i sbarduno gwaith cyflenwi gwasanaethau. Mae nifer o ymchwiliadau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau. Cafodd yr adolygiad o gadeiriau olwyn yr ydym newydd ei gynnal dystiolaeth a gofnodwyd—yr wyf yn fodlon cymryd ymyriad os oes rhywun am ymyrryd—a oedd yn tynnu sylw at faint o fudiadau'r sector gwirfoddol a deimlai eu bod yn cael eu cadw allan o'r broses o ddarparu gwasanaeth, a'u bod yn methu â gwella llif y gwasanaeth hwnnw i'r defnyddiwr a fyddai yn y pen draw yn cael gwell gwasanaeth, canlyniad ac ansawdd bywyd. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn amlinellu pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i weithio

gyda'r sector gwirfoddol i sicrhau bod y pryderon hynny'n cael sylw.

We also look sadly at the waiting time debacle that is unfolding in the Welsh NHS. The 10-week out-patients waiting list has risen from 150 patients last year to 42,000 patients waiting for a 10-week appointment. The number of in-patients waiting 14 weeks for an appointment has risen from 280 patients last year to 15,000 patients. That is a damning indictment of Government failure, which is emphasised more graphically by the political doctrine to which the Government adheres, that there can be no private sector involvement in the NHS in Wales. That might be a political imperative, but it is not a medical imperative—there is no medical evidence that says that that political doctrine in the NHS will improve outcomes. We are seeing massive increases in waiting times in the Welsh NHS, and people look across the border to England and wonder what devolution is delivering. It is not the fault of devolution; it is the failure of this One Wales Government to realise that it is accountable to the citizens of Wales to deliver citizen-centred services. I look forward to the Minister trying to offer some fig leaf to cover the Government's embarrassment in its failure to deliver these services.

Joyce Watson: A remarkable picture has been painted by the Tories about Welsh life and public services in Wales. It makes sad, depressing but unrecognisable reading. I see, as does everyone here who chooses to open their eyes, the Labour investment and delivery of public services that have helped to sustain Wales. It is true that 60 per cent of people in Wales are employed in the public sector, but that was vital to maintain communities after the devastating impact and sheer destruction that was writ large on Wales by the previous Tory Government. It is scandalous that the Tories are standing here to talk to us about citizen-centred approaches to public service delivery, or any service delivery, when they shut the mines in the Valleys, closed down businesses and shut the door behind them. They did not for a minute give any consideration to a citizen-centred

Yr ydym hefyd yn edrych gyda thristwch ar y llanast o ran amseroedd aros sy'n dod yn amlwg yn y GIG yng Nghymru. Mae'r rhestr aros o 10 wythnos ar gyfer cleifion allanol wedi cynyddu o 150 o gleifion y llynedd i 42,000 o gleifion sy'n aros am apwyntiad 10 wythnos. Mae nifer y cleifion mewnol sy'n aros 14 wythnos am apwyntiad wedi cynyddu o 280 o gleifion y llynedd i 15,000 o gleifion. Mae hynny'n gadarnhad damniol o fethiant y Llywodraeth, a bwysleisir yn fwy graffig gan yr athrawiaeth wleidyddol y mae'r Llywodraeth yn cadw ati, sef na ellir cynnwys y sector preifat o gwbl yn y GIG yng Nghymru. Efallai mai rheidrwydd gwleidyddol yw hynny, ond nid yw'n rheidrwydd meddygol—nid oes tystiolaeth feddygol sy'n dweud y bydd yr athrawiaeth wleidyddol honno yn y GIG yn gwella canlyniadau. Gwelwn gynnydd sylweddol mewn amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru, ac mae pobl yn edrych dros y ffin i Loegr ac yn gofyn tybed beth y mae datganoli'n ei gyflawni. Nid bai datganoli ydyw; methiant Llywodraeth Cymru'n Un ydyw i sylweddoli ei bod yn atebol i ddinasyddion Cymru o ran darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Edrychaf ymlaen at ymgais y Gweinidog i guddio cywilydd y Llywodraeth am fethu â darparu'r gwasanaethau hyn.

Joyce Watson: Paentiwyd darlun rhyfeddol gan y Torïaid o fywyd yng Nghymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n hanes trist a digalon ond yn amhosibl ei adnabod. Gwelaf, fel y gwêl pawb arall yma sy'n dewis agor eu llygaid, y buddsoddiad a'r gwaith darparu gwasanaethau cyhoeddus a wnaed gan y Blaid Lafur ac sydd wedi helpu cynnal Cymru. Mae'n wir bod 60 y cant o bobl Cymru yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, ond yr oedd hynny'n hanfodol i gynnal cymunedau ar ôl yr effaith ddinistriol a'r distryw a oedd yn amlwg yng Nghymru yn sgil y Llywodraeth Dorïaidd flaenorol. Mae'n warthus bod y Torïaid yn sefyll yma i sôn wrthym am ddulliau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, neu unrhyw waith darparu gwasanaethau, ar ôl iddynt gau'r pyllau glo

approach when they walked away and left those people in abject poverty with no decent homes, and with people losing the homes that they had. You must consider that the people of Wales have very short-term memories and that they will somehow forgive you because you have changed—

4.20 p.m.

Andrew R.T. Davies *rose*—

Joyce Watson: Not at the moment, but maybe later. All that you have done is to change the words. You are now talking about citizen-centred delivery, but what you need to focus on is actual delivery. That is what the Labour Government has done and what it has delivered. As a party, we were the people who put citizen-centred delivery in place. We were the very people in charge of the Assembly who made a compact with the third or voluntary sector that you talk about. I know that the voluntary sector was engaged, because I worked in it and I was engaged in that compact. You are doing Wales a huge disservice and it is thoroughly depressing. The nature of your debate and of what you have described this afternoon is a foretaste of what Wales can expect when you come into power. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘When?'] I say ‘when’ because it will be a long time coming. The people of Wales know what you will do with public service delivery. Dressing it up in fine words is not enough. How dare you talk about winter fuel poverty or inspection being wasteful? How dare you talk about devolution being a centralising mechanism? Words are wasted by your party on public service and citizen-centred delivery in Wales. We have heard many stories and fabrications from your side of the Chamber this afternoon, but let me—

Andrew R.T. Davies *rose*—

yn y Cymoedd, cau busnesau a chau'r drws ar eu holau. Ni fu oedi am eiliad i ystyried dull gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar y dinesydd, pan gerddasant i ffwrdd a gadael y bobl hynny mewn tlodi enbyd a heb gartrefi derbyniol, a phobl yn colli'r tai a oedd ganddynt. Rhaid eich bod yn credu bod gan bobl Cymru gof byr iawn ac y byddant yn maddau ichi rywsut, oherwydd yr ydych wedi newid—

Andrew R.T. Davies *a gododd*—

Joyce Watson: Ddim ar hyn o bryd, ond yn ddiweddarach, efallai. Y cyfan yr ydych wedi'i wneud yw newid y geiriau. Yr ydych bellach yn siarad am ddarparu gan ganolbwyntio ar y dinesydd, ond yr hyn y mae angen ichi ganolbwyntio arno yw'r gwaith darparu go iawn. Dyna y mae'r Llywodraeth Lafur wedi'i wneud ac wedi'i ddarparu. Fel plaid, ni oedd y bobl a sicrhodd bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan ganolbwyntio ar y dinesydd. Ni oedd y bobl a oedd â gofal am y Cynulliad a luniodd gytundeb gyda'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol yr ydych yn sôn amdano. Gwn fod y sector gwirfoddol yn ymwneud ag ef, oherwydd yr oeddwn yn gweithio yn y sector ac yr oeddwn yn ymwneud â'r cytundeb. Yr ydych yn gwneud anghymwynas enbyd â Chymru, ac mae'n wirioneddol dorcalonnus. Mae natur eich dadl a'r hyn a ddisgrifiwyd gennych y prynhawn yma yn rhagflas o'r hyn y gall Cymru ei ddisgwyl pan ddewch i rym. [AELODAU'R CYNULLIAD: ‘Pan?'] Dywedaf ‘pan’ oherwydd ni ddigwydd hynny am amser maith. Gŵyr pobl Cymru am yr hyn y byddwch yn ei wneud o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw defnyddio geiriau crand yn ddigon. Sut y meiddiwch sôn am dlodi tanwydd gaeaf neu ddweud bod gwaith arolygu'n wastraffus? Sut y meiddiwch sôn am ddatganoli fel dull o ganoli? Mae eich plaid yn gwastraffu geiriau wrth sôn am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yng Nghymru. Yr ydym wedi clywed nifer o straeon ac anwireddau o'ch ochr chi i'r Siambr y prynhawn yma, ond gadewch imi—

Andrew R.T. Davies *a gododd*—

Joyce Watson: I will give way in a minute. Let me give you one statistic: the Living in Wales survey showed that the vast majority of people were happy with the public services that they were receiving—between 68 and 97 per cent of people who were asked by an independent survey said that they were more than happy with the services that they received. On this side of the Chamber, we have pledged to protect front-line investments in schools, childcare, policing and the NHS, with every cancer patient in Wales provided with a key worker. What have you promised? You have promised to bring the axe down quickly and severely on the 60 per cent of people who you recognise work in the public sector. I do not think that Wales needs more of the same.

Nick Ramsay: It was good to hear Joyce Watson's warm endorsement of this debate. I am pleased to contribute to what is an important and timely debate and I thank you for giving me a few minutes to give a focused contribution on this, Deputy Presiding Officer. I listened with interest to Val Lloyd's contribution earlier and agreed with most of what she had to say in terms of the Beecham review. As someone who was in local government before coming to the Assembly, I agree with the need for collaboration and co-ordination of services across boundaries; we all agree with that. However, in this debate we have been trying to focus on whether that is happening in practice. As my colleague Darren Millar said earlier today, a key part of the Beecham review was that some of the most fundamental changes should be made at the earliest opportunity. Here we are, four or five years down the line—because those comments were made in 2006—debating this with the same warm words, yet what has happened in practice? Is that collaboration happening effectively? Is it being given the correct steer by the coalition Assembly Government? I do not think that it is.

Regarding the health service, the key figure of a £1 billion underspend was raised earlier by the Liberal Democrats. It is a shameful

Joyce Watson: Ildiaf yn y funud. Gadewch imi roi un ystadegyn ichi: dangosodd yr arolwg Byw yng Nghymru fod y mwyafrif helaeth o bobl yn fodlon ar y gwasanaethau cyhoeddus a gaent—yr oedd rhwng 68 a 97 y cant o'r bobl a holwyd gan arolwg annibynnol yn dweud eu bod yn fwy na bodlon ar y gwasanaethau a gaent. Yr ochr hon o'r Siambr, yr ydym wedi addo gwarchod buddsoddiadau rheng flaen mewn ysgolion, gofal plant, gwaith plismona a'r GIG, gyda phob claf sydd â chanser yng Nghymru yn cael gweithiwr allweddol. Beth yr ydych chi wedi'i addo? Yr ydych chi wedi addo cyflwyno toriadau'n gyflym ac yn llym yng nghyswllt y 60 y cant o bobl y cydnabyddwch eu bod yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Ni chredaf fod ar Gymru angen mwy o'r un peth.

Nick Ramsay: Yr oedd yn dda clywed Joyce Watson yn cefnogi'r ddadl hon yn wresog. Yr wyf yn falch o gyfrannu at ddadl sy'n bwysig ac yn amserol, a diolch ichi am roi ychydig funudau imi wneud cyfraniad penodol ar hyn, Ddirprwy Lywydd. Gwrandewais gyda diddordeb ar gyfraniad Val Lloyd yn gynharach, ac yr oeddwn yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r hyn yr oedd ganddi i'w ddweud o ran adolygiad Beecham. Fel un a oedd yn gweithio mewn llywodraeth leol cyn dod i'r Cynulliad, yr wyf yn cytuno bod angen cydweithredu a chydlynu gwasanaethau ar draws ffiniau; yr ydym i gyd yn cytuno â hynny. Fodd bynnag, yn y ddadl hon, yr ydym wedi bod yn ceisio gweld a yw hynny'n digwydd yn ymarferol. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Darren Millar yn gynharach heddiw, rhan allweddol o adolygiad Beecham oedd y dylid gwneud rhai o'r newidiadau mwyaf sylfaenol cyn gynted ag sy'n bosibl. Dyma ni, bedair neu bum mlynedd yn ddiweddarach—oherwydd gwnaed y sylwadau hynny yn 2006—yn dadlau ynghylch hyn gyda'r un geiriau gwresog, ond beth sydd wedi digwydd yn ymarferol? A yw'r cydweithredu hwnnw'n digwydd yn effeithiol? A yw'n cael ei lywio'n gywir gan Lywodraeth glymbleidiol y Cynulliad? Ni chredaf ei fod.

O ran y gwasanaeth iechyd, tynnwyd sylw at y ffigur allweddol o danwariant gwerth £1 biliwn yn gynharach gan y Democratiaid

statistic that that £1 billion has been misspent, or not used as effectively as it could have been. That really is an indictment of where we are today. We know that things are financially tight but, at the end of the day, money could be spent a lot more effectively to deliver the sort of public services that we would like to see.

I would like to mention the £500 funding difference with England. I know that some voices have been saying that schools and colleges here should be expected to deal more efficiently with the limited resources that they get.

Nerys Evans *rose*—

Nick Ramsay: Sorry, Nerys, I do not have time. I have been visiting schools and colleges, and I think that it is terrible that there is that £500 difference in funding per pupil—no small amount—between here and across the border in England.

Alun Davies *rose*—

Nick Ramsay: I am sorry, Alun, I do not have time

The Deputy Presiding Officer: Order. He is not taking any interventions.

Nick Ramsay: A lot of warm words have been heard here today, but the purpose of this debate is to draw attention to the fact that what we would like to see is not happening on the ground. I am pleased to support this motion and to finally be able to support the amendments.

Alun Davies: Had you called me immediately after the opening speech, Deputy Presiding Officer, I am not sure how I would have responded to one of the most bizarre collections of curiosities and oddities to be laid before any parliamentary assembly in modern history. I have to say that Mark Isherwood placed before us something that I found to be impossible to follow and completely unintelligible. Since then, we have had from the Conservative benches perhaps a dose of reality: the truth of what is

Rhyddfrydol. Mae'n gywilyddus bod yr £1 biliwn dan sylw wedi cael ei gamwario, neu nad yw wedi'i ddefnyddio mor effeithiol ag y gallai. Mae'n gadarnhad gwirioneddol o'n sefyllfa heddiw. Gwyddom fod pethau'n dynn yn ariannol, ond yn y pen draw gellid gwario arian yn fwy effeithiol o lawer er mwyn darparu'r math o wasanaethau cyhoeddus yr hoffem eu gweld.

Hoffwn sôn am y gwahaniaeth o £500 mewn cyllid rhyngom ni a Lloegr. Gwn fod rhai wedi bod yn dweud y dylid disgwyl i ysgolion a cholegau yn y fan hon ymdopi'n fwy effeithlon â'r adnoddau cyfyngedig a gânt.

Nerys Evans *a gododd*—

Nick Ramsay: Mae'n ddrwg gennyf, Nerys, nid oes gennyf amser. Yr wyf wedi bod yn ymweld ag ysgolion a cholegau, a chredaf ei bod yn ofnadwy bod gwahaniaeth o £500—nid swm bychan—rhwyng y cyllid i bob disgybl yma a'r cyllid i bob disgybl dros y ffin yn Lloegr.

Alun Davies *a gododd*—

Nick Ramsay: Mae'n ddrwg gennyf, Alun, nid oes gennyf amser.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw'n derbyn ymyriadau.

Nick Ramsay: Clywyd llawer o eiriau cynnes yma heddiw, ond diben y ddadl hon yw tynnu sylw at y ffaith nad yw'r hyn y byddem yn dymuno'i weld yn digwydd ar lawr gwlad. Yr wyf yn falch o gefnogi'r cynnig hwn, ac o allu cefnogi'r gwelliannau o'r diwedd.

Alun Davies: Pe baech wedi galw arnaf yn syth ar ôl yr araith agoriadol, Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn siŵr sut y byddwn wedi ymateb i un o'r casgliadau mwyaf rhyfedd o bethau hynod ac od a gyflwynwyd gerbron unrhyw gynulliad seneddol mewn hanes diweddar. Rhaid imi ddweud bod Mark Isherwood wedi gosod ger ein bron rywbeth a oedd yn amhosibl ei ddilyn ac yn gwbl annealladwy yn fy marn i. Ers hynny, yr ydym wedi cael dogn o realiti efallai o feinciau'r Ceidwadwyr: y gwir am yr hyn

going on behind the motion that the Conservatives tabled this afternoon and an idea of what their thoughts are.

When Andrew R.T. Davies stood up to contribute to this debate, the first word that came to his mind was 'customer'. He did not say 'citizen'; he did not use the word that is written on the paper. Instead, he said 'customer'. That is quite instructive. What it tells you is that the Conservatives do not see public services as a service to the public or to the citizen. What they see is a business; they see something that, unless it is profitable, will simply be cut back.

Andrew R.T. Davies *rose—*

Alun Davies: No, I am not going to let you intervene at this point. The experience of the majority of us, for those periods in our lives when we have had Conservative Governments, has been that, when the Tories talk reform, what they mean is cuts—quite brutal cuts affecting only the most vulnerable people in society. That is because those 'customers', Andrew, do not make you a profit.

Andrew R.T. Davies: Thank you for taking the intervention. If you check most of the information and guidance that is given out by the Department for Work and Pensions or any operational charity, for example, you will see that these organisations look at the people who use those services as customers. That is because they are the users of those services. Sadly, it does show a rather damp ideological background on your part that you do not understand people's rights when they use those services.

Alun Davies: I do not think you appreciate the philosophical point that I was making. You certainly do not understand the basis on which public services in this country have been developed and will be developed in the future. Among some of the things that we have heard this afternoon from the Conservative benches have been many extravagant claims. What we have not heard has been a comparison of record. I think that

sydd y tu ôl i'r cynnig a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr y prynhawn yma, a syniad o'r hyn y maent yn ei feddwl.

